Arolygiaeth Prawf EM

# Sut mae'r Gwasanaeth Prawf yn defnyddio monitro electronig fel offeryn i leihau aildroseddu a rheoli risg

Arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Ionawr 2022

**Cydnabyddiaethau**

Arweiniwyd yr arolygiad hwn gan Shellie Adams, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr a staff gweithrediadau, staff ymchwil, staff cyfathrebu a staff chorfforaethol. Y rheolwr â chyfrifoldeb am y rhaglen arolygu hon yw Helen Davies. Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolygiad hwn mewn unrhyw ffordd. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl. Noder bod yr enwau yn yr enghreifftiau ymarfer, drwy'r adroddiad i gyd, wedi'u newid fel na ellir adnabod yr unigolion.

© Hawlfraint y Goron 2022

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) yn ddi-dâl ar unrhyw fformat neu gyfrwng, yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch e-bost i psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn destun hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint dan sylw.

ISBN: 978-1-914478-25-3

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho i lawr yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
Llawr 1af y Ganolfan Cyfiawnder Sifil
1 Bridge Street West
Manceinion
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

# Cynnwys


**Rhagair** .... 4

**Ffeithiau cyd-destunol** .... 5

**Crynodeb gweithredol** .... 6

**Argymhellion** .... 11

**1. Rhagarweiniad** .... 13

1.1. Pam y thema hon? .... 13

1.2. Cefndir .... 13

1.3. Nodau ac amcanion .... 15

1.4. Amlinelliad o'r adroddiad .... 15

**2. Arweinyddiaeth, strategaeth a pholisi** .... 16

2.1. Arweinyddiaeth a strategaeth genedlaethol .... 16

2.2. Polisi monitro electronig .... 17

2.3. Rheoli data a gwybodaeth .... 20

2.4. Casgliadau a goblygiadau .... 20

**3. Gwybodaeth cyn dedfrydu a chyn rhyddhau** .... 21

3.1. Adroddiadau cyn dedfrydu – penderfyniadau yn y llys .... 21

3.2. Adroddiadau cyn rhyddhau – achosion trwydded .... 25

3.3. Casgliadau a goblygiadau .... 28

**4. Cyfraniad y gwasanaeth prawf** .... 29

4.1. Asesiad cychwynnol .... 30

4.2. Cynllunio dedfrydau a rheoli risg .... 31

4.3. Rhoi gofynion monitro electronig ar waith a'u cyflawni .... 31

4.4. Adolygu gofynion monitro electronig .... 35

4.5. Gorfodi gofynion monitro electronig .... 36

4.6 Beth a ddywedodd pobl ar brawf wrthym .... 38

4.7 Casgliadau a goblygiadau .... 38

**5. Ymyriadau newydd a chynlluniau peilot monitro electronig** .... 40

5.1 Gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol (AAMR) .... 40

5.2 Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer, Llundain – cynlluniau peilot GPS .... 42

5.3 Cynllun peilot troseddu caffaelgar y Weinyddiaeth Gyfiawnder .... 44

5.4 Casgliadau a goblygiadau .... 44

**Cyfeiriadau** .... 46

**Atodiad 1: Mathau o ofyniad** .... 48

**Atodiad 2: Geirfa** .... 49

**Atodiad 3: Methodoleg** .... 51

# Rhagair

Ar unrhyw un adeg, mae tuag 8,000 o bobl ledled Cymru a Lloegr yn cael eu monitro'n electronig, naill ai fel rhan o ddedfryd gymunedol neu ar ôl cael eu rhyddhau o garchar. Mae'r arolygiad hwn yn edrych yn fanylach ar y ffordd mae'r Gwasanaeth Prawf yn defnyddio monitro electronig i ddiogelu'r cyhoedd, lleihau aildroseddu a chefnogi unigolion i symud tuag at fywydau heb droseddu.

Nid yw monitro electronig yn gysyniad newydd ynddo ei hun, ond mae newidiadau cyfreithiol a thechnolegol dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio'n amlach ac yn ehangach. Mae systemau lleoli byd-eang (GPS) nawr yn gallu dilyn unigolion yn fwy manwl gywir, ac mae tagiau monitro alcohol yn darparu canlyniadau monitro rheolaidd rownd y cloc. Ceir cryn dipyn o ddiddordeb gwleidyddol a chyhoeddus mewn 'tagio', ond ychydig iawn o ymchwil ynglŷn â'i effeithiau hirdymor ar unigolion na'i effaith ar gyfraddau troseddu. Y tro diwethaf i'r testun hwn gael ei arolygu oedd 2012, a hynny'n dilyn arolygiad blaenorol yn 2008. Yn 2012, nodwyd y dylid defnyddio tagio mewn modd mwy creadigol – nid dim ond i gosbi pobl, ond hefyd i helpu i newid ymddygiad.

Canfu ein harolygiad fod monitro electronig yn aml yn cael ei drin fel rhywbeth 'ychwanegol', yn hytrach na rhan annatod o oruchwyliaeth unigolyn. Mae toreth o bolisïau a chanllawiau ar gael i ymarferwyr prawf, ond nid yw'r rhain yn amlinellu'n glir sut y dylai monitro electronig ategu neu gryfhau gweithgareddau eraill i reoli unigolyn ar brawf yn effeithiol. Gwelsom nad oedd ymarferwyr bob amser yn trafod monitro electronig ag unigolion sydd ar brawf – gellid defnyddio'r data fel sail i sgyrsiau, ond nid yw hyn bob amser yn digwydd. Collwyd cyfleoedd i gydnabod cynnydd cadarnhaol neu i gyfeirio pobl sydd wedi cwblhau monitro alcohol at gefnogaeth bellach. Dywedodd pobl sydd ar brawf wrthym fod defnyddio monitro'n cynnig cyfnod o sefydlogrwydd iddynt a rheswm i dorri eu cysylltiad â chyd-droseddwyr.

Er bod ymarferwyr prawf yn gadarnhaol ynglŷn â photensial monitro electronig i gynorthwyo pobl i ymatal a rheoli risg o niwed, roedd cael gafael ar wybodaeth am eu hachosion yn peri rhwystredigaeth i lawer ohonynt. Mae'r broses o ofyn am ddata am symudiadau unigolyn yn cymryd amser hir. Nid yw'r contract â'r asiantaeth monitro electronig yn pennu amser ymateb ar gyfer pob math o achos – gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr yn aros hyd at dridiau am wybodaeth am leoliad mewn achosion a oedd yn peri risg uchel o niwed difrifol. Nid yw cynlluniau i sefydlu porth i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ymarferwyr am symudiadau a thor-amodau unigolion wedi'u gwireddu. Dywedodd bron bob un o'r ymarferwyr y siaradwyd â hwy y byddai porth o'r fath wedi eu helpu i reoli achosion yn fwy effeithlon.

Gellir defnyddio cyrffyw cyfyngu i'r cartref mewn achosion lle mae troseddwyr yn gymwys i gael eu rhyddhau'n gynnar o'r carchar. Dywedodd ymarferwyr prawf wrthym eu bod yn teimlo bod bron bob penderfyniad wedi'i bwysoli tuag at ryddhau, beth bynnag oedd eu pryderon. Mae bylchau mawr yn yr asesiad a ddefnyddir i wneud penderfyniadau – un o'r prif rai yw a yw cyfeiriad y cyrffyw arfaethedig wir yn addas. Nid oes polisi cenedlaethol i orfodi archwiliadau diogelu a cham-drin domestig yn y cyfeiriadau hyn, a gwelsom nad oedd yr archwiliadau hyn yn cael eu cynnal fel mater o drefn yn y llys na chyn rhyddhau unigolion o'r carchar ar gyrffyw. Mae'n destun pryder difrifol y gallai pobl fod yn cael eu rhoi ar gyrffyw mewn cartrefi lle gallai fod risg o niwed i eraill, neu gan eraill. Rydym yn argymell adolygiad brys o'r broses asesu.

Ein casgliad yw bod gan fonitro electronig gryn botensial i ychwanegu gwerth at waith y Gwasanaeth Prawf. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith cyn gwireddu'r manteision hyn yn llawn. Rydym yn argymell y dylai uwch arweinwyr HMPPS gomisiynu ymchwil i ddeall effaith monitro electronig a sut i fanteisio i'r eithaf ar yr offeryn hwn. Dylent hefyd amlinellu strategaeth i'w ddefnyddio ar draws y Gwasanaeth Prawf a sicrhau bod y wybodaeth monitro electronig ddiweddaraf ar gael i ymarferwyr, yn ogystal â hyfforddiant i gryfhau eu gwybodaeth a'u hyder. Rydym hefyd wedi gwneud nifer o argymhellion gweithredol i gynorthwyo i ddefnyddio'r offeryn i ddiogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu.



**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM

Ionawr 2022

## Ffeithiau cyd-destunol[1]

| | |
|---|---|
| **38,960** | Nifer y carcharorion oedd yn gymwys i gael eu rhyddhau ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref yn 2020/2021[2] |
| **26%** | Canran y carcharorion cymwys a gafodd eu rhyddhau ar gyrffyw cyfyngu<br>i'r cartref – Ionawr hyd Mawrth 2021[2] |
| **10%** | % o achosion cyrffyw cyfyngu i'r cartref sy'n cael eu hadalw i'r carchar, Hydref 2019 hyd Medi 2020[2] |
| **87,894** | Nifer y gorchmynion cymunedol a gychwynnwyd (gan gynnwys gorchmynion dedfryd ohiriedig), Ebrill 2020 hyd Mawrth 2021[2] |
| **3,924** | Nifer y bobl ar orchmynion cymunedol (gan gynnwys gorchmynion dedfryd ohiriedig) wedi'u monitro'n electronig ar 31 Mawrth 2020[3] |
| **2,968** | Nifer y bobl wedi'u monitro'n electronig ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar ar 31 Mawrth 2020[3] |
| **19,265** | Nifer y gofynion cyrffyw cymunedol a gyflwynwyd[4] |
| **473** | Nifer y gofynion cymunedol wedi'u gorfodi gan GPS a gyflwynwyd[4] |
| **1,565** | Nifer y gofynion monitro ymwrthod ag alcohol (AAMR) cymunedol a gyflwynwyd (yn fyw yng Nghymru o Dachwedd 2020 ymlaen ac yn Lloegr o 31 Mawrth 2021) ymlaen[5] |

[1] Mae data am orchmynion cymunedol yn cynnwys dedfrydau cymunedol â gofynion monitro electronig yn unig, wedi'u rheoli gan Wasanaethau Monitro Electronig

[2]Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Ystadegau Rheoli Troseddwyr* Ebrill 2020 hyd Mawrth 2021, *Rhyddhau o'r Carchar*, Ionawr hyd Mawrth 2021.

[3] HMPPS. (2020). *Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb Troseddwyr 2019/20*.

[4] HMPPS. (2021). Data mewnol, Chwefror 2020 hyd Ionawr 2021.

[5]Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). Ffigurau mewnol, yn gywir ar 24 Medi 2021.

# Crynodeb gweithredol

## Rhagarweiniad

Diogelu'r cyhoedd, grymuso pobl sy'n troseddu i wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw a lleihau'r siawns o aildroseddu yw dibenion craidd y Gwasanaeth Prawf. Mae monitro electronig (ME) wedi cael ei ddefnyddio fel offeryn i gynorthwyo'r Gwasanaeth Prawf i gyflawni'r nodau hyn ers dros 20 mlynedd, ond dim ond yn ddiweddar yr ydym yn dechrau deall ei wir werth yn iawn ers cyflwyno technolegau newydd a ffyrdd newydd o'u cymhwyso.

Cyflwynwyd ME yn wreiddiol yn HMPPS fel offeryn i fonitro amodau cyrffyw mechnïaeth ar gyfer achosion a oedd yn gymwys i gael eu rhyddhau o'r carchar yn gynharach yn ystod eu dedfryd. Mae technolegau newydd yn cyflwyno cyfleoedd digynsail i fonitro pobl ar brawf ac ymgysylltu â hwy mewn ffyrdd hollol wahanol. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno tagiau systemau lleoli byd-eang (GPS) yn 2018/2019 i fonitro ble mae rhai unigolion ar ôl eu rhyddhau o'r carchar[6] a phobl sy'n cael dedfryd gymunedol yn y llys. Mae'r llys nawr yn gallu defnyddio tagiau monitro alcohol fel rhan o ofyniad monitro ymwrthod ag alcohol (AAMR) ers i'r gofyniad ychwanegol hwn gael ei gyflwyno yn 2020-2021.

Defnyddir tri math o dechnoleg erbyn hyn: tagiau amledd radio; technoleg GPS; a thagiau monitro alcohol. Mae dadansoddiad manwl o bob un o'r rhain ar gael yn Atodiad 1.

Hwn yw'r arolygiad cyntaf sy'n archwilio monitro electronig ar draws pob un o'r mathau hyn o ofynion. Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar sut mae HMPPS yn defnyddio tagiau, mae bron hanner yr holl achosion monitro electronig ar hyn o bryd (tua 7,500)[7] yn cael eu defnyddio i fonitro amodau mechnïaeth, a'r heddlu'n gweithredu fel y swyddog cyfrifol. Cynhelir y ddarpariaeth monitro electronig gan asiantaeth allanol, y Gwasanaethau Monitro Electronig (EMS).

Erbyn hyn ceir pwyslais gwirioneddol, â chefnogaeth wleidyddol, i ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael i reoli pobl ar brawf yn fwy cadarn. Mae hyn yn cynnwys defnyddio monitro electronig i'w botensial llawn. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen newid y berthynas rhwng goruchwylio prawf a monitro electronig.

## Methodoleg arolygu

Mae'r adroddiad arolygu hwn yn casglu gwybodaeth o'n 'galwad am dystiolaeth' ac o arolygu achosion yng Nghymru, Swydd Efrog a'r Humber, Canol De Lloegr, Llundain, Gogledd Orllewin Lloegr a Dwyrain Canolbarth Lloegr. Dechreuodd gwaith maes arolygu yn fuan ar ôl uno'r Gwasanaeth Prawf ym Mehefin 2021, ond roeddem wedi dechrau monitro'r achosion a arolygwyd ar ddiwedd 2020/dechrau 2021 pan oedd y gwasanaeth yn dal i gael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) a Chwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRCs) a defnyddiwyd achosion gan y ddau o'r rhain.

Dadansoddwyd sampl cynrychiadol o 172 o achosion pobl ar brawf a ryddhawyd o garchardai ag amodau trwydded monitro electronig neu bobl yr oedd y llys wedi rhoi gofyniad monitro electronig yn y gymuned iddynt fel rhan o'u dedfryd[8], yn ystod y cyfnod 31 Hydref 2020 hyd 31 Ionawr 2021. Roedd hyn yn cynnwys dedfrydau byr a hir a phob math o droseddau. At ei gilydd, roedd 49 y cant o'r achosion yn achosion gorchmynion cymunedol a 51 y cant ohonynt yn achosion goruchwylio ar

[6] Ac eithrio mewn cynlluniau peilot rhanbarthol, mae hyn yn berthnasol i bobl sydd wedi cael dedfryd am oes, dedfryd amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd neu ddedfryd benodol estynedig. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl gymeradwyo rhyddhau'r unigolyn o'r carchar.

[7] Tîm Monitro Electronig. (2021). Data heb eu cyhoeddi. Chwefror 2021.

[8] Cyfeirir at hwn drwy'r adroddiad i gyd fel gorchymyn cymunedol, ac mae'n cyfeirio at bobl sydd wedi cael gorchymyn cymunedol a/neu orchymyn dedfryd ohiriedig.

drwydded ar ôl rhyddhau. Lle bynnag yr oedd yn bosibl, cynhaliwyd cyfweliad â'r ymarferwr prawf ac, ym mhob achos, archwiliwyd ansawdd adroddiadau ac asesiadau cyn rhyddhau/cyn dedfrydu, a'r ymyriadau a ddilynodd y rhain. EMS sy'n rheoli dedfrydau cymunedol â dim ond un gofyniad monitro electronig, ac ni chafodd y rhain eu cynnwys yng nghwmpas yr arolygiad hwn. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd a chyfweliadau ag arweinwyr strategol, rheolwyr lleol, dedfrydwyr a chomisiynwyr heddlu a throseddu, ymysg eraill. Cynhaliodd y sefydliad Penal Reform Solutions gyfweliadau â 42 o bobl ar brawf ar ein rhan. Cyhoeddir eu gwaith ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ac mae'r canfyddiadau allweddol a dyfyniadau hefyd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Hefyd, adolygwyd data a gwybodaeth a gyflwynwyd gan Dîm Monitro Electronig canolog HMPPS a chawsant eu cynnwys mewn cyfarfodydd cenedlaethol. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a'r modelau cyflawni eithriadol sydd ar waith mewn llawer o wasanaethau, cynhaliwyd yr arolygiad hwn o bell. Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Atodiad 3.

## Arweinyddiaeth, strategaeth a pholisi

Ceir diddordeb gwleidyddol sylweddol mewn defnyddio monitro electronig er mwyn gallu rheoli pobl ar brawf yn well. Mae deddfwriaeth dros yr 20 mlynedd diwethaf wedi ein galluogi i'w ddefnyddio mewn ffyrdd mwy dyfeisgar ac ymwthgar. Fodd bynnag, ceir diffyg tystiolaeth gyffredinol am effeithiolrwydd ymyriadau o'r fath yn fwy hirdymor. Mae llawer o'r iaith bresennol o gwmpas monitro electronig yn ei gysylltu â lleihau aildroseddu. Mae hyn yn cael ei brofi drwy gyfrwng cynlluniau peilot troseddu caffaelgar newydd, a fydd yn caniatáu mapio data troseddu, gan ddefnyddio technoleg GPS.

Mae dyraniad monitro GPS yn peri dryswch. Mae ar gael fel opsiwn dedfrydu mewn achosion risg is drwy'r llys ond, ac eithrio mewn achosion cyfyngedig iawn, nid yw'r opsiwn hwn ar gael i fonitro pobl sydd wedi cyflawni troseddau treisgar a rhywiol ac sydd wedi cael dedfrydau penodol safonol o garchar ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar. Mewn rhai achosion, byddai'n ychwanegu gwerth gwirioneddol at reoli risg unigolion. O ganlyniad, mae rhanbarthau prawf yn canfod eu datrysiadau eu hunain ar gyfer y garfan hon drwy ddefnyddio tagio 'Buddi' [9] gwirfoddol wedi'i hwyluso gan bartneriaid yn yr heddlu.

Rheolir rhaglen monitro electronig HMPPS yn ganolog gan Dîm Monitro Electronig, a hynny yn bennaf ar sail 'gorchwyl a gorffen'[10]. Mae tirwedd eu gwaith yn eang iawn ac mae'n cynnwys rheoli contractau, dylunio gwasanaethau a chyflenwi rhaglenni, gan ymwneud â monitro electronig mewn achosion mechnïaeth a mewnfudo yn ogystal â phrawf. Mae'r gofynion ar y tîm hwn wedi cynyddu a chynyddu, gan gynnwys rheoli monitro electronig fel gwasanaeth ac fel contract. Mae hyn wedi bod yn gymhleth ac fe'i beirniadwyd yn gyhoeddus dros y blynyddoedd. Bu diffyg ffocws canolog ar y fframwaith strategol a hefyd ar sut i gyflawni monitro electronig yn weithredol er mwyn gallu rheoli pobl ar brawf yn well, ac ni roddwyd blaenoriaeth i ansawdd cyflenwi mewn achosion prawf.

Nid oes polisi cyffredinol na fframwaith gweithredol canolog i arwain ymarferwyr prawf at y ffordd fwyaf effeithiol, effeithlon a chadarn o integreiddio monitro electronig yn y gwaith a wnânt. Mae arweiniad ynghylch polisi ac ymarfer wedi'i wasgaru dros nifer o feysydd nad ydynt yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae llawer iawn o wybodaeth ar gael i ymarferwyr. Mae'n cael ei chymhlethu ymhellach gan y cynnydd cyson yn nifer y mathau posibl o dechnoleg, y ffyrdd y gellir eu defnyddio a'r carfannau y maent yn berthnasol iddynt.

Mae casglu a dadansoddi data yn wael ar draws swyddogaethau polisi canolog, y Tîm Monitro Electronig a'r Gwasanaeth Prawf. Ceir anghywirdebau cofnodi data ar bob lefel, a diffyg gwybodaeth ynghylch y bobl sy'n destun monitro electronig a hefyd sut y caiff y data eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys methiant i gasglu gwybodaeth ddemograffig a chraffu arni, ac anallu i werthuso unrhyw anghymesuredd posibl.

[9] Darparwyr cyfarpar monitro lleoliad GPS, a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau gan rai heddluoedd ledled Cymru a Lloegr.

[10] Darnau o waith â'r nod o gyflawni amcan penodol o fewn amser cyfyngedig.

## Gwybodaeth cyn dedfrydu a chyn rhyddhau

Nid oes polisi canolog i orfodi cwblhau archwiliadau cam-drin domestig na diogelu ar adeg dedfrydu na rhyddhau pobl sy'n cael cyrffyw â monitro electronig. Gwelsom nad oedd ymarferwyr prawf bob amser yn gwneud yr archwiliadau hyn yn rheolaidd. Roedd y rhai a oedd yn gwneud hyn yn aml yn gweld bod asiantaethau partner yn araf i ddychwelyd gwybodaeth. Hyd yn oed pan oedd gwybodaeth ar gael, nid oedd yn cael ei defnyddio cystal â phosibl ac roedd penderfyniadau gwael yn cael eu gwneud, mewn cynigion dedfrydu yn y llys a hefyd wrth ryddhau ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC). O ystyried risgiau posibl rhoi gofyniad o'r fath ar gyfer cyfeiriad cartref sy'n peri risg o niwed i bobl, mae hyn yn annerbyniol.

Gwelwyd nad yw prosesau asesu HDC yn ddigon da. Ers adolygiad polisi yn 2018, bu cynnydd sylweddol o ran rhyddhau pobl yn gynnar os ydynt yn gymwys i gael eu rhyddhau yn unol â'r cynllun. Dywedodd ymarferwyr prawf wrthym eu bod yn teimlo bod penderfyniadau rhyddhau HDC bron bob amser wedi'u pwysoli tuag at ryddhau cadarnhaol, beth bynnag oedd eu pryderon. Er y gwelsom y gallai ymarferwyr prawf wneud mwy i sicrhau bod eu hasesiadau'n fwy trwyadl, mae bylchau sylweddol yn y fformat asesu y gofynnir iddynt ei gwblhau, yn bennaf cwestiwn clir ynghylch a yw'r cyfeiriad wir yn addas. Mae angen rhoi sylw i hyn ar unwaith.

Roedd argymhellion i roi gofynion GPS ar waith yn tueddu i fod yn fwy gwybodus, o ran asesiadau cyn dedfrydu a chyn rhyddhau, ac wedi'u cwblhau at safon uwch, er bod dryswch yn parhau ynghylch pwy sy'n gymwys i gael pa fath o ymyriad. Hefyd, o fewn rhai llysoedd ceir diffyg gwybodaeth am benderfyniadau o'r fath, ymysg staff llysoedd prawf a hefyd dedfrydwyr, sy'n golygu na chaiff gofynion GPS eu hargymell na'u rhoi ar waith yn aml.

## Cyfraniad y gwasanaeth prawf

At ei gilydd, roedd prinder tystiolaeth bod ymyriadau monitro electronig yn cael eu hystyried fel mater o drefn mewn prosesau asesu, cynllunio dedfrydau neu reoli risg. Nid oedd gofynion monitro electronig wedi'u hintegreiddio'n dda ac nid oeddent yn cael eu trafod yn rheolaidd â phobl ar brawf, felly collwyd cyfleoedd i adeiladu ar gynnydd a wnaethpwyd yn ystod cyfnod cymharol sefydlog i unigolion. Nid oedd adolygiad rheolaidd ar ddiwedd cyfnodau monitro electronig ac felly nid oedd y bobl hynny sydd ar brawf yn cael atgyfnerthiad cadarnhaol am lwyddo i gwblhau elfennau ar eu dedfryd.

Roedd achosion o ryddhau o garchar â gofynion GPS yn cael eu rheoli'n well nag achosion sy'n cael eu monitro â GPS fel rhan o ddedfryd gymunedol. Er y gwelwyd elfennau o arfer da, gwelsom mai anaml y gwneir cais am ddata olrhain symudiadau, a bod pobl yn camddeall gallu'r gofyniad a osodwyd. Er enghraifft, roedd ymarferwyr yn gwneud y camgymeriad o feddwl y byddai parth eithrio'n cael ei fonitro'n awtomatig, ond mewn gwirionedd mae angen gofyniad penodol ar y drwydded neu'r gorchymyn cymunedol i wneud hyn.

Ar y cyfan, gwelsom fod ymarferwyr prawf yn gefnogol tuag at ddefnyddio monitro electronig ac yn gallu gweld sut y gallai eu helpu i wneud eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'n cael ei fewnblannu a'i integreiddio'n rheolaidd fel offeryn i gynorthwyo i reoli achosion, ac mae ymarferwyr prawf yn colli cyfleoedd i wella goruchwyliaeth. Mae diffyg gwybodaeth gyfredol i ymarferwyr am y bobl hynny sydd ar brawf ac yn cael eu monitro'n electronig yn gwneud y sefyllfa hon yn waeth. Mae'r llwybrau cyfathrebu â darparwyr monitro electronig yn gallu bod yn gymhleth, sy'n arwain at oedi cyn y gall ymarferwyr prawf allu cael gwybodaeth am fonitro. Mae hyn yn arwain at gryn rwystredigaeth. Hefyd, nid yw ymarferwyr prawf wedi'u hyfforddi'n ddigonol ynghylch y technolegau monitro electronig diweddaraf, sy'n arwain at fylchau o ran gwybodaeth a dealltwriaeth ynglŷn â sut i'w defnyddio a'u rheoli'n hyderus ar gyfer eu hachosion.

## Ymyriadau newydd a chynlluniau peilot monitro electronig

Roedd ein harolygiad yn cynnwys sampl bach o ymyriadau newydd. Er y gwelwyd bod gofynion monitro ymwrthod ag alcohol (AAMRs) yn lleihau'r risg o niwed difrifol ac yn darparu mesur rheoli a monitro mesuradwy yn y sampl o achosion a arolygwyd, ar y cyfan, gwelwyd problemau tebyg i'r rhai a oedd wedi cael mathau eraill o ymyriadau. Roedd y rhain yn cynnwys methu ag integreiddio'r AAMR ym mhrosesau asesu a chynllunio dedfrydau. Er y cafwyd tystiolaeth gadarnhaol bod y gofyniad hwn yn cael ei archwilio wrth oruchwylio, nid oedd hyn yn digwydd ym mhob achos ac unwaith eto collwyd cyfleoedd i roi atgyfnerthiad cadarnhaol i gynnydd. Roedd diffyg adolygu cyson ar ddiwedd y gofyniad a phrinder cyfeirio ymlaen i'r rheini a oedd yn parhau i fod â phroblemau cysylltiedig ag alcohol. Gosodwyd y gofyniad yn anghywir mewn dau achos â phroblemau iechyd a dibyniaeth ar alcohol. Er y bwriedir yr ymyriad fel gwaharddiad llwyr ar alcohol, mae ymarferwyr prawf yn ei ddefnyddio i gynorthwyo rhai unigolion i yfed llai. Mae'n ymddangos y gall hyn fod yn briodol, cyn belled â'i fod wedi'i asesu a'i reoli'n ddiogel.

Mae cynlluniau peilot yn cael eu cynnal ar gyfer tagio monitro lleoliad â GPS i ddwy garfan newydd yn Llundain – pobl sy'n troseddu â chyllell a throseddwyr cam-drin domestig risg uchel – a gwerthusir y rhain ym Mawrth 2022 a haf 2022 yn ôl eu trefn. Yn y cyfamser, gwelodd yr arolygiad hwn enghreifftiau cadarnhaol o sut a phryd y defnyddiwyd tagio GPS yn effeithiol, ac mae'n galonogol bod y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystyried defnyddio monitro electronig â phobl sy'n peri risg o gam-drin domestig fel rhan o gynlluniau i ehangu monitro electronig. Os cytunir ar hyn, bydd defnyddio monitro electronig â throseddwyr cam-drin domestig yn ategu menter beilot sy'n cael ei chyflwyno gan HMPPS ar hyn o bryd, gan ddefnyddio tagio GPS a mapio troseddau i dargedu pobl sy'n cyflawni troseddau caffaelgar â'r nod o leihau eu haildroseddu.

## Amserlen datblygu monitro electronig

### 1999

Cyflwyno monitro electronig yng Nghymru a Lloegr.

Cyrffyw cyfyngu i'r cartref – i droseddwyr sydd wedi'u rhyddhau o'r carchar ar y cynllun hwn.

Tagiau amledd radio – dangos a yw'r gwisgwr mewn lleoliad penodol ai peidio (h.y. gartref).

Monitro cyrffyw yn unig.

Darperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Monitro Electronig.

### 2000

Cyflwyno monitro electronig fel opsiwn dedfrydu mewn gorchmynion llys.

Yn berthnasol i ofynion cyrffyw yn unig.

Tagiau amledd radio – dangos a yw'r gwisgwr mewn lleoliad penodol ai peidio (h.y. gartref).

Darperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Monitro Electronig.

### 2010

Cyflwyno systemau lleoli byd-eang (GPS) wrth i'r heddlu gomisiynu tagiau Buddi.

Mae tagiau GPS yn monitro lleoliad y gwisgwr yn barhaus ac yn olrhain ei symudiadau.

Dim ond yn wirfoddol y gellir eu defnyddio, h.y. nid ydynt yn orfodadwy.

Dim ond mewn ardaloedd lle mae'r heddlu wedi comisiynu'r gwasanaethau hynny y maent ar gael, ac maent ar gael i'r Gwasanaethau Prawf mewn cysylltiad â'r heddlu.

Darperir ar hyn o bryd gan Buddi.

### 2018/2019

Cyflwyno GPS fel opsiwn dedfrydu yn genedlaethol yn y llysoedd, ac i'w ddefnyddio fel amod trwydded ar gyfer achosion dedfrydau oes, amhenodol ac estynedig.

Mae tagiau GPS yn monitro lleoliad y gwisgwr yn barhaus ac yn olrhain ei symudiadau.

Gellir monitro parthau eithrio, gweithgareddau a waherddir, presenoldeb gorfodol neu fonitro trywydd.

Darperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Monitro Electronig.

### Chwefror 2019

Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer (Llundain) yn lansio cynllun peilot tagio GPS ar gyfer troseddau â chyllell.

Fe'i defnyddir fel amod trwydded ychwanegol ar ôl rhyddhau o'r carchar naill ai am drosedd meddiant cyllell neu drosedd arall yn cynnwys defnyddio cyllell.

Dim ond ar gyfer pobl ar brawf a reolir yn Llundain y gellir ei ddefnyddio.

Cynhelir y cynllun peilot hyd at Fawrth 2022.

Darperir ar hyn o bryd gan Buddi.

### Hydref 2020

Cyflwyno tagiau monitro alcohol fel opsiwn dedfrydu mewn llysoedd yng Nghymru.

Fe'i defnyddir i fonitro gofynion monitro ymwrthod ag alcohol (AAMR) am hyd at uchafswm o 120 diwrnod.

Monitro a yw'r gwisgwr yn yfed alcohol, gan gymryd darlleniadau bob 30 munud.

Darperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Monitro Electronig.

### Mawrth 2021

Cyflwyno tagiau monitro alcohol fel opsiwn dedfrydu ym mhob llys ledled Lloegr.

Fe'u defnyddir i fonitro AAMRs am hyd at uchafswm o 120 diwrnod.

Monitro a yw'r gwisgwr yn yfed alcohol, gan gymryd darlleniadau bob 30 munud.

Darperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Monitro Electronig.

Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer (Llundain) yn lansio cynllun peilot tagio GPS ar gyfer troseddau cam-drin domestig.

Fe'i defnyddir fel amod trwydded ychwanegol ar ôl rhyddhau o'r carchar am drosedd sy'n ymwneud â cham-drin domestig os asesir bod risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol.

Dim ond ar gyfer pobl ar brawf a reolir yn Llundain y gellir ei ddefnyddio.

Cynhelir y cynllun peilot hyd at Fawrth 2022.

Darperir ar hyn o bryd gan Buddi.

### Ebrill 2021

Lansio'r cynllun braenaru ar gyfer troseddu caffaelgar – mewn chwe ardal heddlu i ddechrau.

Defnyddio tagiau GPS i fonitro symudiadau unigolion ar drwydded am hyd at uchafswm o 12 mis.

I fod yn gymwys, rhaid i unigolion fod wedi cael dedfryd o garchar am 12 mis o leiaf am droseddau caffaelgar penodol.

Darperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Monitro Electronig.

### Medi 2021

Estyn y cynllun braenaru ar gyfer troseddu caffaelgar i 13 ardal heddlu ychwanegol.

Defnyddio tagiau GPS i fonitro symudiadau unigolion ar drwydded am hyd at uchafswm o 12 mis.

I fod yn gymwys, rhaid i unigolion fod wedi cael dedfryd o garchar am 12 mis o leiaf am droseddau caffaelgar penodol.

Darperir ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Monitro Electronig.

## Argymhellion

**Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder:**

1. sicrhau y cesglir data am bob agwedd ar fonitro electronig ac y dadansoddir y data hyn er mwyn rhoi sail i sut i'w defnyddio a'u datblygu, gan gynnwys dadansoddi data am ddedfrydu a rhyddhau o'r carchar yn strategol, a gwybodaeth am ddemograffeg a nodweddion gwarchodedig
2. comisiynu ymchwil strwythuredig i gael gwell dealltwriaeth o effaith monitro electronig a gwerthuso sut y gall sicrhau'r canlyniadau gorau
3. sicrhau bod contractau yn y dyfodol i ddarparu monitro electronig yn deall anghenion cyflenwi'r Gwasanaeth Prawf, gan gynnwys sicrhau bod data monitro cyfredol ar gael, rhannu gwybodaeth am orfodi yn amserol, ymateb yn gyflymach i alwadau a negeseuon e-bost, a blaenoriaethu achosion sy'n peri risg uchel o niwed difrifol.

**Dylai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi:**

4. cyhoeddi polisi, gweledigaeth, strategaeth a fframwaith gweithredol wedi'u diffinio'n glir er mwyn i ymarferwyr prawf gyflawni monitro electronig, gan gynnwys:
   a) diffinio'n glir beth yw pwrpas pob math o fonitro electronig a'r ffordd fwyaf priodol o ddefnyddio pob un mewn achosion
   b) diffinio'n glir beth yw rolau a chyfrifoldebau'r Gwasanaethau Prawf a darparwyr monitro electronig
   c) camau gweithredu gorfodol i reoli gofynion/amodau monitro electronig wedi'u diffinio mewn un ddogfen
   ch) arweiniad clir ynghylch sut i reoli a gorfodi gofynion/amodau monitro electronig, gan gynnwys sut i integreiddio monitro electronig yn gyffredinol wrth reoli achosion
5. sicrhau bod monitro electronig ar gael fel opsiwn i reoli pobl ar brawf sydd wedi cael dedfrydau penodol safonol o garchar ac y nodir eu bod yn peri risg uchel o niwed difrifol ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar
6. gwneud newidiadau ar unwaith i ofynion contractau presennol i sicrhau:
   a) yr hysbysir yn gyflymach am dorri amodau trwydded (gan gynnwys rhannu copi o unrhyw rybuddion a roddir gan y Gwasanaethau Monitro Electronig (EMS) am dorri amodau cyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC))
   b) gwella amseroedd ymateb dros y ffôn a drwy e-bost ar gyfer ymarferwyr prawf a phobl ar brawf
   c) gwella amseroldeb data monitro trywydd – i'w dychwelyd o fewn 24 awr ar ôl cais
   ch) hysbysu'n awtomatig am bob achos o dorri amodau cyrffyw gan bobl ar brawf yr aseswyd eu bod yn peri risg uchel o niwed difrifol
7. comisiynu porth hunanwasanaeth i ymarferwyr i ddarparu'r data diweddaraf am gydymffurfio a monitro electronig i ymarferwyr prawf ar gyfer yr achosion y maent yn eu rheoli
8. gorfodi'r gofyniad i wneud archwiliadau cam-drin domestig a diogelu cyn argymell dedfryd neu ryddhau rhywun ar gyrffyw wedi'i fonitro'n electronig
9. gweithio gyda'r heddlu a gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ar lefel genedlaethol i sicrhau bod ymarferwyr prawf ym mhob rhanbarth yn cael archwiliadau cam-drin domestig a diogelu, mewn modd amserol, cyn dedfrydu/rhyddhau

10. diweddaru meysydd gofynion NDelius a chyhoeddi arweiniad i sicrhau y cofnodir gofynion sy'n cael eu monitro'n electronig ac fel arall yn fanwl gywir
11. diweddaru prosesau gwirio cyfeiriad HDC i fynnu bod ymarferwyr prawf yn pennu a yw'r cyfeiriad rhyddhau arfaethedig wedi'i asesu fel un addas (h.y. nad oes risgiau posibl i'r deiliad tŷ – nac i'r unigolyn ar brawf), i sicrhau bod carchardai'n gwneud penderfyniadau diogel.

**Dylai'r Gwasanaeth Prawf:**

12. sicrhau bod pob ymarferwr prawf yn cael hyfforddiant ynghylch monitro electronig a sut i integreiddio'r gwahanol fathau o dechnoleg sydd ar gael wrth reoli achosion pobl ar brawf yn gyffredinol
13. sicrhau bod ymarferwyr prawf yn cofnodi'n glir ac yn dadansoddi sut y bydd monitro electronig yn ategu'r gwaith o reoli risg pobl ar brawf
14. sicrhau bod ymarferwyr prawf yn nodi'n glir beth yw'r gofynion monitro electronig mewn prosesau cynllunio dedfrydau, gan gynnwys adolygu cynnydd yn rheolaidd â'r unigolyn ar brawf
15. sicrhau bod hyfforddiant i staff llys yn cynnwys y technolegau GPS sydd ar gael fel opsiwn dedfrydu, gan ddarparu dealltwriaeth glir o'u pwrpas a'u cwmpas
16. gweithio gyda phartneriaid lleol i rannu gwybodaeth am gam-drin domestig a diogelu yn fwy amserol ar y cam cyn dedfrydu/cyn rhyddhau i roi sail i asesiadau cadarn
17. sicrhau y gorfodir pob achos yn ôl yr angen.

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1. Pam y thema hon?

Mae rôl monitro electronig, a sut y caiff ei ddefnyddio yn y dyfodol, yn destun diddordeb cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae Gweinidogion wedi nodi bwriad clir i ehangu'r ddarpariaeth bresennol, gan addo £183 miliwn ychwanegol i ariannu ei defnyddio'n ehangach (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2021). Mae hyn yn seiliedig ar ymrwymiadau maniffesto, a cheir uchelgeisiau clir y bydd y buddsoddiad hwn yn chwarae rhan bwysig i daro targedau lleihau aildroseddu.

Er bod monitro electronig wedi cael ei ddefnyddio i reoli achosion ar draws y gwasanaethau prawf ers dros 20 mlynedd, mae'r ffyrdd y gellir defnyddio hyn wedi ehangu'n gymharol gyflym yn ddiweddar. Mae hyn yn cynnwys gwell gallu i fonitro lleoliad â systemau lleoli byd-eang (GPS) a defnyddio technoleg i orfodi gwaharddiadau alcohol a osodir gan y llys â'r gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol (AAMR). Mae technolegau newydd wedi cael eu cyflwyno dros y tair mlynedd diwethaf ar draws carfannau'r llysoedd a charchardai. Nid ydym yn gwybod a yw monitro electronig wedi'i integreiddio'n dda fel offeryn i'r Gwasanaeth Prawf i leihau aildroseddu a rheoli risg.

Y tro diwethaf i Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi arolygu defnyddio monitro electronig oedd 2012, a hynny'n dilyn arolygiad blaenorol yn 2008. Yn 2012, nodwyd y dylid defnyddio tagio mewn modd mwy creadigol – nid dim ond i gosbi pobl, ond hefyd i helpu i newid ymddygiad. Roedd cyfathrebu â darparwyr monitro electronig a'r llysoedd, yn ogystal â gorfodi, yn dal i fod yn broblem.
Mae'r technolegau sydd ar gael, sut y'u defnyddir a pha mor aml y'u defnyddir wedi datblygu'n sylweddol dros y naw mlynedd diwethaf.

Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth newydd i gryfhau'r gallu i orchymyn monitro electronig yn y llys, y cynnig i gynyddu pwerau ymarferwyr prawf a'r awydd i ddefnyddio mwy o fonitro electronig fel offeryn i reoli carfannau penodol o bobl ar brawf i gyd yn arwydd o newid y ffordd y disgwylir i wasanaethau prawf ryngweithio ag achosion o'r fath a'u rheoli.

Bwriad yr arolygiad hwn oedd profi effaith polisïau a strategaethau cenedlaethol hyd yma, diweddaru dealltwriaeth o sut yr ymgorfforir monitro electronig wrth reoli pobl ar brawf, a rhoi sail i ddatblygiadau cyn newid polisïau a rhoi pwerau dedfrydu newydd.

## 1.2. Cefndir

Cyflwynwyd y cyrffyw monitro electronig, gan ddefnyddio technoleg amledd radio, gyntaf gan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991*. Yn wreiddiol, cyflwynwyd monitro electronig ledled Cymru a Lloegr yn 1999 i ategu cyflwyno'r cynllun cyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC). O dan HDC, gall unigolion sydd wedi'u dedfrydu i rhwng 12 wythnos a phedair mlynedd yn y carchar fod yn gymwys i gael eu rhyddhau'n gynnar; ystyrir bod hwn yn ddewis arall cadarn a chost-effeithiol yn hytrach na mynd i'r carchar, gan wella goruchwyliaeth yn y gymuned. Gellir gosod HDC am o leiaf pythefnos a hyd at 135 diwrnod tan y dyddiad rhyddhau amodol, sef hanner ffordd drwy ddedfrydau o dan bedair mlynedd.

Roedd y Ddeddf hefyd yn cyflwyno monitro electronig fel opsiwn dedfrydu mewn gorchmynion llys. Gellid 'tagio' unigolion dan oruchwyliaeth â dyfais adnabod bersonol a'u cyfyngu i gyfeiriad penodol am hyd at 12 awr y dydd am gyfnod heb fod dros chwe mis (ers hynny, codwyd hyn i uchafswm o 16 awr am hyd at 12 mis). Yn *Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003*, cyflwynwyd y cyrffyw monitro electronig fel gofyniad y gellid ei ychwanegu at orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig. Gwnaethpwyd addasiadau deddfwriaethol i hyn yn *Neddf Troseddu a'r Llysoedd 2013*, gan gynnwys y ddarpariaeth i ddefnyddio monitro electronig i fonitro cydymffurfiad a lleoliad.

Cyflwynwyd yr AAMR drwy *Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012* a daeth i rym ym Mai 2020. Cymru oedd gyntaf i gyflwyno'r ymyriad hwn, ac fe'i cyflwynwyd yn

genedlaethol ledled Lloegr o 31 Mawrth 2021 ymlaen. Mae'r gofyniad hwn yn rhoi gwaharddiad llwyr ar yfed alcohol, a monitrir cydymffurfiad yn electronig drwy gyfarpar sy'n profi lefel yr alcohol yn chwys y gwisgwr yn rheolaidd. O Dachwedd 2021 ymlaen, cyflwynwyd hyn fel amod trwydded ychwanegol, gan ddefnyddio Cymru fel yr ardal beilot gyntaf.

Roedd rhoi'r fenter monitro alcohol ar waith yn rhan o faniffesto'r Ceidwadwyr yn 2019, ynghyd ag ymrwymiad i ddefnyddio monitro electronig i gynyddu hyder mewn dedfrydau cymunedol. Atseiniwyd yr uchelgeisiau hyn yn y Papur Gwyn *Dull Dedfrydu Doethach (2020)* drwy argymell cynyddu uchafswm y cyfnod dyddiol y gellir gorfodi cyrffyw ar rywun (o 16 i 20 awr), yn ogystal â chynyddu'r cyfnod y gellir gorfodi cyrffyw amdano fel rhan o orchymyn cymunedol i ddwy flynedd o'r 12 mis presennol. Argymhellir addasiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol hefyd i roi'r pŵer i swyddogion cyfrifol i amrywio gofynion a fonitrir yn electronig o fewn ystod benodol o amgylchiadau, sef newid amseroedd dechrau a diwedd (er y byddai hyd y cyfnod yn aros yr un fath), a chaniatáu newid cyfeiriad yr unigolyn ar brawf, gyda chymeradwyaeth eu swyddog cyfrifol. Bydd llysoedd yn cael gwybod am newidiadau mewn hysbysiad amrywio, a'r nod yw lleihau'r baich ar y llysoedd ac ar y gwasanaeth prawf. Mae'r argymhellion hyn yn cael eu rhoi ar waith drwy *Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd* a rhagwelir bod Cydsyniad Brenhinol yn debygol o ddigwydd yn Chwefror 2022.

Bu arolygiadau Arolygiaeth Prawf EM o ddarpariaeth monitro electronig mewn dau arolygiad thematig blaenorol, yn 2008 a 2012, yn edrych ar y cyrffyw fel gofyniad ac fel HDC. Canfu arolygiad 2008 fod cyfathrebu rhwng y tri chorff dan sylw (y llysoedd, y gwasanaeth prawf a darparwyr monitro electronig) yn wael, yn enwedig rhwng y llysoedd a darparwyr monitro electronig. Roedd darparwyr yn aml yn derbyn gwybodaeth yn hwyr gan y llysoedd neu roedd gwybodaeth ar goll neu'n anghywir, megis a oedd yr unigolyn i'w dagio eisoes dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf neu bwy fyddai'r asiantaeth gyfrifol. Roedd y llysoedd yn defnyddio llawer o offer nad oeddent yn addas i'r pwrpas ac nid oedd consensws cenedlaethol ynghylch pa wybodaeth y dylid ei rhannu ar adeg dedfrydu, ac o ganlyniad roedd gwahanol lysoedd yn anfon amrywiaeth o wahanol ffurflenni at yr un darparwyr.

Roedd y sefyllfa wedi gwella erbyn ein harolygiad yn 2012, ac roedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) yn cyhoeddi ffurflen genedlaethol safonol, ond nid oedd hon yn cael ei defnyddio'n gyson ac roedd ei geiriad yn annefnyddiol ac yn peri dryswch. Yn dros hanner yr achosion a arolygwyd, nid oedd darparwyr monitro electronig yn cael copi o orchymyn y llys, ac roedd llawer o'r wybodaeth a oedd ganddynt i weithio â hi'n dod o'r ffurflenni hysbysu diffygiol hyn. Roedd y cyfathrebu rhwng darparwyr prawf a darparwyr monitro electronig yn aml yn wael, yn enwedig ynghylch pa sefydliad a oedd yn gyfrifol am yr achos. Ar y llaw arall, canmolwyd y cyfathrebu mewn achosion HDC ac ni welwyd llawer o broblemau i ymwneud â chychwyn. Mae'r cwmpas i osod gofyniad monitro electronig, a'r math o dechnoleg y gall hyn ei gynnwys, wedi lluosogi ers yr arolygiadau cynharach hyn.

Mae cipolwg academaidd a baratowyd gan Hucklesby a Holdsworth ar gyfer Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi yn rhoi manylion am y mathau o fonitro electronig, sut i'w defnyddio a'u manteision posibl (Hucklesby a Holdsworth, 2020). Mae'n cydnabod bod tystiolaeth yn dangos yn gyson bod cyfnod o fonitro electronig yn gallu torri arferion a rhoi strwythur i fywydau'r gwisgwyr, gan wella cyfleoedd cyflogaeth a pherthnasoedd â theulu. Fodd bynnag, nid oes dealltwriaeth dda o effaith fwy hirdymor monitro electronig ar yr unigolion sy'n cael eu monitro, ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu nad oes effaith o leihau aildroseddu y tu hwnt i gyfnod y monitro electronig. Mae gwaith ymarferwyr prawf o gefnogi newidiadau yn eu gwaith gydag unigolion yn hanfodol. Mewn ymchwil cynharach, canfu astudiaeth Hucklesby o wisgwyr ar gyrffyw monitro electronig fod y rhan fwyaf yn cydymffurfio (Hucklesby, 2009). Mae hyn yn cynnig cyfnod sefydlog a allai fod yn gyfle unigryw i adeiladu perthynas â phobl ar brawf a gwneud gwaith sy'n canolbwyntio ar droseddu gyda hwy, gan gefnogi newid ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol.

## 1.3. Nodau ac amcanion

Bwriad yr arolygiad oedd ateb y cwestiynau canlynol:

1. A yw'r arweinwyr yn cefnogi ac yn hybu'r gwasanaeth prawf i ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol o safon uchel i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu goruchwylio drwy gyfrwng monitro electronig?
2. A yw staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth prawf yn cael eu grymuso i ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol o safon uchel i'r rheini sy'n cael eu goruchwylio drwy gyfrwng monitro electronig fel rhan o'u dedfryd?
3. A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau o safon uchel ar gael i gefnogi gwasanaeth ymatebol sydd wedi'i deilwra i bawb sy'n cael eu monitro'n electronig?
4. A oes gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael i gefnogi'r gwasanaeth prawf i ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol o safon uchel i bawb sy'n cael eu monitro'n electronig?
5. A yw'r wybodaeth a'r cyngor a roddir i lysoedd/carchardai cyn dedfrydu/cyn rhyddhau yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau?
6. Pa mor dda mae monitro electronig yn cynorthwyo unigolion i ymatal rhag throseddu?
7. Pa mor effeithiol yw monitro electronig o ran cadw pobl yn ddiogel?

**Cwmpas yr arolygiad**

Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys achosion oedolion a reolir gan y Gwasanaeth Prawf sy'n cynnwys gofyniad monitro electronig, naill ai drwy gyfrwng gorchymyn llys â mwy nag un gofyniad neu drwydded carchar, yn ystod y cyfnod 31 Hydref 2020 hyd 31 Ionawr 2021. Roedd y rhain yn cynnwys achosion a oedd yn defnyddio amledd radio, monitro lleoliad â GPS neu dechnoleg ymwrthod ag alcohol. Oherwydd dyddiad cyflwyno'r AAMR, dim ond yng Nghymru yr arolygwyd y math hwn o benderfyniad. Ni chafodd achosion a reolir gan yr Adran Diogelwch Gwladol eu cynnwys yng nghwmpas yr arolygiad hwn, oherwydd y mesurau arbennig a ddefnyddir i reoli'r achosion hyn.

## 1.4. Amlinelliad o'r adroddiad

| Pennod | Cynnwys |
|---|---|
| 2. Arweinyddiaeth, strategaeth a pholisi | Arweinyddiaeth a strategaeth genedlaethol<br>Polisi monitro electronig<br>Rheoli data a gwybodaeth |
| 3.Gwybodaeth cyn dedfrydu a chyn rhyddhau | Adroddiadau cyn dedfrydu – penderfyniadau yn y llys<br>Adroddiadau cyn rhyddhau – achosion trwydded |
| 4.Cyfraniad y gwasanaeth prawf | Asesiad cychwynnol<br>Cynllunio dedfrydau a rheoli risg<br>Rhoi gofynion monitro electronig ar waith a'u cyflawni<br>Adolygu gofynion monitro electronig<br>Gorfodi gofynion monitro electronig<br>Beth a ddywedodd pobl ar brawf wrthym |
| 5.Ymyriadau newydd a chynlluniau peilot monitro electronig | Gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol<br>Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer, Llundain – cynlluniau peilot GPS<br>Cynllun peilot troseddu caffaelgar y Weinyddiaeth Gyfiawnder |

# 2. Arweinyddiaeth, strategaeth a pholisi

Bydd y bennod hon yn ystyried yr arweinyddiaeth a'r cyfarwyddyd cenedlaethol a ddarperir. Yna, bydd yn archwilio'r strategaethau a'r fframwaith sy'n sail i gyflenwi gwasanaethau, cyn adolygu sut mae polisïau wedi cael eu datblygu a'u rhoi ar waith o fewn y Gwasanaeth Prawf.

## 2.1. Arweinyddiaeth a strategaeth genedlaethol

Ar hyn o bryd, nid oes strategaeth i danategu defnyddio monitro electronig ar gyfer pobl ar brawf, ond mae'r gwaith o ddatblygu un wedi'i ddechrau ers nifer o flynyddoedd.

Yn 2011, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) broject i ddatblygu tagiau monitro lleoliad â lloeren a fyddai'n gallu defnyddio technoleg GPS i olrhain lleoliadau unigolion a oruchwylir. Roedd hyn yn dilyn cynlluniau peilot cynharach gan y Swyddfa Gartref yn ystod 2004-2006 â charfan o droseddwyr mynych a flaenoriaethwyd. Yn ogystal â'i defnyddio i orfodi cyrffyw a chadarnhau presenoldeb mewn lleoliadau, mae'r dechnoleg hon yn caniatáu gorfodi parthau eithrio a gellir ei defnyddio i ddangos nad oedd unigolion a oruchwylir yn bresennol mewn safleoedd trosedd. Cynhaliwyd cynllun peilot â'r dechnoleg hon, a'i chynnig wedyn fel opsiwn i'w ddefnyddio mewn penderfyniadau cymunedol ac amodau trwydded, yn 2016.

Cynhaliwyd y cynllun peilot GPS rhwng Hydref 2016 a Mawrth 2018 ar draws wyth ardal heddlu. Gwerthuswyd y broses wedi hynny, a nodwyd mai dim ond 24 o achosion a gafodd ddedfryd mewn llys i ddefnyddio technoleg GPS fel rhan o orchymyn cymunedol; ar y llaw arall, gofynnodd ardaloedd prawf amdani fel amod trwydded mewn 113 o achosion rhyddhau ar ôl adalw, a 60 arall fel amrywiad trwydded fel dewis arall yn lle carcharu. Fodd bynnag, gwnaethpwyd y penderfyniad polisi i'w gyflwyno fel opsiwn dedfrydu cymunedol ar gyfer pobl sy'n wynebu risg o gael eu carcharu, yn hytrach nag fel offeryn i reoli achosion a ryddheir ar drwydded lle mae angen lefel ychwanegol o oruchwyliaeth, megis rhai sy'n wynebu risg o adalw neu sy'n cael eu rhyddhau eto ar ôl cael eu hadalw.

Ar ôl ei gyflwyno'n genedlaethol yn ystod 2018-2019, roedd GPS ar gael ledled Cymru a Lloegr i'w ddefnyddio fel gofyniad mewn dedfrydau cymunedol i bobl sy'n wynebu risg o gael eu carcharu, ac mewn achosion sy'n gymwys ar gyfer parôl sy'n cael eu rhyddhau o garchar ar drwydded (h.y. pobl sydd wedi cael dedfryd o garchar am oes, dedfryd amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd (IPP) neu ddedfryd benodol estynedig). Estynnwyd y dechnoleg hefyd i bobl sy'n gymwys am HDC, beth bynnag fo eu trosedd, am y cyfnod monitro ar drwydded HDC. Fodd bynnag, nid yw'r darpariaethau hyn yn cynnwys defnyddio GPS ar gyfer pob achos o ddedfryd benodol o garchar nad yw'n cynnwys HDC, cynllun peilot presennol, neu'n ymwneud â'r Bwrdd Parôl, gan gynnwys rhai sy'n peri risg uchel o niwed difrifol rhywiol a threisgar.

Mae ymagwedd strategol y llywodraeth at leihau troseddu yn eu Cynllun Curo Troseddu yn amlinellu blaenoriaeth i leihau aildroseddu a throseddu yn y gymdogaeth. At y perwyl hwn, mae cynlluniau peilot yn canolbwyntio ar droseddu caffaelgar ar hyn o bryd. Mae un o'r rhain yn cynnwys gwneud amodau trwydded monitro â GPS yn orfodol i bobl ar brawf y nodwyd eu bod yn gyfrifol am fathau penodol o droseddau, gan gynnwys lladrad a byrgleriaeth, ac sydd wedi'u dedfrydu i fwy na 12 mis o garchar. Mae Cynllun Cyflawni Canlyniadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021) yn nodi bod ehangu monitro electronig yn cyd-fynd â'r amcan strategol blaenoriaethol o leihau aildroseddu, drwy wella'r cynnig o fonitro electronig a defnyddio mwy o fonitro ymwrthod ag alcohol a threfniadau GPS.

Nid yw'r naill na'r llall o'r strategaethau hyn yn cydnabod potensial monitro electronig i gynorthwyo i reoli risg a diogelu'r cyhoedd, y tu hwnt i'r potensial i leihau aildroseddu. Yn yr un modd, nid oes cyfathrebu digonol am fanteision technoleg GPS o ganiatáu i ymarferwyr prawf gael gwell trosolwg ar weithgareddau eu hachosion, a fyddai'n eu cynorthwyo i reoli risg.

Tîm Monitro Electronig Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM sy'n gyfrifol am ehangu monitro electronig a'i ddefnyddio ar draws y system cyfiawnder troseddol. Bwriad y rhaglen hon yw parhau i weithredu gwasanaeth craidd, gan wella'r gwasanaeth a chreu llwyfan ar gyfer arloesi yn y dyfodol.

Gwelsom fod y rhaglen yn gweithredu ar sail 'gorchwyl a gorffen', â'r nod o fodloni amcanion penodol yn seiliedig ar ddeddfwriaeth a pholisïau. Hyd yn hyn, mae wedi bod ar wahân i fraich weithredol y Gwasanaeth Prawf o fewn strwythur HMPPS, ac felly nid oedd ganddi ryw lawer o drosoledd o ran ymgorffori monitro electronig, na gwella'r modd y'i cyflawnir, o fewn y Gwasanaeth Prawf.

Nid yw pob cynllun ehangu blaenorol wedi cyflawni ei nodau, fel y gwelwyd ym meirniadaeth Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin yn 2018 o'r methiant i gyflawni yn erbyn rhagamcanion: yn 2016-2017, amcangyfrifon y Weinyddiaeth Gyfiawnder oedd y byddai 160,000-220,000 o unigolion yn cael gorchmynion tagio, ond roedd yr amcangyfrif hwn yn llawer rhy uchel – roedd cyfanswm y niferoedd yn y cyfnod hwnnw o dan 65,000, sy'n golygu tua 12,000 o unigolion ar y tro. Roedd y pwyllgor yr un mor feirniadol o gynlluniau peilot monitro lleoliad â GPS. Awgrymodd ffigurau cychwynnol y byddai hyd at 1,500 o unigolion yn cael eu tagio fel rhan o gynlluniau peilot a gychwynnodd yn Hydref 2016, ond erbyn Ebrill 2017, dim ond 97 o bobl a oedd wedi cymryd rhan. At ei gilydd, cyfanswm nifer y cyfranogwyr yn y cynllun peilot oedd 586 (y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2019).

Roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2017) hefyd yn feirniadol iawn o'r rhaglen monitro electronig flaenorol, gan ddweud nad oedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gwneud digon i sefydlu'r achos o blaid tagio monitro lleoliad gan ddefnyddio GPS. Profodd gofynion pwrpasol am dechnoleg tagiau a fyddai ar flaen y gad yn fyd-eang yn rhy uchelgeisiol; nid oedd modd cyflawni'r ehangiad o fewn yr amserlen a gynlluniwyd, nid oedd y rhaglen wedi darparu'r manteision a fwriadwyd, ac roedd dyluniad y model cyflenwi a'r modd y'i rhoddwyd ar waith yn peri risg uchel ac yn methu â datrys problemau. Roeddent hefyd yn beirniadu strwythurau llywodraethu. Amser a ddengys a fydd dulliau rheoli'r rhaglen ehangu dros y pedair mlynedd ganlynol, ac yn y cynllun nad yw wedi'i gyflenwi eto, yn well o gwbl.

Yn 2019, drafftiodd HMPPS strategaeth monitro electronig i roi manylion am eu hamcanion ar gyfer 2019-2024; ni chafodd hon ei chymeradwyo na'i rhoi ar waith. Drafftiwyd strategaeth arall ar gyfer gwasanaeth monitro electronig yn y dyfodol yn ddiweddar, ond nid oes cytundeb ar hon eto ychwaith. Mae'r strategaeth ddrafft hon, o fewn y Tîm Monitro Electronig, yn adlewyrchu'r blaenoriaethau polisi o fagu hyder mewn goruchwyliaeth gymunedol a lleihau aildroseddu, yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar botensial data i wella dyluniad gwasanaethau a mesur effaith, a hybu defnyddio monitro electronig fel offeryn hyblyg i wella rheolaeth pobl ar brawf. Fodd bynnag, erys diffyg strategaeth a goruchwyliaeth weithredol i roi monitro electronig ar waith wrth gyflenwi'r gwasanaeth prawf.

Roedd Hucklesby a Holdsworth (2020) o'r farn ei bod yn bryd nawr i'r Gwasanaeth Prawf gymryd rhan weithredol yn y dadleuon a fydd yn siapio dyfodol ymarferol monitro electronig, a dywedasant fod egwyddorion monitro electronig MoJ/HMPPS (2019)[11] yn fan cychwyn defnyddiol. Er y cyhoeddwyd hyn yng nghyfnodolyn yr ynadon, nid ydym wedi gweld yr egwyddorion hyn yn cael eu dosbarthu'n ehangach fel rhan o arweiniad i ymarferwyr prawf yn ystod yr arolygiad hwn. Ni ddywedodd dedfrydwyr nac ymarferwyr eu bod yn gwybod amdanynt. Nid oes fframwaith prawf gweithredol ar hyn o bryd sy'n cwmpasu'r holl wasanaethau sy'n gysylltiedig â monitro electronig. Mae hyn yn golygu bod gan ymarferwyr ddiffyg eglurder a chyfeiriad clir ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio monitro electronig gyda'u hachosion. Ni fu cyfathrebu effeithiol gan y tîm cenedlaethol ynghylch diben cyffredinol monitro electronig, a cheir dryswch ynghylch sut i'w roi ar waith o fewn rhanbarthau.

## 2.2. Polisi monitro electronig

Mae defnyddio monitro electronig ym mhob rhan o'r Gwasanaeth Prawf wedi'i danategu gan lawer o gyfarwyddiadau a fframweithiau polisi i garchardai a'r gwasanaeth prawf. Dywedodd ymarferwyr wrthym nad oedd dogfennau polisi ac arweiniad ar gael yn rhwydd iddynt; mae'r rhain wedi'u lletya ar lwyfan mewnol EQuiP HMPPS. EQuiP yw'r offeryn canolog i gadw llawer o'r dogfennau arweiniad sydd ar gael, ond mae'r casgliad o wybodaeth yn anhylaw. Mae testun monitro electronig, ar ei holl fformatau, wedi'i gadw ar draws o leiaf 47 o wahanol adrannau ar y system hon, mewn dros 120 o

[11] At ddiben clir, addas a chymesur, hyblyg ac ymatebol, credadwy, integredig a thryloyw, cydraddoldeb.

ddogfennau, a llawer o'r rhain wedi'u dyblygu. Mae hyn yn ei gwneud yn amhosibl i ymarferwyr prysur gael gwybodaeth mewn modd cyflym, hwylus ac ystyrlon.

Nid oes un ddogfen polisi i roi manylion ynghylch sut i reoli gofynion monitro electronig a osodwyd gan lys. Mae'r arweiniad sydd ar gael wedi'i wasgaru rhwng llawer o wahanol ddogfennau, yn benodol i ofynion. Dywedodd rhai ymarferwyr, er eu bod yn cael mewnbwn ynghylch sut mae'r technolegau'n gweithio ac yn cael eu monitro, nad ydynt yn cael arweiniad ymarferol clir am y ffordd orau o reoli gofynion o'r fath na diben eu defnyddio, nac yn deall potensial llawn y technolegau diweddaraf.

Dywedodd ymarferwyr prawf hefyd nad ydynt yn glir ynghylch pwy y gellir eu monitro'n electronig fel rhan o amodau trwydded. Atseiniwyd hyn gan y Bwrdd Parôl; dywedasant fod nifer y cynlluniau peilot presennol a'r gwahaniaethau rhwng rhanbarthau o ran pwy a allai gael beth yn peri dryswch i bawb.

Mae gorfodi monitro electronig fel rhan o ryddhau ar drwydded wedi'i gadw ar draws nifer o ddogfennau ac mae'r brif ddogfen, *Fframwaith Polisi Amodau Trwydded* (2021), yn nodi'n ddigymorth:

**'Erbyn hyn, mae cyfres o garfannau'n gymwys i gael eu monitro'n electronig dan drwydded. Mae manylion am y carfannau a'r dogfennau arweiniad perthnasol ynghylch sut i wneud cais i fonitro unigolyn yn electronig a'i reoli wedi hynny hefyd ar gael gan EQuiP.'**

Ychydig iawn o fanylion sy'n dilyn o fewn y fframwaith polisi ei hun er mwyn helpu ymarferwyr i ddatgodio beth y gellir ei ddefnyddio gyda phwy ac at ba ddiben.

Mae'r *Fframwaith Polisi Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref (HDC)* (2020) yn fwy cyfarwyddol ac mae'n amlinellu canllawiau clir ar gyfer y broses a'r hyn sy'n ofynnol gan ymarferwyr. Mae'n ymddangos y ceir dealltwriaeth ymarferol dda o hwn, er bod ymarferwyr wedi dweud bod y gofynion asesu'n rhy gul, yn cynnwys 'gwiriad cyfeiriad' yn unig, a'u bod yn pryderu am wneud penderfyniadau anniogel am ryddhau oherwydd nad oes cyfle i gynnig cyfraniad mwy cadarn.

Nid oes cyfarwyddyd polisi canolog gan HMPPS na'r MoJ ynghylch gorfod cwblhau archwiliadau cam-drin domestig a diogelu plant wrth ystyried monitro electronig fel cynnig dedfrydu neu ryddhau. Mae hyn yn bryder arbennig wrth argymell cyrffyw monitro electronig oherwydd natur y gofyniad. Mae hyn yn tanseilio safbwynt polisi'r llywodraeth yn y *Cynllun Curo Troseddu* (2021), sy'n nodi'n deg:

**'Mae cam-drin domestig, ecsbloetio plant yn rhywiol, treisio, a mathau eraill o drais rhywiol yn droseddau erchyll. Mae'r troseddau hyn yn aml wedi'u cuddio rhag golwg y cyhoedd, ac yn gallu golygu nad yw cartref yn fan diogel.'**

Er bod y cynllun troseddu'n blaenoriaethu datgelu a diweddu niwed cudd, yn aml nid yw swyddogion llys ac ymarferwyr prawf yn gallu gwneud unrhyw archwiliadau neu, os ydynt yn gwneud archwiliadau, nid oes digon o wybodaeth a gedwir gan yr heddlu a gwasanaethau plant ar gael iddynt yn amserol i wneud argymhellion gwybodus am y risg y mae'r unigolyn yn ei beri yng nghyd-destun y cartref. Mae hyn yn peri mwy o bryder lle mae pobl ar brawf yn ddioddefwyr cam-drin domestig eu hunain a fyddai, heb archwiliadau digonol, yn wynebu dedfryd sy'n eu cyfyngu i gyfeiriad gyda'u hymosodwr.

Mae'r polisi HDC yn cynnig rhywfaint o arweiniad, ond nid yw'n mynd yn ddigon pell. Nid oes disgwyliad clir i'r heddlu gynnal archwiliadau cam-drin domestig a diogelu plant ym mhob achos. Nid yw manylion am bryderon presennol a blaenorol ynghylch cam-drin domestig neu ddiogelu wedi'u cynnwys yn y rhestr o wybodaeth y mae'n rhaid i'r ymarferwr prawf ei chadarnhau wrth gwblhau'r broses o archwilio'r cyfeiriad. Wrth asesu addasrwydd i ryddhau, mae'r fframwaith polisi'n nodi y dylid gwrthod HDC yn gyffredinol os oes risg uchel o niwed rhyngbersonol. Fodd bynnag, nid yw'r gwrthodiad hwn yn awtomatig a dim ond mewn achosion â risg uchel o niwed y mae'n berthnasol. Mae man cychwyn asesiadau addasrwydd i ryddhau i gyfeiriad yn cynnwys gofyn i'r unigolyn yn y

carchar hunanddatgelu a oes ganddynt unrhyw euogfarnau yn erbyn unrhyw un yn y cyfeiriad arfaethedig. Ni ofynnir y cwestiwn hwn i ymarferwyr prawf yn eu cyfraniad at y broses asesu.

Er mwyn gwireddu uchelgeisiau polisi ehangu monitro electronig yn ymarferol, mae angen cynnwys y farnwriaeth o ran dedfrydu cymunedol, y Bwrdd Parôl a'r Gwasanaeth Prawf yn ddigonol i gyflawni monitro electronig yn weithredol. O dan y Model Gweithredu Targed newydd (2020), mae'r Gwasanaeth Prawf sydd newydd gael ei uno yn dweud hyn am dechnolegau monitro electronig:

**'Offeryn pwysig o ran helpu i oruchwylio unigolion yn y gymuned yn effeithiol. Yn ogystal â darparu cosb effeithiol, gallant helpu i ddiogelu'r cyhoedd a lleihau aildroseddu. Byddwn yn sicrhau gwell cefnogaeth i alluoedd Monitro Electronig o fewn strwythurau prawf.'**

Cyn hyn, roedd safonau cenedlaethol ar gyfer rheoli unigolion dan oruchwyliaeth yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys safon ar gyfer rheoli gofynion cyrffyw a chyrffyw cyfyngu i'r cartref. Roedd y Fframwaith Ymarfer: Safonau Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Troseddwyr yng Nghymru a Lloegr (2015) cysylltiedig yn amlinellu arweiniad ynghylch sut y dylid rheoli cyfnod y cyrffyw; fodd bynnag, cryno oedd y manylion ynddo. Roedd y fframwaith yn ei gwneud yn glir, er mai cosb oedd prif ddiben cyrffyw, y gellid ei ddefnyddio hefyd i roi rhywfaint o strwythur i unigolyn anhrefnus sy'n cael ei oruchwylio, ac felly gynorthwyo ag adsefydlu, a'i amseru i darfu ar brif gyfnodau troseddu, gan leihau aildroseddu. Nid oedd diweddariad i adlewyrchu technolegau GPS. Mae'n werth nodi, ac eithrio yn achosion yr Adran Diogelwch Gwladol, nad yw'r safonau cenedlaethol newydd a gyhoeddwyd ym Mehefin 2021 i gynorthwyo â'r symudiad i'r gwasanaeth unedig newydd yn sôn yn benodol am reoli gofynion monitro electronig. Cynigir bod achosion a oruchwylir gan yr Adran Diogelwch Gwladol, sy'n cynrychioli'r risg uchaf, yn cael eu monitro â GPS am o leiaf 12 mis ar ôl eu rhyddhau (gan ddibynnu ar hyd y drwydded).

### Hyfforddi a datblygu staff

Er bod casgliad o wybodaeth i danategu pob math o dechnoleg, mae'n dibynnu'n gryf ar y broses ac nid yw ymarferwyr wedi llwyddo i ddeall negeseuon allweddol, gan gynnwys diben cyffredinol penderfyniadau penodol. Mae'r ffaith mai dim ond ar gyfer rhai mathau o achosion y mae penderfyniadau ar gael yn rhwystr pellach, ac mae'r hyn sydd ar gael yn amrywio ar draws y wlad, gan ddibynnu ar gynlluniau peilot rhanbarthol ar garfannau newydd o achosion cymwys. Mae hyn yn peri risg o ddryswch ac ymddieithrio i ymarferwyr prawf a fynegodd bryderon am gyfyngiadau eu defnyddio mewn achosion risg uchel.

Mae darnio prosesau rheoli troseddwyr, o ganlyniad i *Gweddnewid Adsefydlu*, wedi effeithio ar y deunyddiau arweiniad a hyfforddiant sydd ar gael gan fod gwasanaethau'n gweithredu ar draws gwahanol lwyfannau technoleg gwybodaeth. Dywedodd ymarferwyr eu bod yn ei chael yn anodd gwneud amser i ganfod deunyddiau arweiniad a hyfforddiant, yn enwedig pan fo'r achosion sy'n destun amodau o'r fath mor brin. Dim ond 28 y cant o'r ymarferwyr prawf y siaradwyd â hwy a ddywedodd eu bod wedi cael hyfforddiant monitro electronig, er bod casgliad o ddeunyddiau hyfforddiant ar gael ar-lein. Mae hyn yn effeithio ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ynghylch y gofynion hyn a'u gallu i'w rhoi ar waith mewn modd cadarn.

Ers uno gwasanaethau, cydnabyddir y bydd angen hyfforddiant sylweddol i sicrhau bod gan bob ymarferwr ddealltwriaeth sylfaenol debyg o ymyriadau, gan gynnwys monitro electronig. Ni welsom unrhyw dystiolaeth o gynllun cyflenwi hyfforddiant systematig a oedd yn dilyn unrhyw amcan strategol canolog. Cydnabuwyd y bu ymdrechion gwell i sicrhau hyfforddiant priodol ar gyfer cyflwyno'r AAMR yn ddiweddar, ond nid yw'n ymddangos bod hyn ychwaith wedi'i arwain yn ganolog ag unrhyw oruchwylio strategol ar ôl ei gyflwyno am y tro cyntaf ledled Cymru. Darperir llawer o'r hyfforddiant gan reolwyr rhanddeiliaid y Gwasanaethau Monitro Electronig (EMS) rhanbarthol a swyddogion cyswllt lleol. Nid oedd pob rhanbarth wedi enwi unigolion cyswllt ac mae rhai o'r safleoedd hyn yn wag, sy'n arwain at amrywiaeth o ran graddau'r ymgysylltiad a'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael i ymarferwyr.

## 2.3. Rheoli data a gwybodaeth

Nid yw systemau rheoli achosion y Gwasanaeth Prawf wedi'u dylunio i gymharu'r gwahanol fathau o dechnoleg monitro electronig sydd ar gael â'r mathau o ofynion. Nid oes data manwl gywir ynglŷn â nifer y gofynion sy'n cael eu monitro'n electronig o gymharu â'r rhai nad ydynt. Gellir gwneud gofynion ar gyfer cyrffyw a pharthau eithrio heb fonitro electronig. Gan nad oes system gofnodi glir i wahaniaethu rhwng cyrffyw sy'n cael ei fonitro'n electronig a chyrffyw nad yw, nid oes data manwl gywir o systemau sy'n eiddo i HMPPS. Er bod 17 o opsiynau cofnodi ar gyfer gofynion GPS, nid yw'n ymddangos bod neb yn deall nac yn defnyddio'r rhain yn llawn, ac o ganlyniad cofnodir gofynion yn anghywir, ac eto, mae hyn yn niweidiol iawn i ddata HMPPS.

Nid oes digon o gasglu na dadansoddi data, yn genedlaethol nac yn rhanbarthol, ynghylch demograffeg y bobl sy'n cael eu monitro'n electronig, y mathau o dechnolegau a ddefnyddir, effaith ymyriadau o'r fath na'r canlyniadau a gyflawnir.

Dim ond yn erbyn cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer sut mae EMS yn cyflawni contractau y cesglir data perfformiad a gwybodaeth reoli. Ataliwyd data perfformiad blaenorol HDC o ganlyniad i Covid-19. Beth bynnag, dim ond at amseroldeb cwblhau ffurflenni HDC yr oedd y data hyn yn cyfeirio, ac nid canlyniadau. Mae cofnodi data'n eithriadol o wael ar y cyfan ac mae'r ffaith bod llawer o'r wybodaeth yn eiddo i'r cwmni sy'n darparu'r gwasanaethau monitro electronig ar hyn o bryd yn rhwystr arall rhag casglu data. Dim ond gwybodaeth ddemograffig sylfaenol sy'n hysbys, megis oed a rhywedd achosion sy'n cael eu monitro'n electronig, ac ni chesglir gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys hil, anabledd, crefydd na chred, sy'n golygu na ellir dadansoddi unrhyw dueddiadau o ran defnyddio monitro electronig yn anghymesur. Fel rhan o'r arolygiad hwn, dywedodd y Tîm Monitro Electronig wrthym eu bod yn datblygu gwybodaeth rheoli i'w rhannu â chyfarwyddwyr prawf rhanbarthol i'w helpu i fonitro sut roedd monitro electronig yn cael ei roi ar waith yn eu rhanbarthau, ond ni chafwyd tystiolaeth o hyn.

Ceir diffyg gwahaniaethu rhwng carfannau (mechnïaeth/achosion wedi'u dedfrydu/achosion dinasyddion tramor), ac mae'r ystadegau a ddefnyddir fel sail i drafodaethau am bolisïau'n tueddu i adlewyrchu cyfanswm niferoedd, gan gynnwys tagiau mewnfudo'r Swyddfa Gartref a mechnïaeth, yn hytrach na gwybodaeth benodol i brawf. Bydd ffocws y cynllun ehangu ar fonitro alcohol a thagio GPS ar gyfer pobl sydd wedi'u heuogfarnu o droseddau caffaelgar cymwys a throseddau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn golygu cynnydd yn nifer yr achosion a reolir gan y Gwasanaeth Prawf.

Mae llunwyr polisïau ac arweinwyr strategaeth yn ymddangos yn betrus ynghylch gweld monitro electronig fel offeryn i ddiogelu'r cyhoedd, ac i raddau mae hyn yn ddigon teg. Peth prin iawn fyddai monitro lleoliad unrhyw un yn fyw gan ddefnyddio'r technolegau GPS newydd. Hyd yn oed pe bai hynny'n digwydd, byddai'r siawns o ymateb yn ddigon cyflym i atal niwed difrifol yn isel. Fodd bynnag, mae gan dechnoleg o'r fath ran i'w chwarae i gynyddu'r data sydd ar gael i ganiatáu i ymarferwyr prawf gael sgyrsiau agored, gonest a phlaen â'u hachosion am eu gweithgareddau.

## 2.4. Casgliadau a goblygiadau

Nid oes gan HMPPS bolisi na strategaeth ganolog sy'n amlinellu'r weledigaeth ar gyfer sut gellir defnyddio monitro electronig er mwyn gallu goruchwylio pobl ar brawf yn well. Nid yw hyn yn ffafriol i berswadio ymarferwyr prawf i ymgorffori monitro electronig fel offeryn canolog i reoli eu hachosion.

Hyd yn hyn, mae'r agenda monitro electronig wedi bod yn seiliedig ar yr awydd i ddarparu opsiwn mwy cost-effeithiol na'r carchar, drwy ryddhau ar HDC a hefyd drwy wella'r cynnig i'r llysoedd i sicrhau bod goruchwylio cymunedol yn ddewis arall dichonadwy yn hytrach na charcharu. Dim ond ers i dechnolegau GPS gael eu rhoi ar waith yr ydym wedi dechrau deall, ar lefel weithredol, y cyfle am ffordd fwy cadarn o fonitro cydymffurfiad ag amodau a rheoli risg. Hyd yn hyn, mae blaenoriaethau polisi'n ymwneud â lleihau aildroseddu, yn hytrach na rheoli risg achosion yn y gymuned yn well. Mae hwn yn gyfle sy'n cael ei golli.

Nid oes dogfen gyffredinol ar gyfer cyflawni gweithredol i fynegi sut gellir manteisio i'r eithaf ar fonitro electronig i reoli achosion. Mae'r arweiniad gweithredol presennol wedi'i wasgaru rhwng llawer o wahanol ddogfennau, mae'n seiliedig ar broses yn bennaf ac nid yw'n hygyrch i ymarferwyr.

# 3. Gwybodaeth cyn dedfrydu a chyn rhyddhau

Mae'r bennod hon yn ystyried ansawdd adroddiadau a ddarparwyd i lysoedd fel sail i benderfyniadau dedfrydu, yn ogystal â safbwyntiau dedfrydwyr am ddefnyddio monitro electronig. Mae hefyd yn ystyried ansawdd gwybodaeth cyn rhyddhau a rennir â charchardai cyn rhyddhau pobl ar gyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC) neu yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd Parôl. Mae'n cynnwys pobl ar brawf sy'n destun gofynion cyrffyw monitro amledd radio yn ogystal â thechnoleg GPS fwy diweddar at ddibenion monitro lleoliad.

Mae crynodeb o'n canfyddiadau allweddol isod:

**Cryfderau**

- Mae dedfrydwyr yn gwerthfawrogi argymhellion prawf i roi sail i'w penderfyniadau dedfrydu.
- Mae ymarferwyr prawf yn awyddus i ddarparu asesiad mwy cadarn i roi sail i benderfyniadau HDC.

**Ond:**

- Nid yw staff llysoedd prawf mewn rhai ardaloedd yn deall gwerth gofynion monitro lleoliad GPS yn llawn, na sut i'w defnyddio, sy'n golygu nad yw llysoedd yn eu hargymell na'u gorfodi.
- Ystyrir cyrffyw fel mesur cosbol yn unig, ac nid oes cydnabyddiaeth o'i rinweddau o ddarparu cyfnod sefydlog a threfnus.
- Ni chynhaliwyd archwiliadau cam-drin domestig yn rheolaidd ym mhob achos, ac arweiniodd hyn at ofynion cyrffyw amhriodol mewn rhai achosion llys a charchar.
- Hyd yn oed mewn achosion lle'r oedd pryderon am gam-drin domestig yn hysbys, nid oedd yr asesiad gan ymarferwyr prawf yn ddigonol i gadw pobl yn ddiogel.
- Mae'r broses asesu bresennol ar gyfer rhyddhau ar HDC yn rhy gyfyngol ac mae angen ei haddasu i rymuso ymarferwyr prawf i gynnig asesiad llawn o'r unigolyn, nid dim ond y cyfeiriad, fel sail i'w penderfyniadau.
- Gellid defnyddio monitro electronig mewn modd mwy personol a chreadigol i gael mwy o effaith.

## 3.1. Adroddiadau cyn dedfrydu – penderfyniadau yn y llys

Cwblhawyd adroddiadau cyn dedfrydu yn 70 o'r 84 o achosion cymunedol a arolygwyd gennym. Adroddiadau ysgrifenedig fformat byr oedd y rhan fwyaf o'r rhain, sy'n golygu y bydd achos llys wedi'i ohirio cyn dedfrydu wrth i'r rhain gael eu cwblhau. Roedd y nifer â gofynion GPS wedi'u gosod yn isel, dim ond 13 achos, a'r rheini'n dod yn bennaf o ranbarthau Swydd Efrog a'r Humber, a Llundain. Buom yn siarad â 19 o ddedfrydwyr. Roedd llawer ohonynt yn dweud bod eu penderfyniadau'n dibynnu'n gryf ar gynigion prawf:

> *"Os nad yw gofyniad wedi'i gynnig, ni wnawn y ddedfryd. Rhaid i'r gwasanaeth prawf ei arwain."*

**Adroddiadau cyn dedfrydu yn argymell cyrffyw monitro ag amledd radio**

Mae ysgrifenwyr adroddiadau llys a dedfrydwyr yn tueddu i ystyried mai mesur cosbol yw gosod cyrffyw fel gofyniad ar orchymyn cymunedol. Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan bod rhaid i bob gorchymyn llys gynnwys elfen gosbol. Dywedodd dedfrydwyr wrthym fod hynny'n golygu gwaith di-dâl, cyrffyw neu, os oes angen, dirwy. Felly, ystyrir mai unig ddiben cyrffyw yw bodloni'r gofyniad hwn, ac nid oes gwerthfawrogiad llawn o'i fanteision ehangach fel mesur rheoli.

Dywedodd dedfrydwyr eu bod yn hoff o'r sicrwydd a roddir gan fonitro electronig:

> *"Mae'n adnodd eithriadol o werthfawr ... Os ydych yn rhoi tag i rywun, rydych yn gwybod bod hynny'n mynd i ddigwydd ac rydych yn gwybod, os na fydd rhywun yn cydymffurfio, y bydd yn dod yn ôl oherwydd tor amodau."*

Fodd bynnag, cynigiwyd y sylw canlynol hefyd:

> *"Mae cyrffyw monitro electronig yn elfen gosbol. Mae angen i ni ei ddefnyddio mewn ffordd benodol a gwybodus iawn; ni ddylai amddifadu o ryddid fod yn norm. Pe bai'n mynd yn awgrym rheolaidd, byddai'n colli gwerth."*

### Archwiliadau cam-drin domestig a diogelu

Dim ond mewn 37 y cant o achosion y cwblhawyd archwiliadau cam-drin domestig cyn dedfrydu cyn gosod cyrffyw monitro electronig yn y llys. Mae'r canllawiau presennol ar gyfer ysgrifennu adroddiadau cyn dedfrydu'n nodi mai dim ond mewn achosion lle mae'r trosedd dan sylw yn gysylltiedig â cham-drin domestig y dylid gwneud archwiliadau cam-drin domestig gyda'r heddlu. Nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell i gynnig mesurau diogelu digonol pan fydd rhywun yn parhau i beri risg o drais domestig, nac yn wir pan allai fod yn ddioddefwr. Gwelwyd gwell tystiolaeth o archwiliadau diogelu plant wrth osod cyrffyw, er eu bod yn dal i fod yn annigonol. Mewn achosion cymunedol perthnasol, gwelwyd tystiolaeth o archwiliadau diogelu plant mewn 61 y cant o achosion cyn dedfrydu. Roedd yn ymddangos bod dedfrydwyr yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod archwiliadau digonol yn cael eu gwneud fel sail i'w dedfrydau, er nad oeddent bob amser yn hyderus bod y rhain yn digwydd.

Roeddem yn pryderu'n fawr bod rhai gofynion cyrffyw yn cael eu gwneud a oedd yn golygu bod troseddwyr cam-drin domestig yn cael eu rhoi ar gyrffyw electronig i fyw gyda dioddefwyr posibl.

| Enghraifft o arfer gwael |
| --- |
| Mae Kevin yn wryw 26 oed sydd wedi cael dedfryd o orchymyn cymunedol 18 mis â gofynion i gwblhau Rhaglen Sgiliau Meddwl, gofyniad gweithgaredd adsefydlu 10 diwrnod a chyrffyw 10 wythnos am drosedd o ymosod.<br><br>Cyn cael ei ddedfrydu, rhoddodd Kevin gyfeiriad ei fam fel y cyfeiriad cyrffyw arfaethedig. Fodd bynnag, ar adeg dedfrydu gosodwyd monitro electronig yng nghyfeiriad ei gariad. Ni heriwyd hyn. Ni fu archwiliadau â'i fam na'i gariad i gytuno â'r cynnig hwn yn eu cyfeiriad. Ni chwblhawyd archwiliadau cam-drin domestig cyn ei ddedfrydu, er y cofnodwyd rhybuddiad blaenorol am drosedd o guro ei fam a hanes o gam-drin domestig yn erbyn cyn-bartner.<br><br>Ar ôl y ddedfryd, cafodd ymosodiad cam-drin domestig pellach ei riportio a'i gyfaddef (ar ôl y cyfnod monitro electronig), ond ni wnaethpwyd unrhyw waith diogelu na gwaith dilynol gyda'r heddlu. |

Cynhaliwyd archwiliadau cam-drin domestig ar ôl dedfrydu mewn rhai achosion, ond nid ym mhob achos. Ni fu archwiliadau heddlu ar 46 y cant o'r bobl ar brawf sydd wedi cael cyrffyw monitro electronig fel rhan o ddedfryd gymunedol.

### Addasrwydd cyrffyw monitro ag amledd radio

Ar y cyfan, nid oedd adroddiadau'n dadansoddi manteision cyrffyw monitro electronig. Mewn llawer o achosion, dim ond un llinell oedd yn yr adroddiadau cyn dedfrydu i gadarnhau y byddai cyrffyw'n elfen gosbol addas. Dim ond 24 y cant o'r adroddiadau a gynhyrchwyd a oedd yn sôn am addasrwydd monitro electronig a'r effaith ar yr unigolyn ar brawf. Roedd angen talu mwy o sylw i amgylchiadau personol a nodweddion amrywiaeth. Dim ond mewn 10 y cant o achosion y gwelwyd

cysylltiad gweithredol yn cael ei wneud rhwng dadansoddi risg o niwed, euogfarnau blaenorol ac ymddygiadau blaenorol a chynnig cyrffyw i helpu i reoli'r ffactorau hyn. Roedd defnyddio cyrffyw i unioni ymddygiad cysylltiedig â throseddu hefyd yn wael. Ystyriwyd materion yn ymwneud â dioddefwyr mewn 56 y cant o achosion perthnasol. Roedd y diffyg dadansoddi hwn yn colli cyfle i sgwrsio â phobl ar brawf am newid eu ffordd o fyw yn gynnar. Bu un unigolyn ar brawf yn myfyrio ynghylch manteision cael ei dagio, yn hytrach na'i garcharu, iddo ef:

*"Mae'n rhoi amser i chi feddwl yn well am bethau a'r canlyniadau cyn i chi wneud rhywbeth gwirionach fyth – mae'r carchar yn rhy hwyr."*

Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan bod rhaid gosod monitro electronig ochr yn ochr â chyrffyw neu barth eithrio, oni bai bod y llys yn ystyried bod hynny'n amhriodol. Nid oes data ar gael i gymharu nifer y gofynion cyrffyw neu barth eithrio a osodir heb fonitro electronig â'r rhai sy'n cynnwys monitro electronig. Roedd rhai dedfrydwyr yn dweud yn agored nad oeddent yn meddwl bod ychwanegu elfen o fonitro electronig at y cyrffyw yn cynnig dim byd ychwanegol i'r ddedfryd.

### Adroddiadau cyn dedfrydu yn argymell monitro lleoliad â system leoli fyd-eang neu barth eithrio

Nid yw llysoedd yn deall yn llawn sut i ddefnyddio tagiau system leoli fyd-eang (GPS) fel opsiwn dedfrydu o fewn gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig. Nid yw'r naratif yn ddigon clir ynghylch dibenion GPS ac a ddylid ei ddefnyddio fel mesur cosbi, mesur adsefydlu ynteu mesur rheoli i helpu i ddiogelu'r cyhoedd. O ganlyniad i'r diffyg dealltwriaeth hwn ymysg rhai timau llys prawf, ni chafwyd llawer o argymhellion gan ymarferwyr i roi sail i benderfyniadau dedfrydwyr. Gwelwyd tystiolaeth hefyd o apathi rhai dedfrydwyr tuag at ddefnyddio GPS fel opsiwn dedfrydu:

*"Daeth GPS fel opsiwn dedfrydu i mewn yn 2018-19. Rydym yn gwybod amdano, ond nid ydym wir yn ei ddefnyddio. Os oes parthau eithrio, byddem yn defnyddio'r hen system map ac amlygwr. Pe bai'r gwasanaeth prawf yn argymell tag GPS, mae'n siŵr y byddem yn ei ddefnyddio."*

O'r 13 o achosion a arolygwyd lle'r oedd llys wedi rhoi GPS, paratowyd adroddiadau cyn dedfrydu mewn 10 ohonynt. Roedd yr adroddiadau i roi sail i benderfyniadau i ddefnyddio monitro lleoliad GPS yn gyson o safon uwch na'r rhai'n ymwneud â rhoi cyrffyw monitro electronig. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn rhanbarthau lle'r oedd GPS yn cael ei argymell yn rheolaidd. Roedd yr adroddiadau'n tueddu i fod yn fwy personol, gan ddangos dadansoddiadau manylach o amgylchiadau personol a nodweddion amrywiaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau hyn yn mynd ati i ystyried addasrwydd a'r effaith ar yr unigolyn ar brawf. Gwelwyd cysylltiad gweithredol rhwng dadansoddi risg o niwed, euogfarnau blaenorol ac ymddygiadau blaenorol a'r cynnig i ddefnyddio GPS i helpu i reoli'r ffactorau hyn ym mhob un ond tri achos, ac ystyriwyd materion yn ymwneud â'r dioddefwr ym mhob adroddiad lle gellid adnabod dioddefwyr. Roedd y rhan fwyaf o'r cynigion a wnaethpwyd yn rhoi dadansoddiad digonol o ddefnyddio GPS i unioni ymddygiad cysylltiedig â throseddu.

Oherwydd y prinder data, nid yw'n bosibl cynnig sylw eto am lwyddiant cyflwyno GPS fel opsiwn dedfrydu, er bod y niferoedd sy'n ei ddefnyddio'n ymddangos yn isel, sy'n adlewyrchu astudiaethau peilot cynharach. Roedd ffigurau o Chwefror 2021 yn dangos mai dim ond 188 o achosion ar y pryd, ledled Cymru a Lloegr, oedd yn cynnwys monitro â GPS fel rhan o ddedfryd gymunedol.[12] Nid oedd negeseuon cyffredinol ynghylch sut gall GPS fod yn ddefnyddiol i reoli achosion wedi cael eu deall ar lefel leol, ac mae hyn yn adlewyrchu'r diffyg strategaeth a fframwaith gweithredol.

Roedd yn amlwg bod rhai dedfrydwyr yn awyddus i weld technoleg GPS yn cael ei defnyddio'n ehangach, yn enwedig mewn achosion risg uwch, er enghraifft, fel rhan o reoli a monitro gorchmynion atal sy'n defnyddio parthau eithrio. Eto, fodd bynnag, roedd effaith adroddiadau prawf ar benderfyniadau dedfrydwyr yn amlwg:

[12] Tîm Monitro Electronig. (2021). Data heb eu cyhoeddi. Chwefror 2021.

*“Ddim yn cael cyfle i ddefnyddio monitro trywydd a pharthau eithrio ac ati gan nad ydym yn cael yr argymhellion gan y gwasanaeth prawf.”*

Nid oedd rhai dedfrydwyr y siaradwyd â hwy’n deall bod angen gosod gofyniad GPS penodol i fonitro cydymffurfiad unigolyn â pharth eithrio. Heb hyn, prin y caiff y parth eithrio ei blismona o gwbl, heblaw am riportio gweld rhywun, sy’n rhoi’r pwyslais ar ddioddefwyr neu bobl eraill i hysbysu awdurdodau am dor amodau sydd yna’n gallu bod yn anodd ei brofi. Roedd un dedfrydwr yn ystyried mai mater technegol i’r gwasanaeth prawf oedd gosod gofyniad GPS, o ran sut i reoli’r gofyniad (h.y,. parth eithrio), yn hytrach na rhywbeth sydd yn llaw’r llysoedd. Mynegodd rhai swyddogion llys amharodrwydd i argymell parthau eithrio, wedi’u monitro â GPS, oherwydd anawsterau i sicrhau bod mapiau’n cael eu lluniadu a’u defnyddio’n gywir. Mae arweiniad gan y Tîm Monitro Electronig canolog hefyd yn cymell gofal:

*“Dioddefwr a thystion – byddwch yn ofalus mewn achosion o gam-drin neu drais domestig os byddai tor amodau’n creu risg o niwed difrifol”.*[13]

Mae hyn yn tanseilio’r union ddiben y mae monitro GPS yn debygol o fod yn fuddiol iddo, hynny yw, rheoli a gorfodi mesurau diogelu.

Wedi’u hysgrifennu’n dda, fodd bynnag, gall adroddiadau llys fod yn ddadl gref o blaid defnyddio technolegau GPS.

| **Enghraifft o arfer da** |
| --- |
| Mae Charlie yn wryw 38 oed sydd wedi cael dedfryd o orchymyn dedfryd ohiriedig 24 mis â gofynion i gwblhau gofyniad triniaeth alcohol, gofyniad gweithgaredd adsefydlu a monitro trywydd am chwe mis am achosi affráe.<br><br>Roedd yr adroddiad cyn dedfrydu’n tynnu sylw at fanteision monitro GPS yn hytrach na chyrffyw, gan gynghori y byddai gosod gofyniad o’r fath yn caniatáu i’w ymarferwr prawf weld data monitro lleoliad a hwyluso trafodaeth am symudiadau, ffordd o fyw ac ymddygiadau. Roedd y cynnig i gynnwys parth eithrio y cytunwyd arno’n ychwanegu at hyn, gan atal Charlie rhag mynd i gyfeiriad ei bartner, yn unol â threfniadau diogelu plant a oedd eisoes ar waith. |

Dywedodd staff llysoedd prawf eu bod dan bwysau aruthrol ar hyn o bryd oherwydd gofynion baich gwaith ac nad oeddent yn aml yn ystyried defnyddio mathau newydd o dechnoleg, yn benodol AAMR a GPS, gan nad oeddent wedi cael cynnig hyfforddiant i gynorthwyo â hyn. Uchelgais y Tîm Monitro Electronig yw cynnig dedfrydau cymunedol credadwy fel dewis arall yn lle’r carchar ar gyfer pobl sydd ar drothwy carcharu. Yn Ebrill 2021, cynigiwyd amod monitro electronig fel dewis arall mewn 34 y cant o’r achosion ar drothwy carcharu a wrandawyd yn y llys, ond roedd y gyfradd hon wedi gostwng i 27 y cant yn genedlaethol erbyn Awst 2021.[14]

### Defnyddio monitro electronig yn greadigol

Mewn 29 y cant o’r holl achosion a arolygwyd, roeddem yn teimlo y gellid bod wedi defnyddio monitro electronig yn fwy creadigol. Roedd hyn yn cynnwys achosion lle byddai AAMR wedi bod yn fwy buddiol na gofyniad cyrffyw safonol, lle nad oedd amseroedd cyrffyw’n adlewyrchu patrymau troseddu ac roedd diffyg cynigion i fonitro lleoliad, hyd yn oed pan fyddai tystiolaeth o droseddu yn erbyn yr un dioddefwr dro ar ôl tro yn yr un lleoliad a thorri amodau mesurau rheoli allanol penodol eraill i reoli risg.

---

[13] Tîm Monitro Electronig. Tîm Newid Busnes. (Tachwedd 2018). *Rhoi’r gwasanaeth monitro electronig newydd ar waith – Cyflwyno monitro lleoliad*. Cyflwyniad mewnol, heb ei gyhoeddi.

[14] HMPPS. (2021*). Fframwaith Ymarfer Effeithiol.* Adroddiad *Defnyddio Monitro Electronig*. F1 30/07/2021, heb ei gyhoeddi.

Hefyd, gwelsom dystiolaeth bod monitro electronig yn cael ei roi ar waith mewn mannau lle'r oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar allu unigolyn i gynnal cyflogaeth a lle'r oedd yn anaddas oherwydd materion iechyd. Cafwyd tystiolaeth hefyd bod monitro trywydd yn cael ei roi ar waith mewn gorchmynion lle'r oedd parth eithrio hefyd ar waith, ond heb i'r parth eithrio ei hun fod wedi'i fonitro'n electronig. Roedd mwy o greadigrwydd yn argymhelliad yn ein harolygiadau blaenorol o fonitro electronig yn 2008 a 2012, pan oedd yn tueddu i gael ei ddefnyddio gyda chyrffyw yn unig. Mae nifer o opsiynau ar gael erbyn hyn, ond nid yw ei botensial llawn wedi'i wireddu eto. Adlewyrchwyd hyn gan ddedfrydwyr hefyd:

> *"Anaml y bydd y gwasanaeth prawf yn esbonio ffyrdd creadigol o ddefnyddio monitro electronig. Rhaid i ni ystyried pob achos yr ydym yn edrych arno, gan ofalu bod y ddedfryd yn addas i'r achos. Mae angen i adroddiadau wneud hyn yn gliriach."*

Nid oedd yr holl ddedfrydwyr y siaradwyd â hwy wedi gallu cael hyfforddiant ynghylch monitro AAMR neu GPS, er bod llawer wedi dweud eu bod wedi'u gorlethu gan newid ac yn cael gormodedd o wybodaeth, a oedd nawr yn cael ei chyflenwi'n electronig gan fwyaf ac yn aml ar fformatau annefnyddiol. Roedd dymuniadau'r dedfrydwyr yn glir – roeddent am weld y gwasanaeth prawf yn gwneud cyfraniad gweithredol i hybu opsiynau newydd ar gyfer cynigion:

> *"Wedi cael llond bol o ebost, hoffem weld argymhellion, nid ebost."*

## 3.2. Adroddiadau cyn rhyddhau – achosion trwydded

Gwelwyd tystiolaeth o wybodaeth cyn rhyddhau yn 80 o'r 88 o achosion trwydded a arolygwyd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth a ddarparwyd i ategu penderfyniadau mewn achosion HDC a rhai sy'n destun prosesau'r Bwrdd Parôl. O'r achosion a arolygwyd, roedd 47 yn cynnwys rhyddhau dan HDC a 40 yn cynnwys rhyddhau ag amodau GPS. Mewn un achos, nid oedd y math o ryddhau wedi'i gofnodi'n glir.

### Proses asesu HDC

Newidiwyd proses asesu HDC fel rhan o adolygiad polisi yn 2018, *Proses Asesu Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref* (HMPPS, 2018). Roedd hyn yn ailfframio'r asesiad i ganolbwyntio ar archwilio cyfeiriad yn hytrach nag asesu'r risg o droseddu pellach gan yr unigolyn ar brawf a'r siawns y byddai'n cydymffurfio â HDC. Symudodd y pwyslais o ymarferwyr prawf yn y gymuned yn darparu asesiad a oedd yn cynnwys y risg o aildroseddu, y siawns o gydymffurfio a'r risg o niwed i un a oedd yn blaenoriaethu rheoli risg yn unig.

Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd gwasanaeth digidol newydd i garchardai yn cynnwys asesiadau HDC yn cael ei gyflwyno, ac roedd yn fyw ym mhedair o'r chwe ardal a arolygwyd. Roedd y ffurflen ar y system ddigidol ychydig bach yn wahanol i'r fersiwn papur sydd wedi'i gynnwys yn nogfennau fframwaith polisi HDC. Mae'r pwyslais yn yr asesiad presennol, yn ddigidol ac fel arall, ar y mesurau rheoli risg a roddir ar waith yn y cyfeiriad arfaethedig i alluogi rhyddhau. Yn hollbwysig, nid yw'r asesiad papur yn sôn am addasrwydd y cyfeiriad, felly mae'n tybio ei fod yn addas.

Dim ond mewn 28 y cant o achosion y gwelsom fod asesiadau rhyddhau HDC yn ddigon dadansoddol a phersonol i roi sail i benderfyniadau gan garchardai. Dywedodd ymarferwyr prawf eu bod yn teimlo bod yr asesiadau y gallent eu cynnig yn eu cyfyngu'n ormodol oherwydd cyfyngiadau'r cwestiynau ar y ffurflen.

### Archwiliadau cam-drin domestig a diogelu

Cwblhawyd archwiliadau cam-drin domestig cyn rhyddhau mewn 68 y cant o'r achosion a ryddhawyd o'r carchar gyda HDC. Gwelwyd gwell tystiolaeth o archwiliadau diogelu plant; cwblhawyd archwiliadau cyn rhyddhau mewn 79 y cant o achosion perthnasol. Cynhaliwyd rhai archwiliadau cam-drin domestig ar ôl rhyddhau, ond nid ym mhob achos. Ymysg pobl ar brawf a oedd yn destun cyrffyw monitro electronig fel rhan o HDC, ni chafodd 17 y cant ddim archwiliadau heddlu drwy gydol cyfnod y cyrffyw.

Yn ein *Hadolygiad Thematig o Ddiwylliant ac Arferion Adalw Prawf* 2020, nodwyd bod canllawiau diwygiedig HDC 2018 yn mynd ati i symleiddio'r broses. Dywedodd ymarferwyr mai ychydig iawn o amser y byddent yn ei gael yn aml i asesu cyfeiriadau, a bod y broses yn gallu teimlo'n fympwyol ac yn anniogel. Roedd rhai achosion a arolygwyd yn yr adolygiad hwnnw'n dangos bod HDC yn cael ei gymeradwyo ar gyfer cyfeiriadau anaddas a nodwyd, er bod rhyddhau ar HDC yn gallu bod yn broses adeiladol, bod angen asesiad risg cytbwys i danategu'r broses gan ystyried yr angen i ddiogelu'r cyhoedd a hefyd i leihau'r siawns o adalw.

Ar ôl cyhoeddi'r adolygiad thematig hwnnw, cytunwyd ar gynllun gweithredu gyda HMPPS, *Ymateb i: Adroddiad Adolygiad Thematig o Ddiwylliant ac Arferion Adalw Prawf* (HMPPS, 2020a). Roedd hyn yn cynnwys sicrhau y darperir yr amser gofynnol i asesu'n llawn pa mor addas yw cyfeiriadau rhyddhau posibl a chynlluniau rheoli risg wrth roi trefniadau HDC ar waith, yn unol â fframwaith polisi HDC 2018. Er y ceir targed 10 diwrnod ar gyfer dychwelyd y ffurflen archwilio cyfeiriad, nid yw'r cyfnod asesu wedi'i gyfyngu i 10 diwrnod. Os oes cwestiynau am risg yn dal i fod heb eu hateb, rhaid gohirio'r penderfyniad i ryddhau nes bod y gwasanaeth prawf wedi darparu'r wybodaeth ychwanegol. Nid yw'r ffurflenni a ddefnyddir yn gofyn yn benodol am asesiad o addasrwydd i ryddhau, dim ond archwiliad cyfeiriad i roi sail i benderfyniadau am ryddhau. Roedd ymarferwyr hyderus wedi osgoi'r broses hon i sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth briodol am addasrwydd, neu wedi gwrthod dychwelyd y ffurflenni fel na allai'r broses barhau. Roeddent yn llenwi'r asesiad â'r wybodaeth am risg yr oeddent yn teimlo ei bod yn berthnasol, yn hytrach nag ateb y cwestiynau penodol. Mae ymarferwyr llai hyderus a llai profiadol yn fwy tebygol o gwblhau'r ffurflenni yn unol â'r cyfarwyddyd, a gallai hyn golli gwybodaeth bwysig sy'n berthnasol i addasrwydd y rhyddhad arfaethedig a'r risg.

Mae GPS wedi bod ar gael fel un o amodau trwydded HDC ers y cyflwynwyd y dechnoleg yn 2018-2019, ar gyfer unrhyw fath o drosedd neu ddedfryd. Er bod gwybodaeth am hyn wedi'i chynnwys mewn dogfennau polisi, nid yw'n cael ei ddefnyddio'n aml: mewn tua dau y cant o achosion sy'n cael eu rhyddhau ar HDC.[15] Nid oedd yn ymddangos bod llawer o ymarferwyr prawf yn ymwybodol bod hyn yn opsiwn.

Mae'r broses asesu annigonol yn golygu na ellir sicrhau penderfyniadau diogel am ryddhau ym mhob achos, hyd yn oed pan fo GPS yn opsiwn ar gyfer pob achos sy'n cael HDC.

**Enghraifft o arfer gwael**

[15] Tîm Monitro Electronig. (2021). Data heb eu cyhoeddi, Chwefror 2021.

Cafodd Robert ddedfryd o 36 mis yn y carchar ar ôl euogfarn am droseddau byrgleriaeth o annedd a niwed corfforol difrifol yn erbyn yr un dioddefwr. Mae ganddo nifer o euogfarnau blaenorol sy'n ymwneud yn bennaf â throseddau caffaelgar a chysylltiedig â chyffuriau, ond mae ganddo hefyd droseddau treisgar blaenorol a hanes o heddlu'n cael eu galw oherwydd cam-drin domestig. Er i'r heddlu gynnal archwiliadau cyfeiriad cyn rhyddhau fel sail i'r asesiad HDC, ni chynhaliwyd archwiliadau cam-drin domestig ar Robert ei hun, ac ni adolygwyd digwyddiad o gam-drin domestig a gofnodwyd yn flaenorol ar systemau'r gwasanaeth prawf cyn y trosedd dan sylw.

Roedd cofnodion prawf yn dangos yn glir bod ganddo hanes sylweddol o gam-drin domestig a bod yr heddlu wedi'u galw lawer gwaith. Roedd ei ymddygiad yn cynnwys trais yn erbyn amryw o bartneriaid, gan gynnwys torri amodau mechnïaeth a rheolyddion allanol, dyrnu pen a chorff partner, a llusgo partner drwy rym yn ôl i gerbyd ar ôl iddi geisio dianc, a chymryd ei ffôn ar achlysur arall fel na allai alw am gymorth. Ni chafodd y rhain eu hystyried na'u cofnodi fel rhan o'r asesiad rhyddhau, a chafodd Robert ei ryddhau i gyfeiriad ei dad, sydd ar yr un stryd â'i ddioddefwr/cyn-bartner diweddaraf. Nid oedd mesurau diogelu priodol ar waith ar adeg rhyddhau, a chollwyd cyfleoedd i naill ai wrthod rhyddhau i'r cyfeiriad hwn neu sicrhau mesurau diogelwch ychwanegol ar ffurf parth eithrio a monitro lleoliad GPS.

Er y ceir cyfle clir i wella cynlluniau rheoli risg, gan ddefnyddio GPS, i bobl sy'n cael eu rhyddhau ar HDC lle mae parthau eithrio ar waith, neu lle ceir pryderon am ymddygiad yn y dyfodol a gweithgareddau ar ôl cael eu rhyddhau, nid yw hyn yn cael ei harneisio i'r eithaf. Byddai hyn yn offeryn defnyddiol ar gyfer carfannau amlwg o bobl ar brawf, er enghraifft, rhai sy'n ymwneud â delio cyffuriau, llinellau cyffuriau neu droseddu trefnedig, ond unwaith eto nid yw ymarferwyr yn deall digon am sut gallai GPS ddarparu mwy o reolaeth a monitro mewn achosion â llai o risg o niwed.

Os nad oes cyfeiriad addas i ryddhau unigolyn ar brawf iddo, ond ei fod yn gymwys i wneud cais am HDC, gellir gwneud cais am leoliad mewn llety fel y nodir yn yr enghraifft hon o arfer da.

**Enghraifft o arfer da**

Cafodd Iris ei dedfrydu i 10 mis o garchar am drosedd meddu ar ddryll heb drwydded. Cymerodd gyfrifoldeb am y trosedd, a dywedodd mai deliwr cyffuriau yr oedd hi mewn dyledion iddo a roddodd yr arf iddi i'w gadw'n ddiogel.

Mae Iris wedi dioddef problemau iechyd corfforol a meddyliol sylweddol, ac mae ganddi hanes o gamddefnyddio sylweddau. Mae hi wedi profi cam-drin domestig yn y gorffennol, ac o ganlyniad i hyn cafodd ei phlant i gyd eu symud o'i gofal.

Pan ryddhawyd Iris dan drefniadau HDC, sicrhawyd lleoliad iddi mewn llety BASS [llety mechnïaeth a gwasanaeth cefnogi] oherwydd y risg o gam-drin domestig gan ei phartner ar y pryd pe bai'n dychwelyd i'w chyfeiriad cartref. Yna, llwyddodd Iris i gwblhau ei chyfnod cyrffyw.

### Prosesau cyn rhyddhau ar gyfer pobl sy'n destun amodau GPS

Yn unol â'r polisi presennol, yr unig achosion lle mae GPS ar gael fel amod trwydded ychwanegol i fonitro lleoliad a pharthau eithrio yw achosion sy'n cael eu rhyddhau drwy ddisgresiwn y Bwrdd Parôl ar ôl cael dedfryd am oes, dedfryd amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd neu ddedfryd benodol estynedig. Yn yr achosion hyn, y Bwrdd Parôl fydd yn gosod amodau'r drwydded ar gyfer rhyddhau. Arolygwyd 40 o achosion a ryddhawyd ag amodau GPS ar drwydded. O'r rhain, roedd rhai'n achosion dedfryd benodol lle gallwyd gosod amodau GPS fel rhan o gynlluniau peilot presennol yn Llundain â'r nod o fynd i'r afael â throseddu â chyllell a cham-drin domestig.

Dro ar ôl tro, dywedodd penaethiaid diogelu'r cyhoedd ac ymarferwyr prawf wrthym eu bod yn teimlo bod bwlch sylweddol o ran ble gellid rhoi monitro GPS ar waith. Roedd llawer o ymarferwyr prawf yn rheoli achosion cymhleth risg uchel â dedfrydau penodol safonol o garchar, nad oeddent yn gymwys i gael eu monitro fel hyn ar ôl eu rhyddhau. Mae hyn yn gyferbyniad llwyr i'r modd y mae amodau GPS ar gael i achosion risg is sy'n destun gorchmynion llys.

Roedd asesiadau i roi sail i ryddhau â monitro GPS yn well nag archwiliadau cyfeiriad HDC cyffredinol – roeddent yn ddigonol mewn 65 y cant o achosion. Mae'n werth nodi bod y mwyafrif o'r achosion a ryddhawyd â monitro GPS wedi bod drwy brosesau asesu llawer ehangach gan y Bwrdd Parôl; nid oedd ymarferwyr prawf wedi argymell GPS ym mhob achos ond roedd y Bwrdd Parôl wedi penderfynu ei fod yn briodol.

Rhyddhawyd cyfanswm o 23 achos i safleoedd a gymeradwywyd gan y gwasanaeth prawf am ran gyntaf eu cyfnod ar drwydded. Gan fod GPS yn cael ei ddefnyddio yn syth ar ôl rhyddhau, roedd hyn yn aml yn gorgyffwrdd ag amser yr unigolyn ar brawf yn y safle cymeradwy. Er y gellid ychwanegu gwerth drwy allu monitro lleoliad unigolyn, a chydymffurfiad â gofynion parth eithrio, nodwyd bod amodau GPS yn aml yn diweddu pan fyddai unigolion yn symud ymlaen o safle cymeradwy ar yr union adeg pan fyddai'r math hwn o wybodaeth wedi cynnig y budd mwyaf i reoli'r achos. Mewn rhai amgylchiadau, roedd ymarferwyr prawf yn gwneud cais i estyn yr amodau GPS er mwyn parhau i reoli risg. Fodd bynnag, gallai ymarferwyr wneud mwy i argymell dilyniannu amodau'n addas wrth gyflwyno adroddiadau parôl.

## 3.3. Casgliadau a goblygiadau

Mewn gormod o achosion, nid oes gwybodaeth am gam-drin domestig a diogelu plant ar gael ar y camau cyn dedfrydu na chyn rhyddhau, ac mae hyn yn arwain at argymhellion amhriodol a mesurau annigonol i ddiogelu dioddefwyr posibl.

Nid oes cyfarwyddyd polisi canolog i orfodi cwblhau archwiliadau cam-drin domestig a diogelu plant wrth ystyried monitro electronig fel cynnig dedfrydu neu ryddhau. Mae hyn yn bryder arbennig wrth argymell gofyniad cyrffyw. Nid yw prosesau asesu ar gyfer y posibilrwydd o ryddhau ar HDC yn ddigon cadarn i sicrhau bod yr holl wybodaeth am risg yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am ryddhau.

Mae'r gofyniad am gyfiawnder cyflym a'r pwysau ar amseroedd cyflawni asesiadau HDC, ynghyd â'r diffyg cyfeiriad polisi cenedlaethol a chefnogaeth weithredol gan asiantaethau partner fel yr heddlu, yn gadael ymarferwyr prawf yn agored i wneud argymhellion anwybodus yn y llys ac yn y cyfnod cyn rhyddhau. Hyd yn oed lle mae'r wybodaeth hon wedi bod ar gael, nid yw ymarferwyr prawf bob amser wedi ei defnyddio'n ddigon da i roi sail i asesiadau, a dylid gwneud mwy i sicrhau bod argymhellion yn gadarn ac yn ddiogel.

Nid oes dealltwriaeth lawn o'r ystod lawn o opsiynau monitro electronig i gynorthwyo i reoli pobl ar brawf ar draws y gwasanaeth cyfiawnder troseddol, gan gynnwys gan ddedfrydwyr, ysgrifenwyr adroddiadau llys, ymarferwyr prawf ac aelodau o'r Bwrdd Parôl. Oherwydd diffyg dealltwriaeth, nid yw mathau newydd o dechnoleg, yn enwedig monitro GPS, yn cael eu defnyddio i'r eithaf na'u rhoi ar waith yn y mannau lle byddent yn ychwanegu'r gwerth mwyaf.

# 4. Cyfraniad y gwasanaeth prawf

Mae'r bennod hon yn ystyried pa mor dda mae gofynion monitro electronig wedi'u hintegreiddio wrth oruchwylio a rheoli achosion yn gyffredinol. Mae'n edrych ar ansawdd asesiadau cychwynnol ymarferwyr prawf a'u cynllunio ar yr adeg pan fydd pobl ar brawf yn dechrau cael eu goruchwylio yn y gymuned, gan archwilio pa mor dda yr oeddent yn ystyried monitro electronig yn y prosesau hyn, cyn edrych ar ba mor effeithiol y cafodd y monitro electronig ei roi ar waith a'i reoli drwy gydol y ddedfryd.

Roedd llawer o ganfyddiadau'r arolygiad yn debyg, beth bynnag oedd y ddedfryd neu'r math o ofyniad. Felly, mae'r data a ddefnyddiwyd fel sail i'r canfyddiadau hyn yn berthnasol i'r holl sampl achosion. Mae hyn yn cynnwys gorchmynion cymunedol ac achosion trwydded carchar, ar draws gofynion monitro lleoliad GPS a chyrffyw monitro amledd radio. Lle cafwyd tystiolaeth bod mathau penodol o ofynion yn arwain at ganlyniadau gwahanol, rydym wedi tynnu sylw at hyn. Mae ein canfyddiadau allweddol isod.

**Cryfderau**

- Roedd ymarferwyr prawf yn meddwl bod monitro electronig yn ddefnyddiol i hybu ymataliad ac i reoli'r risg o niwed.
- Mae'n hawdd ymgorffori monitro electronig fel mesur monitro a rheoli o fewn y dull 'pedwar piler' o gynllunio a chyflawni rheoli risg.[16]
- Roedd tystiolaeth o arfer da wrth reoli gofynion GPS fel rhan o oruchwyliaeth trwydded.
- Cafwyd enghreifftiau o gydweithio cadarnhaol rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth prawf i ddefnyddio tagiau wedi'u comisiynu ar sail wirfoddol mewn achosion sy'n peri pryder.
- Gorfodwyd amodau trwydded yn y rhan fwyaf o achosion.
- Dywedodd rhai pobl ar brawf wrthym fod monitro electronig yn ddefnyddiol iddynt i gyflawni trefn ddyddiol a sefydlogrwydd.

**Ond:**

- Ychydig iawn o gofnodi rheolaidd a oedd ynglŷn â sut byddai monitro electronig o gymorth i ymataliad neu'n cyfrannu at reoli'r risg o niwed.
- Nid oedd y mwyafrif o ymarferwyr prawf yn ymwybodol o'r gofyniad i hysbysu EMS am eu manylion cyswllt a'u hasesiad risg o fewn 24 awr ar ôl dyrannu'r achos.
- Nid oes goruchwyliaeth gan reolwyr i sicrhau y cyfathrebir yn gywir am yr holl ofynion monitro electronig a wneir gan y llysoedd neu garchardai, na bod EMS yn eu rhoi ar waith.
- Roedd bylchau yng ngwybodaeth ymarferwyr prawf, gan olygu nad oedd gofynion yn cael eu cyflawni'n llawn na'u gorfodi'n briodol.
- Roedd diffyg sgyrsiau rhagweithiol â phobl ar brawf am fonitro electronig a'r effaith y byddai/yr oedd yn ei chael ar eu ffordd o fyw.
- Mynegodd ymarferwyr prawf rwystredigaeth ynghylch yr amser mae EMS yn ei gymryd i ymateb i alwadau a cheisiadau am wybodaeth. Roedd hyn yn effeithio ar reoli achosion.
- Roedd y gwerth y gallai monitro electronig ei ychwanegu at reoli achosion yn cael ei wanedu gan ei bod yn anodd i ymarferwyr prawf gael y wybodaeth ddiweddaraf.

[16] Pedwar piler rheoli risg yw goruchwylio, monitro a rheoli, ymyriadau a thriniaeth, a diogelwch dioddefwyr.

- Roedd dryswch ynghylch pa fath o fonitro y gellid ei ddefnyddio ar gyfer pa achosion, a rhwystredigaeth o beidio â gallu defnyddio monitro GPS gorfodadwy mewn achosion priodol â risg uchel o niwed lle byddai'n ychwanegu gwerth.
- Nid oedd adolygiad rheolaidd o gynnydd ar ddiwedd unrhyw gyfnod o fonitro electronig.
- Nid oedd gofynion cyrffyw a osodir gan y llys yn cael eu gorfodi'n gadarn.
- Roedd monitro electronig yn cael effaith negyddol ar gyflogaeth ac iechyd rhai pobl ar brawf.

## 4.1. Asesiad cychwynnol

Mae'r cam asesu cychwynnol, pan fydd unigolyn ar brawf yn dechrau cael ei oruchwylio yn y gymuned, yn cynnig y sail i adeiladu gweddill y ddedfryd arni ac ymgysylltu â'r unigolyn. Ar y cyfan, ystyriwyd bod llai nag un o bob pum asesiad yn rhoi ffocws digonol ar ymgysylltu â'r unigolyn ar brawf ynglŷn â'r elfen monitro electronig ar y ddedfryd. Nid oedd cymhelliant a pharodrwydd unigolyn i ymgysylltu a chydymffurfio â monitro electronig yn cael ei ddadansoddi'n rheolaidd, ac mae hyn yn colli cyfle i ddechrau sgwrs ynglŷn ag ystyr monitro electronig i'r unigolyn dan sylw. Lle nodwyd amgylchiadau personol a fyddai wedi effeithio ar allu'r unigolyn i gydymffurfio â monitro electronig, dim ond yn chwarter yr achosion yr ystyriwyd y rhain, a dim ond mewn lleiafrif o achosion yr ystyriwyd nodweddion amrywiaeth a ganfuwyd.

Er bod 88 y cant o ymarferwyr prawf yn meddwl bod monitro electronig o gymorth i hybu ymataliad yn eu hachosion, dim ond 11 y cant o'r holl achosion a oedd yn cofnodi'r rôl y byddai'n ei chwarae i gynorthwyo ymataliad. Er bod ymarferwyr yn gweld y manteision posibl, nid oedd sôn am hyn yn eu hasesiadau na'u trafodaethau â'r bobl yr oeddent yn eu goruchwylio. Nid oedd llawer o ddadansoddi gydag unrhyw fath o ofyniad ynghylch sut byddai monitro electronig yn rhoi sylw i faterion sy'n gysylltiedig â throseddu ac yn cynorthwyo ag ymataliad.

Aseswyd bod cryfderau a ffactorau diogelu i gynorthwyo ag ymataliad yn bresennol mewn ychydig dros hanner yr achosion. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys teulu a pherthynas, cymhelliant i newid, cyflogaeth, hunaniaeth fel rhywun nad yw'n droseddwr a llety sefydlog. Fodd bynnag, ystyriwyd potensial monitro electronig i wella ffactorau diogelu mewn llai na 10 y cant o'r achosion. Dim ond ychydig dros 10 y cant o'r achosion a oedd wedi dadansoddi ffyrdd o ddefnyddio monitro electronig i gynorthwyo'r unigolyn ar brawf i unioni ffactorau cysylltiedig â throseddu, sy'n dangos nad oedd ymarferwyr yn canfod sut gellid ei ddefnyddio fel offeryn cadarnhaol i gefnogi newid ac unioni troseddu.

Nid oedd digon o ystyriaeth yn ystod y cam asesu cychwynnol ynghylch sut byddai monitro electronig yn cefnogi cynlluniau rheoli risg; dim ond yn chwarter yr achosion y gwelwyd tystiolaeth o hyn. Ni chynhaliwyd dadansoddiadau rheolaidd o bryderon penodol am risg i ddioddefwyr a darpar ddioddefwyr, nac am effaith bosibl monitro electronig ar y risg hwn.

Canfuwyd pryderon presennol am ddiogelu plant yn nhraean yr holl achosion. Rhannwyd gwybodaeth ag asiantaethau eraill am ddiogelu plant yn dros hanner yr achosion hynny, ond dim ond mewn lleiafrif o achosion y rhannwyd manylion penodol am ofynion monitro electronig. Eto, roedd hyn yn dangos diffyg dadansoddi'r elfen rheoli a monitro, a'r buddion posibl o ran rheoli risg y gallai monitro electronig eu cyflwyno wrth reoli achosion.

Mae'n ofyniad polisi bod ymarferwyr prawf yn diweddaru EMS â'u manylion cyswllt ac unrhyw wybodaeth am risg sy'n berthnasol i'r achos o fewn 24 awr ar ôl dyrannu'r achos, a phan fydd unrhyw newid i amgylchiadau. Ni welwyd hyn yn rheolaidd yn yr achosion a arolygwyd, a dim ond traean o'r ymarferwyr dan sylw a oedd yn ymwybodol o'r polisi rhannu gwybodaeth. Mae'n werth nodi mai dim ond y rhai sydd wedi'u dedfrydu i ddedfrydau cymunedol sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen bolisi fewnol, *Rhannu Gwybodaeth a Rheoli'r Gofyniad Monitro Electronig yn Effeithiol (Dedfrydau Cymunedol)* (2019), ac nad yw'r un gofyniad rhannu gwybodaeth ar gyfer achosion trwydded wedi'i ddogfennu na'i fynegi. Drwy gydol y ddedfryd, fodd bynnag, gwelwyd tystiolaeth o gyfnewid gwybodaeth, pan ystyriwyd bod hynny'n briodol, yn y mwyafrif rhesymol o'r achosion.

## 4.2. Cynllunio dedfrydau a rheoli risg

Nid oedd y modd o gyflenwi monitro electronig ochr yn ochr ag ymyriadau yn cael sylw rheolaidd mewn cynlluniau dedfrydu. Roedd diffyg cydnabyddiaeth o'r cyfleoedd yr oedd yn eu cyflwyno o ran gwella galluoedd goruchwyliaeth. Dim ond mewn lleiafrif o'r achosion y soniwyd am fonitro electronig fel offeryn i gynorthwyo ymataliad a lleihau aildroseddu.

Wrth reoli risg o niwed, roedd 92 y cant o ymarferwyr o'r farn bod monitro electronig yn ddefnyddiol. Mae'r cynlluniau rheoli risg presennol, sy'n defnyddio'r dull 'pedwar piler', yn annog cydnabod monitro electronig fel mesur monitro a rheoli. Fodd bynnag, dim ond mewn 60 y cant o achosion perthnasol yr adlewyrchwyd hyn mewn cynlluniau rheoli risg.

Ar draws y rhan fwyaf o gwestiynau'r arolygiad, aseswyd bod achosion lle'r oedd monitro GPS yn digwydd fel rhan o amodau trwydded, sef yr achosion â'r risg uchaf, yn cael eu rheoli at safon uwch yn gyson. Roedd gwell dealltwriaeth yn yr achosion risg uwch hyn o rôl monitro electronig o ran cynorthwyo i reoli'r achosion, a rhoddwyd tystiolaeth yn rheolaidd ynghylch ei ddefnyddio fel mesur rheoli a monitro.

O fewn cynlluniau ysgrifenedig i gadw pobl eraill yn ddiogel, dim ond yn nhraean yr achosion y soniwyd am rôl monitro electronig a'i gyfraniad at reoli risg i bobl eraill. Y ffigur ar gyfer achosion cyrffyw oedd y ffigur isaf, boed hynny fel rhan o orchymyn llys neu wrth ryddhau ar HDC.

Gwelwyd enghreifftiau o ofyn am GPS fel amrywiad trwydded mewn rhai achosion fel dewis arall yn hytrach nag adalw. Roedd ymarferwyr yn gweld hyn fel ymyriad cadarnhaol, er ei fod yn gallu cymryd amser hir gan fod angen cynnwys yr Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd (PPCS) a sicrhau cytundeb y Bwrdd Parôl. Dywedodd y Bwrdd Parôl wrthym eu bod yn ceisio gwneud penderfyniadau am amrywiadau yn gyflym lle'r oedd gwybodaeth ddilynol wedi'i chyflwyno, ond eu bod yn deall y gallai fod oediadau cyn i'r PPCS dynnu eu sylw at achosion. Byddai'r broses hon yn elwa o archwilio mwy o safbwynt gweithredol cenedlaethol i roi mwy o gymorth i reoli risg yn effeithiol ac yn effeithlon. Pan fyddai'r amrywiad hwn i drwydded yn digwydd mewn modd amserol byddai'r manteision yn amlwg, fel y mae'r enghraifft ganlynol yn ei ddangos.

| Enghraifft dda o achos |
| --- |
| Mae Nick yn wryw 37 oed sydd wedi cael dedfryd amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd am droseddau lladrad a gwir niwed corfforol. Cafodd ei ryddhau eto ar drwydded yn 2019, ar ôl cael ei adalw cyn hynny.<br>Yn 2020, daeth yn amlwg ei fod mewn cysylltiad â chyn-bartneriaid a'u plant, er bod amodau ei drwydded yn atal hyn. Gofynnwyd i'r Bwrdd Parôl am amrywiad i'r drwydded i osod cyrffyw a gofyniad monitro trywydd GPS fel dewis arall yn hytrach nag adalw. Cytunwyd â hyn.<br>Gwnaethpwyd ceisiadau rheolaidd am ddata ac archwiliwyd mapiau er mwyn gallu deall symudiadau Nick, a'i gydymffurfiad â gofynion, yn llawn. Nid oedd hyn yn atal cyn-bartneriaid a'u plant rhag ymweld ag ef, ond roedd yr ymarferwr prawf yn gallu olrhain gweithgareddau Nick ac archwilio'r rhain gydag ef fel rhan o oruchwyliaeth adeiladol o amodau ei drwydded, ac roedd hyn yn golygu bod y risg wedi'i reoli'n well. |

## 4.3. Rhoi gofynion monitro electronig ar waith a'u cyflawni

Bydd llys neu garchar yn gosod gofyniad monitro electronig ar achosion, a'r corff sydd wedi gwneud hyn fydd yn gyfrifol am sicrhau y trosglwyddir manylion am y gofyniad i EMS. Mae EMS yn derbyn y ceisiadau hyn ac yn gwneud trefniadau i osod y ddyfais monitro electronig. Nid yw'r ohebiaeth gychwynnol i ofyn am wasanaeth gan EMS yn cael ei rhannu â'r gwasanaeth prawf, a'r unig ffordd y byddant yn gwybod bod monitro electronig ar waith yw drwy dderbyn y gorchymyn llys neu'r drwydded berthnasol. Nid yw EMS wedi'u contractio i rannu cadarnhad â'r Gwasanaeth Prawf fel mater o drefn ar ôl gosod tag ar unigolyn ar brawf, ac eithrio tagiau monitro alcohol. Dim ond yn hanner yr achosion a arolygwyd yr oedd tystiolaeth a chadarnhad o osod tagiau yn amserol i fonitro

cyrffyw neu leoliad wedi'u cofnodi'n ddigonol, a nodwyd oediadau mewn un o bob 10 achos. Roedd cadarnhad o osod tagiau ar ei uchaf i'r rhai a osodwyd fel rhan o amodau trwydded.

Ni fydd ymarferwyr prawf yn gwybod bod yr unigolyn ar brawf yn gwisgo tag nes eu bod yn ei weld â'u llygaid eu hunain, neu'n cysylltu ag EMS yn uniongyrchol i gadarnhau bod y tag wedi'i osod. Gwelsom nad oedd ymarferwyr prawf bob amser yn gwneud hyn ac mewn nifer bach o achosion ni chafodd y tag byth ei osod. Dywedodd rheolwyr contractau wrthym nad oedd gorchmynion llys na charchardai'n cael eu gwirio fel mater o drefn ac, felly, eu bod yn gwybod, ar achlysuron prin, y gellir colli gofynion, a'u bod yn dibynnu ar yr unigolyn ar brawf neu'r ymarferwr prawf i godi'r mater, fel y nodir yn yr achos canlynol.

**Enghraifft wael o achos**

Cafodd Oliver ddedfryd gymunedol am aflonyddu ar gyn-bartner a chafodd ei roi ar gyrffyw wedi'i fonitro'n electronig am wyth wythnos. Cafodd ei ddedfrydu gan lys y tu allan i'r ardal leol a oedd wedi anfon hysbysiad i gyfeiriad ebost darparwr EMS annilys.

Nid oedd yr ymarferwr prawf a oedd yn gyfrifol am reoli Oliver wedi gwirio bod y tag wedi'i osod. Bu'n rhaid i Oliver fynd i'r ysbyty â niwmonia dair wythnos ar ôl cael ei ddedfrydu. Dim ond ar ôl i'r ymarferwr prawf gysylltu â'r darparwr EMS i ddweud nad oedd Oliver wedi torri unrhyw amodau, ac nad oedd angen cymryd camau gorfodi, y cafodd wybod nad oeddent yn gwybod dim byd am y gorchymyn. Bu oediad arall o 16 diwrnod wedi i'r darparwr monitro electronig gael yr hysbysiad gan y llys cyn i'r tag gael ei osod. O ganlyniad, ni chafodd y tag EM ei osod tan bum wythnos i mewn i'w ddedfryd.

Mae cytundebau lefel gwasanaeth presennol ag EMS yn cynnwys amseroldeb ateb galwadau, ond nid yr amser mae'n ei gymryd i siarad ag unigolyn wedi i'r alwad gael ei hateb yn electronig. Soniwyd am yr amser yr oedd yn ei gymryd i EMS ateb galwadau ffôn mewn grwpiau ffocws ymarferwyr, ac roedd rhai swyddogion yn dweud eu bod wedi aros am hyd at 45 munud i gael ymateb. Atseiniwyd hyn gan bobl ar brawf a oedd hefyd yn dweud wrthym eu bod wedi cael trafferth cysylltu ag EMS pan fo angen.

Er eu bod yn bodloni gofynion y contract, nid yw'r profiad o aros i gael siarad â staff yn bodloni anghenion ymarferwyr prysur a phobl ar brawf sy'n aml yn ceisio cysylltu ag EMS i'w hysbysu am broblemau. Fel y dywedodd un ymarferwr:

> *"Maent bob amser yn codi'r ffôn, ond nid ydynt yn dilyn drwodd ac yn aml nid ydynt yn gwybod pryd bydd pethau fel rhoi gwefrydd newydd yn digwydd. Mae rhyddid pobl yn y fantol, felly dylent fod yn gwneud yn well."*

Mewn cyfweliadau ag ymarferwyr prawf, dim ond hanner y rhai y cyfwelwyd â hwy a ddywedodd eu bod yn ystyried ei bod yn hawdd cysylltu ag EMS. Cafwyd awgrymiadau ar gyfer gwelliant fodd bynnag, gan gynnwys newidiadau i'r system gyfrinair bresennol i gael gwybodaeth, amseroedd ateb ffôn cyflymach pan fo angen siarad â rhywun o EMS yn uniongyrchol, ymateb yn gyflymach i ymholiadau drwy e-bost a chael gweld gwybodaeth EMS am reoli achosion yn uniongyrchol.

Canfu ein harolygiad fylchau cyfathrebu yn bron i draean yr achosion. Roedd y rhain yn cynnwys ymarferwyr prawf yn methu ag ymateb yn brydlon i hysbysiadau am dor amodau ac EMS yn ymateb yn araf i broblemau â chyfarpar a godwyd. Roedd hyn yn creu rhwystredigaeth i bob parti ac yn y pen draw'n golygu nad oedd monitro electronig yn cael ei gyflenwi yn y modd mwyaf cadarn i gynorthwyo i reoli achosion.

Mae'r gwerth a roddir ar fonitro electronig fel ymyriad credadwy hefyd yn cael ei danseilio pan nad yw'r cyfarpar monitro'n gweithio'n iawn. Dywedodd dros hanner (59) y 103 o ymarferwyr prawf y cyfwelwyd â hwy fod eu hachosion wedi cael anawsterau â thechnoleg a arweiniodd at darfu ar fonitro.

Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr prawf yn deall y broses i gyflwyno a chyflawni cyrffyw monitro â radio amledd, boed hynny ar gyfer achosion sy'n destun gorchymyn llys neu oruchwyliaeth trwydded HDC. Fodd bynnag, siom oedd gweld prinder enghreifftiau mewn sesiynau goruchwylio o drafod y gofyniad na'i atgyfnerthu'n gadarnhaol â phobl ar brawf fel offeryn i helpu tuag at ymataliad.

Nid oedd defnyddio gofynion GPS mewn dedfrydau wedi'u gorchymyn gan lys yn cael ei reoli'n dda yn gyson. Roedd hyn yn adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth annigonol llawer o ymarferwyr prawf ynghylch sut dylid defnyddio monitro electronig i gynorthwyo i reoli eu hachosion ac, o ganlyniad, nid oeddent yn manteisio i'r eithaf ar y dechnoleg. Roedd rhai ymarferwyr yn camddeall defnyddio GPS fel offeryn monitro lleoliad a'r galluoedd cysylltiedig. Roedd hyn yn cynnwys y syniad y byddent yn cael hysbysiadau am dorri amodau cyrffyw a pharthau eithrio, hyd yn oed pan mai dim ond gofynion monitro lleoliad a roddwyd. Roedd hyn yn golygu nad oedd y cyfarpar yn gwneud dim byd gweithredol i fonitro'r gofynion eraill hyn. Arweiniodd hyn at ymdeimlad o hyder ffug gan rai ymarferwyr prawf am y gweithgareddau yr oeddent yn eu gwneud. Mae hyn yn dystiolaeth o ddiffyg dealltwriaeth o sut i reoli'r gofyniad GPS.

**Enghraifft wael o achos**

Plediodd David yn euog i ymosodiad cyffredin yn erbyn ei bartner a chafodd ddedfryd o orchymyn cymunedol â diwrnodau o ofyniad gweithgarwch adsefydlu, gwaith di-dâl a gofyniad monitro trywydd GPS am chwe mis. Roedd yr adroddiad cyn dedfrydu'n glir ynghylch sut defnyddid y data mapio i archwilio ymddygiad David a rheoli ei risg o niwed.

Dywedodd yr ymarferwr prawf a oedd yn rheoli'r achos hwn nad oedd wedi cael dim hyfforddiant am fonitro trywydd GPS ac nad oedd yn siŵr sut gellid defnyddio hyn i unioni ymddygiad troseddol, cynorthwyo ag ymataliad a rheoli risg. Yng nghyfnod chwe mis y gofyniad tagio, ni wnaeth ddim ceisiadau am unrhyw ddata mapio ar unrhyw adeg i gadarnhau gweithgareddau na lleoliad.

Roedd cyflwyno technolegau GPS yn 2018-2019 yn cynnwys ffrwd waith i gyflwyno system newydd i reoli achosion â monitro electronig a phorth data hunanfynediad i ymarferwyr. Hyrwyddwyd hyn fel ffordd o gynnig y data mapio diweddaraf i ymarferwyr ar gyfer achosion a hysbysiadau am dor amodau, â'r nod o arwain at reoli achosion yn well. Ni chafodd y porth hwn byth ei lansio, ac mae'r bwlch hwn yn dal i fodoli yn narpariaeth y gwasanaeth i ymarferwyr prawf. Er bod data am dor amodau'n cael eu hanfon yn awtomatig at ymarferwyr prawf, yn absenoldeb porth mae'n rhaid i ymarferwyr ofyn i EMS am gael gweld data mapio. Mae hyn yn aml yn cymryd llawer o amser ac mae'r mapiau a dderbynnir yn anodd eu dehongli, sy'n eu gwneud yn ddiwerth i reoli achosion yn ymatebol. Dywedodd bron bob ymarferwr prawf y siaradwyd â hwy (93 y cant) y byddai porth o'r fath yn eu helpu i reoli achosion yn fwy effeithlon.

Er bod tystiolaeth o hyd nad yw rhai ymarferwyr yn deall cwmpas llawn GPS o ran rheoli amodau trwydded, roedd y gofynion a osodwyd wrth ryddhau ar drwydded yn tueddu i gael eu rheoli'n well. Roedd ymarferwyr yn gadarnhaol am ddefnyddio amodau GPS fel offeryn rheoli risg a gwelsom enghreifftiau o ddefnyddio hyn yn effeithiol.

**Enghraifft o arfer da**

Mae Ben wedi cael IPP [dedfryd amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd] ar ôl ei euogfarn am droseddau yn cynnwys lladrad a niwed corfforol difrifol. Roedd Ben ar drwydded pan gyflawnodd y troseddau hyn ar ôl ei euogfarn blaenorol am ladrad gan ddefnyddio cyllell lle cafodd y dioddefwr ei glymu a'i adael am chwe awr. Mae ganddo hanes hir o droseddau'n ymwneud â chyffuriau a thrais, a chafodd ei adalw yn y gorffennol ar ôl honiadau o gam-drin domestig, gan gynnwys camgarcharu. Rhoddwyd ystod o amodau trwydded ychwanegol iddo, gan gynnwys monitro trywydd am dri mis.

Mae defnyddio EM wedi bod yn rhan annatod o reoli'r achos cyffredinol. Roedd yr adroddiad parôl yn defnyddio gwybodaeth gan yr heddlu yn ogystal ag asesiadau risg y Gwasanaeth Prawf. Yna, cysylltwyd y cynnig am amod trwydded monitro trywydd â'r risgiau hyn a darparwyd sail resymegol glir, gan gynnwys sut byddai data lleoliad yn cynnig lefel uwch o fonitro a rheolaeth, yn ogystal â rhoi syniad am unrhyw bryderon ffordd o fyw sy'n gysylltiedig â'i leoliad ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd y cynllun dedfrydu at fonitro trywydd fel offeryn i archwilio ffordd o fyw/gweithgareddau Ben ac i ganfod meysydd risg/problemau. Adolygwyd y data GPS yn fisol. Trafodwyd y data, ar ffurf mapiau, ar ôl ei dangos i Ben yn ystod goruchwyliaeth, ac roedd hyn yn ei helpu i ymgysylltu ac yn annog trafodaethau agored am ei ffordd o fyw a'r bobl yr oedd yn ymwneud â hwy.

Roedd diffyg gwybodaeth gyfredol yn parhau i beri rhwystredigaeth i lawer o ymarferwyr prawf sy'n goruchwylio pobl â gofynion GPS. Nid oes cytundeb lefel gwasanaeth ar hyn o bryd ynghylch cyflymder rhannu gwybodaeth pan fo ymholiadau ynghylch symudiadau rhywun. Mae EMS yn darparu hyn ar sail 'ymdrechion gorau' ac, ar adeg yr arolygiad, roeddent yn anelu i wneud hyn o fewn 72 awr ar ôl i'r cais gael ei wneud. Gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr yn aros hyd at dridiau am wybodaeth am leoliad mewn achosion a oedd yn peri risg uchel o niwed difrifol. Roedd hyn yn tanseilio hyder a ffydd ymarferwyr prawf yng ngallu monitro electronig i wneud eu gwaith rheoli achosion yn fwy cadarn.

Roedd rhai ymarferwyr yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod ganddynt systemau i wneud cais am ddata monitro lleoliad yn rheolaidd, drwy wneud ceisiadau gweinyddu achosion i EMS bob wythnos. Roedd hyn yn golygu eu bod yn cael data cyson ac amserol, ond dim ond ynghylch symudiadau yn yr wythnos flaenorol. Lle defnyddiwyd data'n dda, roedd hyn yn gwneud prosesau ymgysylltu ag achosion a rheoli risg yn fwy cadarn. Roedd y bobl a oedd yn cael eu monitro hefyd yn gwerthfawrogi hyn; dywedodd un unigolyn ar brawf wrthym:

> *"Mae'n ategu fy ymddygiad, rwy'n teimlo'n ddiogel, rwy'n cael fy nilysu drwy'r ddyfais hon yn y bôn ... Yr unig ffordd o ddangos i bobl eich bod chi'n dda yw drwy'r hyn yr ydych yn ei wneud."*

Gwelwyd tystiolaeth o'r ffocws ar gynnal perthynas waith effeithiol â phobl ar brawf a oedd yn hybu cydymffurfiad â'r elfen monitro electronig ar eu dedfryd mewn mwyafrif rhesymol o'r achosion a arolygwyd. Yn y rhan fwyaf o achosion, gwnaethpwyd ymdrechion digonol i alluogi'r unigolyn ar brawf i gwblhau ei ddedfryd, gan gynnwys hyblygrwydd i ystyried amgylchiadau personol lle gofynnwyd am newidiadau i fonitro electronig. Roedd ymarferwyr yn rhagweithiol o ran cynnal sgyrsiau a gwneud addasiadau yn ôl yr angen i gynorthwyo i roi monitro electronig ar waith, a'i gyflawni, drwy gydol y cyfnod goruchwylio.

Mae'r cwmpas i gynnwys monitro electronig wrth reoli achosion risg uchel yn rhy gul; nid yw'n opsiwn oni bai ei fod yn cael ei osod drwy'r Bwrdd Parôl ar gyfer mathau penodol o ddedfryd (dedfryd am oes, dedfryd amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd a dedfrydau penodol estynedig). Yn rhanbarthol, mae'r gwasanaethau prawf yn ymgysylltu â phartneriaid yn yr heddlu i gael tagiau gwirfoddol gan ddarparwyr dan gontract â'r heddlu. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol, ac mae'n dangos bod rhanbarthau wedi gorfod dod o hyd i'w datrysiadau eu hunain. Dywedodd llawer o ymarferwyr wrthym nad oeddent yn gallu defnyddio technolegau monitro electronig a

ddarperir yn ganolog yn yr achosion lle'r oedd eu hangen fwyaf a lle byddent yn ychwanegu'r gwerth mwyaf o ran diogelu'r cyhoedd, sef achosion o ddedfryd safonol benodol o garchar sy'n peri risg uchel o niwed.

Cafwyd enghreifftiau yn genedlaethol o ddefnyddio tagiau GPS Buddi, a ddarparwyd gan gydweithwyr yn yr heddlu, i fonitro achosion risg uchel drwy gyfrwng Trefniadau Amlasiantaeth i Ddiogelu'r Cyhoedd (MAPPA) a Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM). Fodd bynnag, dim ond yn wirfoddol y gellir defnyddio'r rhain, sy'n golygu bod rhaid i'r achosion gytuno i'w gwisgo ac ni cheir defnyddio'r data a geir ganddynt at ddibenion gorfodi. Ar ben hyn, nid yw pob ardal heddlu'n ariannu tagiau. Gall yr unigolyn ar brawf hefyd ddewis tynnu'r tag unrhyw bryd, sy'n diweddu'r oruchwyliaeth ychwanegol y mae'n ei chaniatáu. Mae mantais ymyriad o'r fath yn cynnwys y gallu i ddiystyru'r posibilrwydd bod yr unigolyn wedi cymryd rhan mewn troseddau ar sail monitro lleoliad, a dywedodd ymarferwyr prawf fod hyn yn gymhelliant sylweddol i bobl a oedd yn cytuno i gael eu monitro'n electronig yn wirfoddol. Roedd ymarferwyr yn gweld hyn fel rhan annatod o'u gwaith o reoli risg achosion priodol, ond yn y rhan fwyaf o ardaloedd dywedodd yr heddlu fod y galw'n fwy na'r cyflenwad a'u bod yn gorfod penderfynu'n aml pwy i roi'r gorau i'w monitro er mwyn gallu tagio rhywun arall.

## 4.4. Adolygu gofynion monitro electronig

Dylid cwblhau adolygiadau pan fo unrhyw newid sylweddol yn yr achos, gan gynnwys ar ddiwedd yr ymyriad, ond gwelwyd adolygiadau mewn llai nag un o bob pum achos ar ddiwedd y gofyniad monitro. Nid oedd llawer o dystiolaeth bod data EMS yn cyfrannu at yr adolygiad o gynnydd pobl ar brawf yn eu dedfryd; dim ond mewn ychydig dros un o bob pum achos yr oedd ymarferwyr prawf yn defnyddio'r wybodaeth hon. Mewn achosion a oedd yn cynnwys asiantaethau eraill, dim ond mewn lleiafrif o'r achosion y gwelwyd tystiolaeth o rannu gwybodaeth am hynt gofynion monitro electronig.

Er y gwelwyd tystiolaeth o welliannau yn y ffactorau sydd â'r cysylltiad agosaf â throseddu mewn ychydig dros ddau o bob pum achos, roedd diffyg cydnabyddiaeth gyffredinol i sut gallai monitro electronig fod wedi cyfrannu at newidiadau i ffactorau sy'n gysylltiedig ag ymatal ac ymddygiad troseddol wrth adolygu achosion. Ceir cyfle go iawn i drafod ac archwilio manteision monitro electronig â phobl ar brawf, ond yn aml collwyd y cyfle hwn. Gallai sgyrsiau syml roi sail i waith ymatal, fel y dywedodd un unigolyn ar brawf:

> *"Allwn i ddim bod yn eistedd yn y dafarn tan hanner awr wedi deg yn y nos lle'r oedd yr holl drwbl yn dechrau."*

Roedd diffyg sgyrsiau ystyrlon drwy gydol y cyfnod goruchwylio, ac yn enwedig ar ôl llacio'r cyfyngiadau, yn golygu y collwyd cyfle i harneisio'r newidiadau ymddygiad a allai fod wedi digwydd yn ystod y cyfnod monitro. Nid oedd tystiolaeth o rannu gwybodaeth fel mater o drefn ag EMS ar ddiwedd y cyfnod tagio, ac felly roedd diffyg dadansoddi cydymffurfiad ac ymateb i ymyriadau monitro electronig.

Roedd ceisiadau i estyn cyfnodau monitro, ar ôl adolygu'r ymyriad, hefyd yn araf i gael eu rhoi ar waith fel y dangosir yn yr achos canlynol.

| **Enghraifft o arfer gwael** |
| --- |
| Mae Stephen wedi cael IPP [dedfryd amhenodol er mwyn diogelu'r cyhoedd] ar ôl ei euogfarn am ymosodiadau rhywiol a meddu ar arf ymosodol. Mae ganddo lawer o euogfarnau blaenorol, gan gynnwys trais a throseddau rhywiol eraill. Cyn hyn, cafodd ei adalw ar y drwydded IPP ar ôl pryderon ei fod yn mynd i'w barth eithrio ac yn ymddwyn mewn modd y credwyd ei fod yn debygol o arwain at droseddu. |

Ar ôl cael ei ryddhau eto, rhoddwyd ystod o amodau trwydded ychwanegol i Stephen, gan gynnwys monitro lleoliad a pharth eithrio. Roedd y Bwrdd Parôl wedi dweud y dylid defnyddio GPS i fonitro'r parth eithrio, ond ni chynhwyswyd hyn yn y drwydded ryddhau. Roedd yr ymarferwr prawf wedi meddwl y byddai monitro lleoliad yn monitro'r parth eithrio arfaethedig yn awtomatig. Nid oedd hyn yn wir. Roedd angen gofyniad penodol am barth eithrio wedi'i fonitro'n electronig ar y drwydded i sicrhau y ceid hysbysiad am unrhyw symudiad i mewn i'r parth eithrio. Er y gofynnwyd yn aml am ddata monitro lleoliad, ni chanfuwyd nad oedd y parth eithrio'n cael ei fonitro'n electronig am bum mis ar ôl rhyddhau Stephen, pan gysylltodd yr ymarferwr prawf ag EMS i wirio'n benodol a fu i mewn i'r parth eithrio ai peidio. Yna, gwnaethpwyd cais am amrywiad i'r drwydded.

Dangoswyd bod Stephen wedi mynd i'r parth eithrio yn fuan iawn ar ôl i'r monitro ychwanegol hwn gael ei roi ar waith. Roedd data GPS wedi gallu gwirio natur y digwyddiadau hyn, gan gadarnhau nad oedd yn loetran yn yr ardal ac, ar achlysur arall, roedd wedi gyrru drwy'r parth eithrio heb stopio; rhoddwyd rhybudd uwch reolwr.

O wybod ei fod wedi bod yn mynd i'r parth eithrio ac oherwydd pryderon parhaus am berthnasoedd ac ymddygiadau, gwnaethpwyd cais i estyn cyfnod y monitro lleoliad am chwe mis pellach; fodd bynnag, ni chafwyd ymateb gan PPCS [Adran Gwaith Achos Diogelu'r Cyhoedd] a'r Bwrdd Parôl ar ddiwedd y cyfnod tagio, felly bu cyfnod o tuag wyth wythnos pan nad oedd Stephen yn cael ei fonitro â GPS ac na ellid gwirio ei symudiadau.

## 4.5. Gorfodi gofynion monitro electronig

Mae gofynion y contract presennol yn ei gwneud yn ofynnol i EMS rannu gwybodaeth am dor amodau â'r gwasanaethau prawf yn gyflymach ar gyfer gorchmynion llys (erbyn 10am y diwrnod wedyn) nag ar gyfer achosion trwydded (erbyn hanner nos y diwrnod wedyn). Mae llawer o ofynion y contract a lefel y gwasanaeth yn rhan o gytundebau o gontractau blaenorol. Nid yw'r rhain yn adlewyrchiad cywir o anghenion presennol y Gwasanaeth Prawf. Yn hanesyddol, er y byddai'r wybodaeth am dorri amodau a rannwyd ar gyfer achosion trwydded wedi bod yn berthnasol i rai ar HDC, mae cynnwys achosion sydd wedi'u rhyddhau ar barôl yn golygu y gallai'r wybodaeth hon nawr ymwneud â phobl sydd wedi'u dyfarnu'n euog o'r troseddau mwyaf difrifol. Nid oes system i flaenoriaethu rhannu'r wybodaeth hon yn gyflymach mewn achosion â risg uwch o niwed, ar wahân i'r achosion critigol hynny a reolir drwy gyfrwng yr Adran Diogelwch Gwladol, ac nid yw'r trefniadau presennol yn adlewyrchu blaenoriaeth diogelu'r cyhoedd.


Roedd angen camau gorfodi yn 67 o'r 172 o achosion a arolygwyd, a gwelwyd tystiolaeth bod hynny'n digwydd yn y rhan fwyaf ohonynt. Fodd bynnag, gwelwyd achosion o dorri amodau cyrffyw dro ar ôl tro heb gymryd dim camau, ac ni chafodd dedfrydau'r llys eu gorfodi'n gadarn. Roedd amodau'r drwydded yn cael eu gorfodi pan fo angen mewn 87 y cant o achosion, o gymharu â 57 y cant o achosion cymunedol at ei gilydd. Y rhai a oedd wedi cael cyrffyw drwy orchymyn llys oedd leiaf tebygol o wynebu camau gorfodi priodol – dim ond mewn 56 y cant o achosion y digwyddodd hyn. Y rhai a oedd yn cael eu monitro â GPS fel rhan o amodau trwydded oedd fwyaf tebygol o wynebu camau gorfodi – gwelwyd tystiolaeth o hyn mewn 94 y cant o achosion. Ni welwyd llawer o gamau gorfodi'n arwain at dor amodau neu adalw achosion yn yr arolygiad hwn – digwyddodd hyn mewn 14 o 84 o ddedfrydau gan y llys ac mewn 13 o 88 o achosion a ryddhawyd o garchar. Gwelwyd tystiolaeth o ymdrechion digonol i gysylltu eto â'r unigolyn ar brawf ar ôl cymryd camau gorfodi mewn ychydig dros dri chwarter yr achosion. Gwelwyd llai o achosion o dor amodau neu adalw yn y cyfnod ar ôl cwblhau'r elfen monitro electronig ar eu dedfryd (15 o gyfanswm o 148 achos).

**Cyrffyw cyfyngu i'r cartref**

Roedd y canllawiau diwygiedig ar gyfer HDC yn 2018 yn anelu i symleiddio'r broses a rhyddhau mwy o garcharorion sy'n gymwys yn unol â'r meini prawf a gyhoeddwyd. O ganlyniad, bu cynnydd sydyn yn nifer y carcharorion tymor byr a ryddhawyd yn gynnar ar HDC. Mae'r canran uwch o'r holl garcharorion cymwys a ryddhawyd wedi aros yn eithaf cyson ers hynny, hyd yn oed yn ystod pedwar chwarter cyntaf y pandemig Covid-19. Mae cyfraddau adalw'r rheini a ryddhawyd ar HDC wedi bod yn cynyddu'n araf ers rhai blynyddoedd.

Er enghraifft, cynyddodd cyfraddau rhyddhau ar HDC dros 61 y cant rhwng Ionawr a Mawrth 2017 (2,312 achos, 15 y cant o'r boblogaeth gymwys) ac Ionawr a Mawrth 2018 (3,769 achos, 27 y cant o'r boblogaeth gymwys). Er bod nifer y carcharorion cymwys wedi gostwng ers hynny, mae cyfradd rhyddhau ar HDC wedi aros yn eithaf tebyg. Mae'r ffigurau diweddaraf, o Ionawr hyd Fawrth 2021, yn dangos 2,403 achos wedi'u rhyddhau ar HDC, 26 y cant o'r boblogaeth gymwys (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2021b).

O Orffennaf hyd Fedi 2020, y cyfnod diweddaraf y cyhoeddwyd data ar ei gyfer, roedd cyfradd adalw o HDC (am bob rheswm) yn 11 y cant o gyfanswm yr achosion a ryddhawyd ar HDC (283 achos). Mae hyn yn gynnydd sylweddol oddi ar yr un chwarter yn 2017, pan oedd y ffigur yn bedwar y cant (89 achos).




Mewn achosion HDC, EMS sy'n gyfrifol am orfodi'r elfen monitro electronig ar y drwydded, sef torri amodau'r cyrffyw ac ymyrryd â chyfarpar monitro. Mae hyn yn cynnwys hysbysu'r PPCS am dor amodau, er mwyn iddynt allu cymryd camau i adalw pan fo angen. Yr ymarferwr prawf dynodedig sy'n rheoli holl amodau eraill rhyddhau ar HDC. Gwelwyd tystiolaeth o gamau gorfodi, pan oedd eu hangen, mewn 75 y cant o achosion HDC. Dywedodd EMS wrthym, pe baent yn rhoi rhybudd cychwynnol am dorri amodau cyrffyw, na fyddent yn rhannu hyn fel mater o drefn â'r ymarferwr prawf a enwyd yn yr achos hwnnw. Mae'n ymddangos bod hyn yn esgeulustod yn y contract o ran rheoli'r risg cyffredinol y mae'r unigolyn ar brawf yn ei beri. Mae'n bosibl y byddai gan yr ymarferwr prawf bryderon ychwanegol am yr achos ac, ynghyd â'r rhybudd a roddwyd gan EMS, gallai hyn olygu bod angen rhoi gweithdrefnau rheoli risg ychwanegol ar waith, gan gynnwys adalw. Wedi dweud hynny, fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o'r achosion lle'r oedd adalw wedi digwydd yn ystod y cyfnod HDC, dywedodd ymarferwyr prawf fod EMS wedi cyfathrebu â hwy am hyn ar unwaith.

### Data aildroseddu

Nid oes data cenedlaethol ar gael am gyfraddau aildroseddu'r rheini sy'n cael eu monitro'n electronig. Yn ein sampl, roedd nifer y bobl a arestiwyd mewn cysylltiad â throseddau newydd yn uwch yn y cyfnod ar ôl cwblhau monitro electronig. Gwelsom fod 15 o 172 o bobl wedi'u harestio am droseddau a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod monitro electronig, o gymharu â 24 o 156 a

arestiwyd ar ôl diwedd y monitro electronig. Yn yr un modd, roedd y siawns o gael eu cyhuddo o droseddau newydd hefyd yn cynyddu; cafodd 12 o 172 o bobl eu cyhuddo o droseddau newydd yn ystod y cyfnod monitro electronig o gymharu â 21 o 153 ar ôl ei gwblhau. Fodd bynnag, nid yw'r data hyn wedi'u croesgyfeirio â data swyddogol am arestio ac euogfarnu a dylid eu trin fel dangosydd yn unig.

## 4.6 Beth a ddywedodd pobl ar brawf wrthym

Comisiynwyd gwasanaethau Penal Reform Solutions i'n cynorthwyo i gael safbwyntiau pobl sy'n cael eu monitro'n electronig fel rhan o'u goruchwyliaeth ar brawf. Roedd y tîm o ymchwilwyr a ymunodd â ni i gyd wedi cael profiad o'r system cyfiawnder troseddol yn eu bywydau, a rhai wedi cael eu monitro'n electronig. Cyn, ac yn ystod, gwaith maes, gofynnwyd i bob ardal brawf gael caniatâd gan y bobl yr oeddem yn arolygu eu hachosion. Rydym yn ddiolchgar am gyfraniad y 42 o unigolion; rydym wedi defnyddio eu hadborth o sgyrsiau strwythuredig ag ymchwilwyr fel sail i'n canfyddiadau. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran ar gyrffyw a osodwyd gan y llysoedd, ac roedd tri ar AAMR. Hefyd, roedd nifer bach o gyfranogwyr ar HDC a dau wedi cael amod o fonitro lleoliad â GPS fel rhan o'u rhyddhau ar drwydded.

Cafwyd enghreifftiau cadarnhaol o gynnwys pobl ar brawf yn yr asesiad cyn dedfrydu, a swyddogion y llys yn bod yn gefnogol drwy'r broses hon. Nid oedd eraill yn teimlo bod neb wedi gwrando arnynt, ac yna roedd y llysoedd wedi penderfynu y dylid eu monitro'n electronig ac roedd hynny wedi cael effaith anffafriol ar eu cyflogaeth a'u hiechyd. Roedd llawer yn gweld monitro electronig fel dewis arall cadarnhaol yn hytrach na charchar, ond yn mynegi cywilydd o orfod gwisgo dyfais a oedd yn ei gwneud yn amlwg eu bod yn cael eu goruchwylio. Roedd hyn yn bryder arbennig i fenywod gan eu bod yn ei chael yn anoddach cuddio'r ddyfais o dan eu dillad arferol.

Roedd rhai o'r bobl a ryddhawyd o'r carchar ar HDC yn dweud bod hyn wedi bod yn gymhelliant cadarnhaol i gadw allan o drwbl pan oeddent yn y carchar. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr yn dweud bod yr ansicrwydd ynghylch a fyddent yn cael eu rhyddhau'n gynnar dan y cynllun hwn yn peri straen iddynt. Dywedodd un a oedd wedi treulio cryn amser yn y carchar ac a ryddhawyd drwy ddisgresiwn y Bwrdd Parôl ei fod yn gweld syniad monitro electronig yn frawychus.

Roedd diffyg cyfathrebu'n un o'r themâu allweddol a ddatgelwyd. Roedd hyn yn cynnwys diffyg eglurder ynghylch beth yr oedd y gofyniad monitro electronig yn ei olygu a beth yr oedd disgwyl i'r gwisgwr ei wneud, yn enwedig ar ddechrau'r monitro, er bod gan EMS brosesau i rannu'r wybodaeth hon ar adeg gosod y tag. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a welsom yn y diffyg sgyrsiau rhagweithiol gan ymarferwyr prawf ynglŷn â monitro electronig a'r hyn y byddai'n ei olygu i'r unigolyn ar brawf drwy gydol y cyfnod goruchwylio.

Yn gadarnhaol, dywedodd rhai cyfranogwyr fod cael eu monitro'n electronig wedi cryfhau eu perthnasoedd â'u teuluoedd ac wedi cynnig cyfnod sefydlog. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ar adeg pan oedd cyfyngiadau Covid-19 mewn grym yng Nghymru a Lloegr, a dywedodd llawer o gyfranogwyr wrthym nad oedd cael eu monitro'n electronig yn ystod y cyfnod hwn wedi cael llawer o effaith ar eu trefn ddyddiol gyffredinol.

## 4.7 Casgliadau a goblygiadau

Nid oes gan ymarferwyr prawf ddealltwriaeth lawn o botensial llawn monitro electronig fel offeryn i gynorthwyo i reoli achosion a chyfeirio rhywun at newid, ac nid yw llunwyr polisïau'n gwbl ymwybodol o'i botensial i ddiogelu'r cyhoedd.

Nid yw ymarferwyr prawf yn cynnwys gofynion monitro electronig fel mater o drefn yn eu harferion rheoli risg na chynllunio dedfrydu. Ni welwyd monitro electronig fel rhan annatod o oruchwylio achosion pobl ar brawf, ac nid oedd graddau llawn y cyfleoedd ychwanegol i fonitro, rheoli ac adsefydlu a ddarperir ganddo'n cael eu cydnabod na'u mynegi'n rheolaidd fel rhan o'r broses oruchwylio.

Dywedodd pobl ar brawf wrthym eu bod wedi cael profiad cymysg o gael eu monitro'n electronig. Dywedodd llawer ei fod wedi helpu i greu trefn ddyddiol a sefydlu cyfnod sefydlog, gan wella eu perthnasoedd. Dywedodd eraill wrthym ei fod wedi cael effeithiau niweidiol ar eu cyflogaeth a'u hiechyd. Roedd y canfyddiad cliriaf yn ymwneud â diffyg cyfathrebu. Yn aml, nid oedd y bobl a oedd yn cael eu monitro'n electronig yn gwybod llawer am y broses ac nid oedd ymarferwyr prawf yn cynnig llawer o wybodaeth i dawelu eu hofnau na gwella eu dealltwriaeth ynghylch beth i'w ddisgwyl.

Mewn llawer o achosion, roedd diffyg gwybodaeth gyfredol a data lleoliad cywir ar gael i ymarferwyr prawf i allu defnyddio monitro electronig mewn modd ystyrlon. Mae amseroedd ymateb EMS i rannu data am dorri amodau'n arafach mewn achosion ar drwydded nag mewn achosion cymunedol. Nid yw ymatebion i geisiadau am ddata monitro lleoliad yn ddigon cyflym ychwaith. Ac eithrio achosion yr Adran Diogelwch Gwladol, nid yw EMS wedi'u contractio i gynnig gwahanol amseroedd ymateb yn ôl math o achos. Lle mae'r achosion ar drwydded wedi'u rhyddhau ar barôl â risg uchel, mae hyn yn annerbyniol. Mewn achosion eraill, mae sgyrsiau â phobl ar brawf yn aml yn seiliedig ar hen ddata lleoliad, sy'n lleihau effaith offeryn o'r fath ar gyfer monitro.

Nid yw gwisgo tag yn atal unigolyn ar brawf rhag achosi niwed drwy droseddu ymhellach.
Nid yw defnyddio monitro electronig i gynorthwyo â chynlluniau rheoli risg yn ddim mwy effeithiol na'r modd y mae ymarferwyr prawf yn ei ddefnyddio ac yn ei orfodi.

# 5. Ymyriadau newydd a chynlluniau peilot monitro electronig

## 5.1 Gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol (AAMR)

Nododd arolwg troseddu Cymru a Lloegr yn 2018 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2019) fod y dioddefwr yn credu bod y troseddwr dan ddylanwad alcohol ar adeg y trosedd mewn 39 y cant o ddigwyddiadau treisgar. Yn rhannol fel ymateb i hyn, rydym wedi parhau i ddatblygu defnyddio technoleg i gynorthwyo i reoli achosion yn y gymuned. Yn 2020, darparwyd gofyniad newydd i roi sylw penodol i yfed alcohol pan oedd yn un o nodweddion ymddygiad troseddol, ar ôl cynlluniau peilot mewn dau ranbarth.

Cyflwynwyd y gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol (AAMR) fel opsiwn dedfrydu yng Nghymru ym mis Hydref 2020 a ledled Lloegr o 31 Mawrth 2021 ymlaen. Mae hwn yn ofyniad y dylid ei ddefnyddio yn benodol mewn achosion lle'r oedd yfed alcohol yn ffactor a gyfrannodd at y trosedd dan sylw, neu drosedd cysylltiedig. Mae'r gofyniad yn rhoi gwaharddiad llwyr ar alcohol drwy gydol y cyfnod. Mae'r canllawiau'n glir na ddylid argymell hyn heb ofynion adsefydlu ychwanegol os oes unrhyw arwyddion o gam-drin domestig. Mae hefyd wedi'i eithrio fel dedfryd addas ar sail iechyd megis bod yn ddibynnol ar alcohol, lle byddai ymwrthod yn sydyn heb oruchwyliaeth feddygol yn peri risgiau iechyd.

Ar gyfer yr arolygiad hwn, edrychwyd ar sampl o 10 achos, i gyd yng Nghymru. Cwblhawyd adroddiadau cyn dedfrydu i roi sail i'r ddedfryd ym mhob achos, ond gwelwyd bod y rhain yn wael ar y cyfan. Dim ond mewn tri achos y cwblhawyd archwiliadau cam-drin domestig cyn gosod AAMR yn y llys. Er y cynhaliwyd archwiliadau cam-drin domestig ar ôl dedfrydu mewn dau achos arall, ni fu dim archwiliadau gan yr heddlu yn hanner yr achosion. Gwelsom fylchau o ran asesu ymddygiad cysylltiedig â throseddu, nodweddion amrywiaeth ac amgylchiadau personol. Roedd hyn yn cynnwys un achos lle na fu asesiad digonol o bryderon iechyd difrifol ynglŷn â'r unigolyn ar brawf, yn ogystal ag un arall a ddywedodd ei fod yn ddibynnol ar alcohol ar ôl cael ei ddedfrydu.

Nid oedd llawer o'r dedfrydwyr y siaradwyd â hwy ar gyfer yr arolygiad hwn, gan gynnwys y rhai yng Nghymru, wedi cael profiad o wneud penderfyniad o'r fath. Fodd bynnag, dywedodd y Tîm Monitro Electronig fod y nifer sy'n defnyddio'r gofyniad yn uwch na'r galw a ragwelwyd yn wreiddiol, a bod 726 gofyniad wedi'u gosod yn y 12 mis cyntaf ers ei gyflwyno, o gymharu â'r rhagfynegiad o 540 gofyniad, sy'n awgrymu ei fod yn ddewis poblogaidd o ran dedfrydu.[17]

Ystyriwyd mai dim ond ym mhedwar o'r achosion a arolygwyd yr oedd yr asesu'n rhoi digon o ffocws ar drafod yr elfen monitro alcohol ar y ddedfryd â'r unigolyn ar brawf. Nid oedd cymhelliant a pharodrwydd unigolyn i ymgysylltu a chydymffurfio â monitro electronig yn cael ei ddadansoddi'n rheolaidd. Lle nodwyd amgylchiadau personol a fyddai wedi effeithio ar allu'r unigolyn i gydymffurfio â monitro electronig, dim ond mewn pedwar o'r naw achos perthnasol yr ystyriwyd y rhain, a dim ond yn hanner yr achosion yr ystyriwyd anghenion amrywiaeth a ganfuwyd. Roedd rhai y siaradwyd â hwy'n dweud bod cael y tag AAMR wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl gan eu bod yn cael eu deffro'n gyson drwy'r nos wrth i'r darlleniadau gael eu cymryd bob 30 munud, gan fod y cyfarpar yn dirgrynu'n ormodol ar eu ffêr. Roedd hyn yn cael effaith anffafriol ar eu lles cyffredinol.

Dim ond mewn dau o'r 10 achos y cofnodwyd y rhan y byddai AAMR yn ei chwarae i gefnogi ymataliad, ond dangoswyd sut gellid defnyddio'r gofyniad i gynnal newid i rai, fel y nodir yn yr enghraifft hon.

**Enghraifft o arfer da**

Mae Janice yn fenyw 58 oed a gafodd ddedfryd o orchymyn cymunedol 12 mis â 20 diwrnod o ofyniad gweithgaredd adsefydlu a gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol 60 diwrnod ar ôl iddi bledio'n euog i ymddygiad bygythiol. Roedd alcohol yn un o nodweddion ei throsedd lle'r oedd yn

[17] Tîm Monitro Electronig. (2021). Dangosfwrdd AAMR, heb ei gyhoeddi, 17 Medi 2021.

fygythiol tuag at gymydog mewn anghydfod am arian. Roedd Janice wedi mynd i yfed mwy o alcohol yn ystod cyfnod y cyfyngiadau Covid-19. Cyn y ddedfryd, cafodd drawiad ar y galon ac aeth i'r ysbyty i ddadwenwyno am 10 diwrnod gan lwyddo i ymwrthod. Roedd yr adroddiad a baratowyd i'r llys yn nodi'n glir y rhan yr oedd alcohol wedi'i chwarae yn ei throsedd, a bu Janice yn cymryd rhan weithredol yng nghyfnodau cychwynnol cynllunio'r ddedfryd. Er mai dim ond unwaith y mis y cafodd ei gweld, bu trafodaethau ynghylch ei chynnydd yn parhau i ymwrthod a chwblhawyd yr AAMR yn llwyddiannus.

Aseswyd bod cryfderau a ffactorau diogelu i gynorthwyo ag ymataliad yn bresennol yn wyth o'r 10 achos. Roedd y ffactorau hyn yn cynnwys teulu a pherthynas, cymhelliant i newid, cyflogaeth, hunaniaeth fel rhywun nad yw'n droseddwr a llety sefydlog. Fodd bynnag, nid oedd digon yn cael ei wneud i nodi sut gallai monitro electronig wella ffactorau diogelu; dim ond mewn tri achos y digwyddodd hyn. Dim ond mewn dau o'r 10 achos y dadansoddwyd defnyddio monitro electronig a sut byddai hyn yn cynorthwyo'r unigolyn ar brawf i unioni ffactorau cysylltiedig â throseddu, sy'n dangos eto nad oedd ymarferwyr yn canfod sut gellid ei ddefnyddio fel offeryn cadarnhaol i gefnogi newid ac unioni troseddu. Mae hyn yn siomedig o ystyried profiadau cadarnhaol rhai pobl ar brawf y siaradwyd â hwy:

> *"Hwn yw'r peth gorau sydd erioed wedi digwydd i mi, oherwydd nawr rwyf wedi rhoi'r gorau i yfed. Nid yw'r carchar yn adsefydlu pobl, mae'n fywyd hawdd o gymharu â bywyd ar y strydoedd ac mae'r tag hwn wedi datrys fy mhroblem."*

Cwblhawyd cynlluniau rheoli risg mewn chwech o'r 10 achos gan fod asesiad wedi dangos bod yr unigolyn ar brawf yn peri risg canolig o niwed difrifol. Roedd digon o ystyriaeth yn ystod y cam asesu cychwynnol ynghylch sut byddai monitro electronig yn cefnogi cynlluniau rheoli risg ac yn cadw pobl eraill yn ddiogel yn y rhan fwyaf o'r achosion a arolygwyd. Canfuwyd pryderon presennol am ddiogelu plant mewn dau o'r achosion, ond dim ond mewn un y gwelwyd tystiolaeth o rannu gwybodaeth â gwasanaethau plant.

Roedd y rhan fwyaf o gynlluniau rheoli risg yn dadansoddi'n ddigonol sut i ddefnyddio AAMR fel offeryn i helpu rhywun i yfed llai o alcohol ac unioni troseddu, yn ogystal â'i nodi'n gywir fel mesur monitro a rheoli. O fewn y cynlluniau i gadw pobl eraill yn ddiogel, soniwyd am rôl AAMR a'i gyfraniad at reoli risg i bobl eraill mewn mwyafrif rhesymol o'r achosion perthnasol, sy'n dangos gwell dealltwriaeth o gysylltu'r math hwn o ymyriad â rheoli risg o niwed.

Cofnodwyd tystiolaeth a chadarnhad o osod tagiau yn amserol i fonitro yfed alcohol mewn saith o'r achosion a arolygwyd, ond roedd hyn yn aneglur yn y tri arall. Darparwyd gwybodaeth am y data monitro alcohol gan weinyddwyr lleol â mynediad at y platfform monitro alcohol, a oedd yna'n anfon y data ymlaen at ymarferwyr prawf i gymryd camau pellach. Dywedodd rhai ymarferwyr prawf eu bod yn ei chael yn anodd dehongli'r wybodaeth hon ac nad oeddent wedi gweld y deunydd hyfforddi rhagarweiniol yn ddefnyddiol.

Yn gadarnhaol, roedd y ffocws ar gynnal perthynas waith effeithiol â phobl ar brawf wedi hybu cydymffurfiad â'r elfen AAMR ar eu dedfryd mewn mwyafrif o'r achosion. Yn yr un modd, gwelwyd tystiolaeth o ymdrechion digonol i alluogi'r unigolyn ar brawf i gwblhau ei ddedfryd yn y mwyafrif mawr o'r achosion.

Gwelwyd tystiolaeth o welliannau yn y ffactorau sydd â'r cysylltiad agosaf â throseddu yn naw o'r 10 achos, ond dim ond mewn un achos y cofnodwyd adolygiad ffurfiol o gynnydd a chwblhau'r gofyniad AAMR yn llwyddiannus. Mae hyn yn siomedig ac yn dangos efallai nad yw ymarferwyr prawf yn llwyr werthfawrogi'r cynnydd a wneir gan unigolion y maent yn eu rheoli i gwblhau'r ymyriad hwn. Nodwyd hefyd nad oedd cyfeirio rheolaidd at wasanaethau i gefnogi unigolion a oedd yn dal i fod â phroblemau o ran defnyddio alcohol ar ddiwedd yr AAMR. Nid oedd camau gorfodi'n ofynnol ar gyfer unrhyw achosion a arolygwyd, ac ni fu dim arestiadau nac euogfarnau pellach.

Roedd canfyddiadau cychwynnol cynlluniau peilot AAMR yn gadarnhaol am sut cânt eu defnyddio ac am eu heffeithiolrwydd fel penderfyniad i ymdrin ag yfed alcohol a throseddu cysylltiedig. Roedd yr

achosion a arolygwyd yn cefnogi rôl AAMR o gynnig penderfyniad addas i helpu unigolion i reoli'r ffordd y maent yn yfed alcohol a'u hymddygiad troseddol o ganlyniad i hynny. Y safbwynt polisi ynghylch gosod AAMR yw bod hwn yn gyfnod o orfodi ymwrthodiad. Gwelsom, mewn achosion a arolygwyd ac yn safbwyntiau ymarferwyr, ei fod yn ymarferol yn cael ei ddefnyddio at ddibenion adsefydlu ehangach; gellir ei ddefnyddio fel offeryn i gefnogi newid mwy hirdymor sy'n ymateb i yfed alcohol mewn modd mwy cyffredinol a mwy ystyrlon. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn yr achos canlynol.

| **Enghraifft o arfer da** |
| --- |
| Cafodd Gareth ddedfryd o orchymyn dedfryd ohiriedig 18 mis â 20 diwrnod o ofyniad gweithgaredd adsefydlu, a gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol am 120 diwrnod. Roedd wedi cael ei ddyfarnu'n euog o ymosodiad gwaethygedig ar sail hil a difrod troseddol, ac roedd alcohol yn ffactor gwaethygol. Mae gan Gareth lawer o euogfarnau blaenorol, gan gynnwys trais, trais cysylltiedig â cham-drin domestig, troseddu caffaelgar, a phatrwm o droseddau gwaethygedig ar sail hil.<br>Cydnabuwyd manteision yr AAMR o ran lleihau'r risg o aildroseddu ar bob cam yn y llys a'r broses oruchwylio. Roedd hyn yn cynnwys yr ymarferwr prawf yn cael sgyrsiau â Gareth i archwilio effaith ei ymddygiad yfed, a thystiolaeth gyson o atgyfnerthu cadarnhaol ac anogaeth i barhau i gydymffurfio â'r AAMR.<br>Riportiwyd bod Gareth wedi torri amodau'r AAMR drwy yfed alcohol a chafodd ei ymarferwr prawf ei hysbysu am hyn mewn modd amserol. Ar bob achlysur, trafodwyd y rhain gyda Gareth gan archwilio ac wynebu'r digwyddiadau. Ni chymerwyd camau gorfodi, ac yn lle hynny defnyddiodd yr ymarferwr prawf hyn fel cyfle i gael sgyrsiau agored a gonest gyda Gareth i'w gefnogi tuag at newid.<br>Llwyddodd Gareth i gwblhau'r 120 diwrnod o AAMR. Dywedodd yn ystod ei oruchwyliaeth fod y darlleniadau alcohol positif wedi gwneud iddo fyfyrio ynghylch sut yr oedd yn defnyddio alcohol a'i ymddygiad pan fyddai dan ddylanwad. Mae'n yfed llawer llai o alcohol erbyn hyn, gan barhau i wneud hynny ar ôl cwblhau'r gofyniad AAMR. Nid oes dim tystiolaeth o droseddu pellach, ac nid yw wedi dod i sylw'r heddlu dros y saith mis ers ei ddedfryd, sy'n gyrhaeddiad enfawr iddo. |

Mae gosod AAMR yn seiliedig ar faint o alcohol mae'r unigolyn ei hun yn dweud ei fod yn ei yfed yn ystod y cam cyn dedfrydu, a gwelsom un enghraifft o osod AAMR ar yfwr dibynnol ar alcohol, sy'n amhriodol. Y risg yw y bydd unigolion yn dweud eu bod yn yfed llai nag y maent cyn eu dedfrydu, a gall perthynas ag yfed alcohol fod yn broblem os nad yw'r yfwr yn cydnabod hynny. Pan siaradwyd ag ymarferwyr yn genedlaethol, dywedasant fod achosion wedi'u dyrannu iddynt lle nad oedd AAMR yn briodol oherwydd lefelau yfed uwch na'r rhai a nodwyd gan yr unigolion ar adeg mynd i'r llys. O ystyried goblygiadau iechyd difrifol rhoi'r gorau i alcohol yn gyflym, mae angen ystyried yr hunangofnodi hwn yn ofalus cyn gosod AAMR, a chynnal asesiad digonol ar y cam cyn dedfrydu. Byddai'n werth rhoi mwy o ystyriaeth strategol i sut i gydbwyso gosod y gofyniad hwn, â'r achosion iawn, at y diben iawn ac ar yr adeg iawn.

## 5.2 Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer, Llundain – cynlluniau peilot GPS

Yn 2016, cytunodd y MoJ â menter ar y cyd â Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer (MOPAC) yn Llundain i brofi defnyddio tagio GPS gorfodol gyda throseddwyr cyson dan oruchwyliaeth drwy'r rhaglen troseddwyr mynych. Cynhaliwyd y cynllun peilot yn ystod 2017-2019 ac roedd yn cynnwys monitro parthau eithrio a monitro trywydd pobl ar brawf, a oedd wedi cael dedfrydau cymunedol, y nodwyd eu bod yn droseddwyr mynych. Er bod y niferoedd a fu'n cymryd rhan yn y cynllun peilot cychwynnol yn gymharol fach, roedd y canfyddiadau cyffredinol yn rhoi sail i fod yn obeithiol, o wybod:

- bod y dechnoleg wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus (gan gynnwys mapio troseddu);

- y cyfraddau cydymffurfio cyffredinol (cydymffurfio gwell ymysg y garfan troseddu â chyllell nag ar y rhaglen troseddwyr mynych);
- safbwyntiau cadarnhaol ymarferwyr ac unigolion dan oruchwyliaeth am eu profiad â'r tag GPS (Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer, 2020).

Yn 2018, cynyddwyd y garfan beilot gychwynnol i gynnwys pobl ar brawf a oedd wedi cyflawni troseddau â chyllell. Mae'r cynllun peilot troseddu â chyllell hwn yn parhau, gan dargedu pobl sy'n destun amodau trwydded am droseddau lle'r oedd defnyddio cyllell neu eitem â llafn miniog yn rhan o'r trosedd dan sylw. Erbyn Awst 2021, roedd 556 o bobl ar brawf wedi cael amodau trwydded GPS fel rhan o gynllun peilot troseddu â chyllell MOPAC.[18]

Roedd adborth gan ymarferwyr prawf am y cynllun peilot troseddu â chyllell yn cynnwys ceisiadau i estyn y cynllun i'w ddefnyddio â throseddwyr cam-drin domestig. Cytunodd MoJ â hyn, a chychwynnwyd cynllun peilot 12 mis ar gyfer tagio GPS ym Mawrth 2021. Gellir defnyddio hyn â phobl ar brawf yr aseswyd eu bod yn peri risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol ac sy'n bwrw dedfryd o garchar am drosedd cysylltiedig â cham-drin domestig. Erbyn Awst 2021, roedd 48 o bobl ar brawf wedi cael amodau trwydded GPS fel rhan o gynllun peilot GPS cam-drin domestig MOPAC.[18]

Mae'r ddau gynllun peilot i fod i redeg hyd at ddiwedd Mawrth 2022 gan dargedu dim ond y bobl hynny ar brawf sydd wedi cael dedfrydau penodol safonol; nodwyd yn aml bod hwn yn fwlch yn y gwasanaeth a ddarperir mewn mannau eraill yn y wlad. Er na chynhwyswyd y cynlluniau peilot yng nghwmpas yr arolygiad hwn, buom yn edrych ar nifer bach o achosion a gwelwyd enghreifftiau cadarnhaol o ddefnyddio'r ddarpariaeth hon yn dda.

**Enghraifft o arfer da**

Plediodd Frank yn euog i droseddau gwir niwed corfforol a thorri amodau gorchymyn peidio ag ymyrryd (cysylltiedig â cham-drin domestig). Cafodd ddedfryd o garchar am 28 mis. Fe'i rhyddhawyd ag amodau trwydded estynedig, gan gynnwys byw mewn safle cymeradwy.

I ddechrau, ymatebodd Frank yn gymharol dda i'w drwydded, ond roedd yn dal i ddangos obsesiwn â'i ddioddefwr ac yn ymweld ag aelodau teulu a oedd yn byw'n agos at ei barth eithrio. O ganlyniad i hyn, addaswyd ei amodau trwydded i gynnwys monitro trywydd GPS, a fyddai'n darparu monitro a rheolaeth ychwanegol.

Cysylltodd yr ymarferwr prawf yn effeithiol â'r darparwr GPS i sicrhau nad yw Frank wedi mynd i mewn i'w barth eithrio. Hefyd, gwnaethpwyd gwaith effeithiol gyda'r swyddog cyswllt dioddefwyr i sicrhau bod y dioddefwr wedi cael gwybod am bob newid i'w drwydded a'u gwaith parhaus i'w chadw'n ddiogel. Mae Frank wedi symud i lety â chymorth ac mae wedi cwblhau'r rhaglen Meithrin Cydberthnasau Gwell.

Y dechnoleg a ddefnyddir yn y cynlluniau peilot hyn yw tagiau Buddi a ddarperir gan yr heddlu. Soniodd ymarferwyr am ba mor hawdd yw defnyddio'r system hon, sy'n rhoi mynediad hunanwasanaeth uniongyrchol iddynt at y wybodaeth ddiweddaraf i'w galluogi i wneud penderfyniadau a gorfodi mewn modd ymatebol. Darperir adborth wythnosol am 'fannau poeth' fel rhan o becyn y contract, ac roedd ymarferwyr prawf hefyd yn teimlo bod hyn o fudd i reoli eu hachos yn gyffredinol, gan olygu sgyrsiau amserol i herio ymddygiadau. Mae'r dechnoleg hefyd yn gallu ffurfio 'map troseddu' o ddata, ac os yw symudiadau'r sawl sy'n cael ei fonitro yn cael sgôr graddfa aileuogfarnu grŵp troseddwyr (OGRS)[19] uwch na 50 y cant, caiff ei gyfeirio'n awtomatig yn erbyn lleoliad troseddau difrifol a gofnodwyd. Os cadarnheir bod y data'n cyfateb, rhennir y data hyn â'r heddlu lleol ar gyfer ymchwiliad.

---

[18] MOPAC. (2021). Data mewnol, heb eu cyhoeddi.

[19] Mae OGRS yn rhagfynegi aildroseddu ar sail risgiau statig; oed, rhywedd a hanes troseddol.

Ategir y cynlluniau peilot hyn gan swyddog gwasanaeth prawf sydd wedi'i gynnwys ym MOPAC ac sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt i ymarferwyr prawf a darparwyr technoleg. Cafwyd tystiolaeth bod hyn wedi ategu'r broses o gyflwyno'r cynlluniau peilot. Mae'r swydd yn ychwanegu gwerth gwirioneddol fel un pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau, i fonitro ymgysylltiad ymarferwyr prawf o ran defnyddio'r dechnoleg ac i allu ymateb yn gyflym i unrhyw broblemau cysylltiedig ag ymarfer. Cyhoeddwyd yn ddiweddar y caiff monitro electronig ei ehangu i reoli achosion cam-drin domestig ledled y wlad, a'r gobaith yw y bydd yr hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot hyn wedi'i gynnwys yn hynny (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2021).

## 5.3 Cynllun peilot troseddu caffaelgar y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Yn Ebrill 2021, cychwynnodd HMPPS gynllun peilot cenedlaethol pellach ar dechnoleg GPS i fonitro lleoliad, gan dargedu pobl ar brawf sydd wedi'u dyfarnu'n euog o drosedd caffaelgar ac sy'n bwrw dedfrydau safonol penodol o garchar am 12 mis neu fwy am hynny. Cyflwynwyd hyn yn wreiddiol ar draws chwe ardal heddlu 'fraenaru',[20] ac aeth 13 ardal arall yn fyw ym Medi 2021.[21] Mae hyn yn cynnwys rhoi tagiau GPS gorfodol ar bobl ar brawf ar adeg eu rhyddhau o'r carchar fel rhan o'u hamodau trwydded, am hyd at uchafswm o 12 mis. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r achosion a nodir yn gyson â Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM), ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau yn ymarferol eto. Fel y nodwyd uchod, mae rhai heddluoedd eisoes wedi monitro'r garfan hon o achosion drwy'r system Buddi dan gontract, ond yn wirfoddol.

Fel y cynlluniau MOPAC, darperir porth hunanwasanaeth i ymarferwyr prawf i fonitro cydymffurfiad. Bydd yr heddlu'n gallu gofyn am ddata mapio troseddu i ganfod unrhyw gyd-daro rhwng troseddau sy'n cael eu riportio ac unigolion sy'n cael eu monitro, i gynorthwyo i ymchwilio i droseddau'n gyflym yn eu hardal leol. Roedd dwy o'r ardaloedd wedi mynd yn fyw â'r cynllun peilot hwn ar adeg yr arolygiad, sef Gwent a Glannau Humber, ond nid oedd dim achosion wedi'u cynnwys yn y sampl arolygu. Bydd y project yn asesu effaith tagio GPS ar atal gweithgareddau troseddol ac mae'n rhan o nod y llywodraeth o leihau troseddu mewn cymdogaethau.

## 5.4 Casgliadau a goblygiadau

Nid ydym eto'n deall effaith fwy hirdymor monitro electronig ar ganlyniadau cyffredinol i bobl ar brawf, ond fel y gellir gweld ers cyflwyno AAMR a'r cynlluniau peilot presennol, os yw dedfrydwyr ac ymarferwyr prawf yn defnyddio'r dechnoleg mewn modd rhagweithiol, gall ychwanegu dimensiwn ychwanegol at oruchwyliaeth brawf.

Cyflwynwyd y gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol ar ôl cynlluniau peilot llwyddiannus mewn dwy ardal. Nid oes tystiolaeth eto o'i effaith fel offeryn i atal yfed alcohol a lleihau troseddu cysylltiedig ag alcohol ar raddfa ehangach. Mae rhai ymarferwyr prawf yn dewis ei ddefnyddio fel modd o gynorthwyo pobl ar brawf tuag at berthynas iachach ag alcohol. Nid yw hyn yn adlewyrchu bwriad gwreiddiol y gofyniad fel 'gwaharddiad alcohol' cosbol, ond mae'n ymddangos ei fod yn cyflawni canlyniadau drwy gefnogi pobl tuag at newid ac, o'r hyn a welsom, yn lleihau'r risg o droseddu pellach cysylltiedig ag alcohol, yn sicr yn ystod y cyfnod monitro.

Er ei bod yn ddyddiau cynnar i ddau gynllun peilot MOPAC, maent yn llenwi bwlch yn yr offer sydd ar gael i reoli pobl ar ddedfrydau safonol penodol sy'n peri risg sylweddol o niwed ar ôl cael eu rhyddhau oherwydd eu troseddu. Arweiniwyd y cynlluniau peilot hyn gan yr hyn a ddysgwyd mewn cynlluniau peilot cynharach, fel ymateb uniongyrchol i adborth gan ymarferwyr prawf. Maent yn cynnig ymyriadau y mae ymarferwyr ledled y wlad wedi dweud y byddent yn eu croesawu i'w cefnogi i reoli risg o niwed difrifol, ond nid ydynt ar gael ar hyn o bryd. Lleihau aildroseddu yw ffocws canolog y cynllun peilot presennol ar droseddu caffaelgar. Nid oedd gan ymarferwyr lawer o brofiad o hwn fel ymyriad ar adeg yr arolygiad, ond drwy werthuso'r peilot ar ei hynt gellir cael golwg ar ei

[20] Lansiwyd y rhaglen troseddu caffaelgar yn Avon a Gwlad yr Haf, Swydd Gaer, Swydd Gaerloyw, Gwent, Glannau Humber, a Gorllewin Canolbarth Lloegr ar 12 Ebrill 2021.

[21] Ar 29 Medi 2021, ehangwyd y rhaglen troseddu caffaelgar i gynnwys ardaloedd Swydd Bedford, Cumbria, Swydd Derby, Durham, Essex, Hampshire, Swydd Hertford, Caint, Gogledd Cymru, Swydd Nottingham, Sussex a Dinas Llundain a'r Heddlu Metropolitan.

effeithiolrwydd a'i effaith. Ar lawer o lefelau, mae'r datblygiad hwn yn atseinio cynlluniau peilot monitro electronig blaenorol â phobl sy'n troseddu'n gyson ac yn fynych. Bydd yn bwysig cynnwys yr hyn a ddysgir o'r cynlluniau peilot hyn wrth roi gwasanaethau ar waith, a'u cyflenwi, yn y dyfodol.

# Cyfeiriadau


Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (Hydref 2008). *Busnes Cymhleth: Arolygiad ar y Cyd o Ofynion Cyrffyw Monitro Electronig, gorchmynion a thrwyddedau*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (Mehefin 2012). *Mae'n Gymhleth: Rheoli Cyrffyw Monitro Electronig – Arolygiad Dilynol*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (Mai 2020*). Arolygiad Thematig o Broses Ymchwilio ac Adolygu Troseddau Pellach Difrifol (SFO)*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (Gorffennaf 2020). *Llety a Chefnogaeth i Droseddwyr sy'n Oedolion yn y Gymuned ac wrth eu Rhyddhau o'r Carchar yn Lloegr*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. (Tachwedd 2020). *Adolygiad Thematig o Ddiwylliant ac Arferion Adalw Prawf*. Manceinion: Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. (2018). *Proses Asesu Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref*. Cyfarwyddyd Prawf 01/2018. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. (2019). *Rhannu Gwybodaeth a Rheoli'r Gofyniad Monitro Electronig yn Effeithiol (Dedfrydau Cymunedol)*. Cyfarwyddyd Prawf 01/2019. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (2020). *Fframwaith Polisi Cyrffyw Cyfyngu i'r Cartref (HDC).* Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (2020a). *Ymateb i: Adroddiad Adolygiad Thematig o Ddiwylliant ac Arferion Adalw Prawf Cyhoeddwyd: 10fed Tachwedd 2020*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: Action Plan - Final.pdf (publishing.service.gov.uk).

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (2021). *Fframwaith Polisi Amodau Trwydded.* Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. (2021a). *Y Model Gweithredu Targed i wasanaethau prawf yng Nghymru a Lloegr*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: HMPPS The Target Operating Model for the Future of Probation Services in England Wales - English - 09-02-2021.pdf (publishing.service.gov.uk).

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi. (2021b). *Safonau Cenedlaethol 2021 – cymorth yn y cyfnod pontio i'r model gweithredu newydd*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: National Standards 2021 - Supporting transition to the Unified Model - June 2021 in English .pdf (publishing.service.gov.uk)

Y Swyddfa Gartref. (2021). *Cynllun Curo Troseddu, Hydref 2021.* Llundain: Y Swyddfa Gartref. Ar gael yn: Cynllun curo troseddu - GOV.UK (www.gov.uk).

Tŷ'r Cyffredin: Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (2018). *Tagiau monitro troseddwyr*, Llundain: Tŷ'r Cyffredin.

Hucklesby, A. (2009). *'Deall cydymffurfiad troseddwyr: astudiaeth achos o orchmynion cyrffyw monitro electronig'*, Journal of Law and Society. 36(2), tt. 248-271.

Hucklesby, A. a Holdsworth, E. (2020). *Cipolwg Academaidd ar Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi: Monitro Electronig mewn ymarfer prawf.* Ar gael yn: https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2020/12/Academic-Insights-Hucklesby-and-Holdsworth-FINAL-1.pdf

Kerr, J., Roberts, E., Davies, M. a Pullerits, M. (2019). *Gwerthuso proses cynllun peilot monitro electronig y System Leoli Fyd-eang (GPS): canfyddiadau ansoddol*, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 15 Cyfres Ddadansoddol 2019. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer (2020). *Tagio GPS – Cynllun Peilot Dedfrydau Cymunedol: Adroddiad Gwerthuso Terfynol*. Llundain: MOPAC. Ar gael yn: gps_tagging_on_supervision_final_evaluation_report_january_2020.pdf (london.gov.uk).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020)*. Dull Dedfrydu Doethach.* Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021)*.* Datganiad i'r Wasg – *Tagio degau o filoedd yn fwy o droseddwyr i dorri troseddu a diogelu dioddefwyr.* Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: Tagio degau o filoedd yn fwy o droseddwyr i dorri troseddu a diogelu dioddefwyr - GOV.UK (www.gov.uk).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021a). *Cynllun Cyflawni Canlyniadau: 2021-22*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael yn: Cynllun Cyflawni Canlyniadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder: 2021-22 - GOV.UK (www.gov.uk).

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021b). *Ystadegau Rheoli Troseddwyr Ionawr hyd Mawrth 2017 hyd Ionawr hyd Mawrth 2021*. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/collections/offender-management-statistics-quarterly

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref (2020) *Strategaeth Rheoli Troseddwyr Integredig*. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder/Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (MoJ/HMPPS) (2019). 'Egwyddorion Monitro Electronig', *Magistrate,* Awst/Medi 2019 tt. 36-37.

Murray, K. (2012). 'Gwobrau Gwasanaeth Cyhoeddus 2012 – Tagiau'n helpu i gadw golwg ar droseddu'. *The Guardian.* Nos Wener, 20 Tachwedd 2012. Ar gael yn: Tagiau'n helpu i gadw golwg ar droseddu | Gwobrau Gwasanaethau Cyhoeddus 2012 | The Guardian

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2017). *Rhaglen monitro electronig y genhedlaeth newydd.* Llundain: Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (2015). *Fframwaith Ymarfer: Safonau Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Troseddwyr Cymru a Lloegr.* Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Nellis, M. (2014). 'Uwchraddio monitro electronig, israddio prawf: Ad-drefnu "rheoli troseddwyr"'. *Cyfnodolyn Prawf Ewrop*. Cyfrol 6 rhifyn: 2, tt. 169-191.

Arolwg troseddu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2019). *Natur troseddu treisgar yng Nghymru a Lloegr: blwyddyn yn diweddu Mawrth 2018*. Ar gael yn: Natur troseddu treisgar yng Nghymru a Lloegr - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk).

# Atodiad 1: Mathau o ofyniad

Mae'r tabl hwn yn dangos y tri math o dag monitro electronig sydd ar gael: tagiau amledd radio, tagiau GPS a thagiau monitro ymwrthod ag alcohol. Mae'n rhestru'r ddedfryd a'r math o ofyniad lle gellir defnyddio monitro electronig, ynghyd â manylion am ba dechnoleg y gellir ei defnyddio. Nid yw hyn yn cynnwys y cynlluniau peilot sydd ar gael ar hyn o bryd, sy'n amrywio o ranbarth i ranbarth. Fel rheol, bydd tagiau'n cael eu gosod ar ffêr y gwisgwr a byddant yn trosglwyddo data drwy gyfrwng GPS neu orsaf ganolog yng nghyfeiriad cartref y gwisgwr.

| | Amledd radio | System leoli fyd-eang - GPS | Tag monitro ymwrthod ag alcohol |
|---|---|---|---|
| **Gorchmynion cymunedol – beth bynnag yw'r trosedd neu'r math o ddedfryd** | | | |
| Cyrffyw | Ie | Ie - dim ond os yw wedi'i gyfuno â gofyniad monitro lleoliad | Na |
| Parthau eithrio | Na | Ie - mae angen gofyniad penodol am barth eithrio er mwyn derbyn data am dorri amodau | Na |
| Monitro presenoldeb mewn apwyntiadau gorfodol | Na | Ie - gan ddefnyddio monitro lleoliad | Na |
| Monitro ble mae troseddwr - monitro lleoliad | Na | Ie - gan ddefnyddio monitro lleoliad | Na |
| Gofyniad monitro alcohol | Na | Na | Ie |
| **HDC – beth bynnag yw'r trosedd neu'r math o ddedfryd** | | | |
| Cyrffyw | Ie | Ie - dim ond os yw wedi'i gyfuno â gofyniad monitro lleoliad | Na |
| Parthau eithrio | Na | Ie - mae angen gofyniad penodol am barth eithrio er mwyn derbyn data am dorri amodau | Na |
| Monitro presenoldeb mewn apwyntiadau gorfodol | Na | Ie - gan ddefnyddio monitro lleoliad | Na |
| Monitro ble mae troseddwr - monitro lleoliad | Na | Ie - gan ddefnyddio monitro lleoliad | Na |
| Gofyniad monitro alcohol | Na | Na | Na |
| **Achosion sydd wedi'u rhyddhau gan y Bwrdd Parôl o ddedfryd oes, IPP ac EDS yn unig** | | | |
| Cyrffyw | Ie | Ie - dim ond os yw wedi'i gyfuno â gofyniad monitro lleoliad | Na |
| Parthau eithrio | Na | Ie - mae angen gofyniad penodol am barth eithrio er mwyn derbyn data am dorri amodau | Na |
| Monitro presenoldeb mewn apwyntiadau gorfodol | Na | Ie - gan ddefnyddio monitro lleoliad | Na |
| Monitro ble mae troseddwr - monitro lleoliad | Na | Ie - gan ddefnyddio monitro lleoliad | Na |
| Gofyniad monitro alcohol | Na | Na | Na |

# Atodiad 2: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol (AAMR)** | Cyflwynwyd hwn yn wreiddiol yng Nghymru yn Hydref 2020 ac fe'i cyflwynwyd ledled Lloegr ar 31 Mawrth 2021. Defnyddir tagiau monitro alcohol i fonitro gofyniad o waharddiad llwyr ar alcohol am hyd at 120 diwrnod |
| **Tag monitro alcohol** | Mae'r tagiau hyn yn casglu'r chwys rhwng croen y troseddwr a'r tag ac yn ei samplu a'i brofi am alcohol yn barhaus |
| **Gofyniad triniaeth alcohol (ATR)** | Gofyniad y gall llys ei atodi at orchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig â'r nod o ymdrin â chamddefnyddio alcohol |
| **Meithrin Cydberthnasau Gwell (BBR)** | Mae BBR yn rhaglen gwaith grŵp ag achrediad cenedlaethol sydd wedi'i llunio i leihau aildroseddu gan ddynion sydd wedi cyflawni trais yn erbyn partner agos |
| **Amddiffyn plant** | Gwaith i wneud yn siŵr y cymerwyd pob cam rhesymol i leihau gymaint â phosibl y risg o niweidio plentyn |
| **Llinellau cyffuriau** | Math o weithgaredd anghyfreithlon lle bydd delwyr cyffuriau mewn dinasoedd mawr yn sefydlu rhwydweithiau, yn aml gan gynnwys pobl iau neu bobl agored i niwed, i gludo, storio neu werthu'r cyffuriau mewn trefi ac ardaloedd gwledig |
| **CRC** | Cwmni Adsefydlu Cymunedol |
| **Monitro electronig** | Defnyddio dyfais electronig (tag) sydd wedi'i chysylltu ag unigolyn, fel rheol ar y ffêr, er mwyn gallu monitro ei leoliad neu faint o alcohol mae'n ei yfed, gan ddibynnu ar y math o dag |
| **Troseddwr sy'n ddinesydd tramor** | Dinesydd tramor sydd wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd yn y Deyrnas Unedig |
| **Tag system leoli fyd-eang (GPS)** | Monitro cydymffurfiad unigolyn ar brawf ag amod i beidio â mynd i leoliad neu gyfeiriad penodol, neu aros mewn lleoliad neu gyfeiriad penodol, a nodwyd ar fap, neu fonitro trywydd troseddwr |
| **HMPPS** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS): yr un asiantaeth sy'n gyfrifol am garchardai a'r gwasanaethau prawf |
| **Rheoli Troseddwyr Integredig (IOM)** | Mae Rheoli Troseddwyr Integredig yn rhoi ymateb traws-asiantaeth i'r bygythiadau troseddu ac aildroseddu sy'n wynebu cymunedau lleol. Mae asiantaethau partner yn adnabod y troseddwyr mwyaf mynych a phroblemus ac yn cydweithio i'w rheoli ar y cyd |
| **MAPPA** | Trefniadau Amlasiantaeth i Ddiogelu'r Cyhoedd: y gwasanaeth prawf, yr heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn cydweithio'n lleol i reoli troseddwyr sy'n peri risg uwch o niwed i eraill. Lefel 1 yw rheoli asiantaeth gyffredin lle gall yr asiantaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio'r troseddwr neu reoli ei achos reoli'r risgiau y mae'r troseddwr yn eu peri. Mae hyn yn cymharu â lefelau 2 a 3, lle mae angen gwaith amlasiantaeth gweithredol i'w rheoli |
| **MoJ** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |

| | |
|---|---|
| **MOSOVO** | Uned yr heddlu ar gyfer rheoli troseddwyr rhywiol neu dreisgar |
| **nDelius** | Delius Cenedlaethol: y system gymeradwy ar gyfer rheoli achosion a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr |
| **NPS** | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol: un gwasanaeth cenedlaethol a sefydlwyd ym Mehefin 2014. Eu rôl oedd darparu gwasanaethau i'r llysoedd a rheoli grwpiau penodol o droseddwyr, gan gynnwys rhai sy'n peri risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a'r rhai sy'n destun trefniadau MAPPA. Ers Mehefin 2021, mae'r NPS wedi uno â CRCs i ffurfio'r Gwasanaeth Prawf (PS) |
| **Graddfa aileuogfarnu grŵp troseddwyr (OGRS)** | Mae OGRS yn rhagfynegi aildroseddu ar sail risgiau statig; oed, rhywedd a hanes troseddol |
| **Partneriaid** | Mae partneriaid yn cynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol sy'n gweithio gyda'r cyfranogwr/troseddwr drwy gytundeb partneriaeth â'r PS |
| **Darparwyr** | Mae darparwyr yn cyflenwi gwasanaeth neu gyfraniad a gomisiynir gan y PS gan ei ddarparu dan gontract. Mae hyn yn cynnwys y staff a'r gwasanaethau a ddarperir dan y contract, hyd yn oed os yw'r rhain yn integredig neu wedi'u lleoli o fewn y PS |
| **PSR** | Adroddiad cyn dedfrydu. Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw adroddiad a baratoir ar gyfer llys, wedi'i gyflenwi ar lafar neu ar fformat ysgrifenedig |
| **Ymarferwr prawf** | Y term a ddefnyddir i ddisgrifio naill ai Swyddog Prawf (PO) neu Swyddog Gwasanaethau Prawf (PSO) sy'n gyfrifol am reoli dedfryd pobl ar brawf |
| **Y Gwasanaeth Prawf** | Ers Mehefin 2021, mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol gynt wedi uno i ffurfio'r Gwasanaeth Prawf |
| **Tag amledd radio** | Defnyddir hwn i fonitro amod/gofyniad cyrffyw, lle mae'n rhaid i'r unigolyn ar brawf fod yn bresennol yn ei breswylfa gofrestredig yn ystod cyfnodau penodol |
| **Gofyniad gweithgaredd adsefydlu (RAR)** | O Chwefror 2015 ymlaen, pan roddwyd y *Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr* ar waith, gall llysoedd bennu nifer o ddyddiau RAR o fewn gorchymyn; lle'r gwasanaethau prawf yw penderfynu pa waith yn union i'w wneud yn ystod y dyddiau RAR a ddyfernir |
| **Rhaglen Sgiliau Meddwl (TSP)** | Rhaglen grŵp achredadig sydd wedi'i llunio i ddatblygu sgiliau meddwl troseddwr i'w helpu i gadw'n glir o drwbl |
| **Torri amodau** | Methu â chydymffurfio â'r gofyniad monitro electronig, h.y. gadael cyfeiriad cyrffyw neu beidio â bod yno yn ystod y cyfnod cyrffyw, mynd i mewn i barth eithrio y mae ei leoliad wedi'i fonitro â GPS. |

# Atodiad 3: Methodoleg

Bwriad yr arolygiad oedd ateb y cwestiynau canlynol:

**A yw'r arweinwyr yn cefnogi ac yn hybu'r gwasanaeth prawf i ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol o safon uchel i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu goruchwylio drwy gyfrwng monitro electronig?**

- A yw'r model gweithredu presennol yn cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth effeithiol sy'n diwallu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth?
- A oes arweinyddiaeth effeithiol ar gyfer monitro electronig ar lefel genedlaethol, a gweledigaeth a strategaeth ar waith sydd wedi'u diffinio'n glir ac yn blaenoriaethu ansawdd gwasanaeth a chadw at y sail dystiolaeth?
- A oes cyfathrebu effeithiol am y weledigaeth a'r strategaeth â staff prawf, partneriaid, cyflenwyr a rhanddeiliaid eraill?
- A yw'r tîm o arweinwyr ar lefel genedlaethol a lleol yn dylanwadu ar bartneriaid, cyflenwyr, y llysoedd a rhanddeiliaid eraill yn effeithiol i gynorthwyo i gyflawni'r weledigaeth a'r strategaeth?
- A yw effaith y strategaeth a'r polisi cenedlaethol yn cael ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd?
- A yw'r hyn a gyflenwir yn lleol yn gyson â'r polisi cenedlaethol?
- A oes dealltwriaeth o'r risgiau i gyflenwi monitro electronig ac a oes trefniadau priodol ar waith i sicrhau parhad y gwasanaeth?
- A yw staff yn deall sut dylid cyflenwi monitro electronig ac am beth y maent yn atebol?

**A yw staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth prawf yn cael eu grymuso i ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol o safon uchel i'r rheini sy'n cael eu goruchwylio drwy gyfrwng monitro electronig fel rhan o'u dedfryd?**

- A yw lefelau baich gwaith a sgiliau'r staff yn caniatáu cyflenwi gwasanaeth o safon uchel i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael eu monitro'n electronig?
- A yw ymarferwyr yn cael yr hyfforddiant, y wybodaeth, yr arweiniad, y datblygiad, y gefnogaeth a'r oruchwyliaeth iawn i allu rheoli achosion sy'n cael eu monitro'n electronig?
- A yw staff sy'n goruchwylio achosion monitro electronig yn cael eu cefnogi i ddatblygu a chynnal y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio ar sail amlasiantaeth?
- A yw monitro electronig yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n hybu ymagwedd bersonol i ddefnyddwyr gwasanaeth, gan ystyried ffactorau amrywiaeth?

**A oes ystod gynhwysfawr o wasanaethau o safon uchel ar gael i gefnogi gwasanaeth ymatebol sydd wedi'i deilwra i bawb sy'n cael eu monitro'n electronig?**

- A oes dadansoddiad digon cynhwysfawr a chyfredol o broffil defnyddwyr gwasanaeth, i sicrhau bod monitro electronig yn cael ei dargedu a'i ddefnyddio ar gyfer achosion priodol?
- A yw ffactorau amrywiaeth a materion o anghyfartaledd yn cael sylw digonol yn yr ystod o wasanaethau a ddarperir?
- A yw ffactorau amrywiaeth a materion o anghyfartaledd yn cael sylw digonol yn y modd y darperir gwasanaethau?
- A oes dadansoddiad digonol o batrymau dedfrydu a mathau o droseddau yn lleol?
- A yw perthnasoedd ar draws y gwasanaeth prawf, rhanddeiliaid a phobl sy'n darparu gwasanaethau monitro electronig yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i sicrhau y darperir gwasanaeth o safon uchel?
- Faint o ran y mae'r comisiynydd heddlu a throseddu (PCC) lleol a phartneriaeth diogelwch cymunedol yn ei chwarae o ran ariannu mentrau a all wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i bobl sy'n cael eu monitro'n electronig?

**A oes gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael i gefnogi'r gwasanaeth prawf i ddarparu gwasanaeth personol, ymatebol o safon uchel i bawb sy'n cael eu monitro'n electronig?**

- A yw'r polisïau a'r arweiniad gofynnol ar waith ynghylch monitro electronig i alluogi staff i gyflenwi gwasanaeth o ansawdd da i bobl sy'n cael eu goruchwylio â'r dechnoleg hon?
- A oes canllawiau clir ynglŷn â'r ystod lawn o wasanaethau sydd ar gael, eu haddasrwydd i unigolion a oruchwylir a phrosesau atgyfeirio?
- A yw gwybodaeth yn cael ei chyfnewid â phartneriaid mewn ffordd amserol, gadarn ac effeithiol?
- A yw'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (ICT) yn galluogi staff i gyflenwi gwasanaeth o ansawdd da sy'n diwallu anghenion pawb sy'n cael eu monitro'n electronig?
- A yw dadansoddiadau, tystiolaeth a dysg yn cael eu defnyddio'n effeithiol i arwain gwelliannau i fonitro electronig?

**A yw'r wybodaeth a'r cyngor a roddir i lysoedd/carchardai cyn dedfrydu/cyn rhyddhau yn eu cynorthwyo i wneud penderfyniadau?**

- A yw'r wybodaeth a'r cyngor a roddir i lysoedd/carchardai cyn dedfrydu/cyn rhyddhau yn ddigon dadansoddol a phersonol i'r defnyddiwr gwasanaeth i roi sail i benderfyniadau am ddefnyddio monitro electronig?
- A yw'r wybodaeth a'r cyngor sy'n rhoi sail i benderfyniadau cyn dedfrydu/cyn rhyddhau yn defnyddio digon ar y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am ddiogelu plant a cham-drin domestig?

**Pa mor dda mae monitro electronig yn cynorthwyo unigolion i ymwrthod â throseddu?**

- A yw'r arferion asesu, cynllunio (gan gynnwys cynllunio i ryddhau) ac adolygu yn ddigonol i gynorthwyo i ddarparu ymyriadau personol, cydlynol o ansawdd da, gan ddefnyddio monitro electronig i'r eithaf fel offeryn rheoli achosion?
- A yw ymarferwyr yn gwneud digon i gynnwys y defnyddiwr gwasanaeth ar gamau asesu, cynllunio, gweithredu ac adolygu'r achos, gan ddangos sut mae monitro electronig yn cynorthwyo i gynllunio dedfrydau a rheoli risg?
- A yw defnyddwyr gwasanaeth yn deall y rhesymau pam maent yn cael eu monitro'n electronig a sut mae hyn yn effeithio ar eu goruchwyliaeth yn gyffredinol?
- A roddir digon o sylw i baratoi defnyddwyr gwasanaeth am ddechrau monitro electronig a rheoli eu cynnydd a'u cydymffurfiad drwy gydol y ddedfryd?
- A yw gofynion gorchymyn cymunedol, amodau trwydded a chamau gorfodi monitro electronig yn cael eu defnyddio'n briodol ac yn gymesur?
- A roddir digon o ffocws a sylw i anghenion adsefydlu ac ailsefydlu defnyddwyr gwasanaeth monitro electronig?
- A oes cysylltiad penodol rhwng meithrin cryfderau defnyddwyr gwasanaeth a gwella ffactorau diogelu ar eu cyfer a'r modd y caiff monitro electronig ei gynnwys fel rhan o'r ddedfryd a'r cynllun rheoli risg?

**Pa mor effeithiol yw monitro electronig o ran cadw pobl yn ddiogel?**

- A yw achosion monitro electronig yn cael eu rheoli ar lefel ddigon dwys i gefnogi lefel risg ac angen yr unigolyn, gan ystyried ffactorau sy'n berthnasol i ddiogelu'r cyhoedd?
- A yw anghenion dioddefwyr yn cael digon o flaenoriaeth ar lefel strategol ac ymarferol wrth wneud penderfyniadau am roi monitro electronig ar waith?
- A oes cysylltiadau priodol â threfniadau amlasiantaethol eraill, gan gynnwys MAPPA (Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd) a MARAC (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg) lle bo'n berthnasol, i adlewyrchu cwmpas monitro electronig ac effaith hyn ar reoli'r defnyddiwr gwasanaeth?

- A yw ymarferwyr sy'n gweithio gydag achosion sy'n cael eu monitro'n electronig yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a'r cyhoedd yn ehangach, gan gynnwys, ymysg eraill, gofal cymdeithasol i blant ac oedolion, unedau cam-drin domestig yr heddlu, unedau troseddu trefnedig rhanbarthol a darparwyr tai?
- A yw ymweliadau â'r cartref yn cael eu defnyddio'n briodol i asesu addasrwydd monitro electronig?
- A yw asesiadau ffurfiol yn cyfeirio at sut defnyddir monitro electronig i gynorthwyo i reoli risg defnyddwyr gwasanaeth?

### Galwad am dystiolaeth

Cyn gwneud y gwaith maes, gwnaethom alwad am dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad gan yr ardaloedd Gwasanaeth Prawf sy'n destun yr arolygiad a'r Tîm Monitro Electronig cenedlaethol. Dadansoddwyd cyflwyniadau gan chwe rhanbarth Gwasanaeth Prawf - Cymru; Swydd Efrog a'r Humber; Canol De Lloegr; Llundain; Gogledd Orllewin Lloegr; a Dwyrain Canolbarth Lloegr - a thîm y rhaglen genedlaethol. Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd â staff o'r Grŵp Gwella Gwasanaethau ac Ymarfer Effeithiol a'r Tîm Monitro Electronig cenedlaethol.

### Gwaith maes

Cynhaliwyd peilot o'n methodoleg gwaith maes drwy ddarllen ffeiliau achosion o arolygiad blaenorol yn NPS rhanbarth De Orllewin/Canol De Lloegr. Gyda mân addasiadau, cynhaliwyd gwaith maes wedyn yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, Swydd Efrog a'r Humber, Dyffryn Tafwys, bwrdeistrefi Llundain Brent, Camden ac Islington, yn ogystal â Glannau Mersi a Dinas Nottingham a Sir Nottingham.

Ym mhob ardal yr ymwelwyd â hi, adolygwyd tystiolaeth ymlaen llaw a ddarparwyd gan reolwyr o hen adrannau'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS). Yng Nghymru, arolygwyd 10 o achosion a oedd wedi cael gofyniad monitro ymwrthod ag alcohol (AAMR), 15 achos gorchymyn cymunedol arall a phedwar a ryddhawyd ar drwydded. Ym mhob ardal arall arolygwyd tua 29 o achosion a oedd naill ai wedi cael gorchymyn cymunedol neu'n cael eu goruchwylio ar drwydded. At ei gilydd, roedd 49 y cant o'r achosion yn achosion gorchmynion cymunedol a 51 y cant ohonynt yn achosion goruchwylio ar drwydded ar ôl rhyddhau.

Dechreuodd yr arolygiad hwn yng Nghymru lle cyfunwyd y gwaith o reoli troseddwyr rhwng yr hen CRC a'r NPS ar ddiwedd 2019. Dechreuodd gwaith maes yn Lloegr ar 26 Gorffennaf 2021, bedair wythnos ar ôl uno'r holl wasanaethau i ffurfio'r Gwasanaeth Prawf newydd. Roedd yr achosion a arolygwyd yn derbyn gwasanaethau dan y model cyflenwi eithriadol a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r pandemig Covid-19. Roedd Gwasanaethau Monitro Electronig, darparwyr y gwasanaeth monitro electronig, hefyd yn defnyddio model cyflenwi eithriadol, er eu bod yn dal i osod a monitro cyfarpar.

Ar draws y chwe rhanbarth yr ymwelwyd â hwy, cynhaliwyd cyfanswm o 59 o gyfarfodydd a grwpiau ffocws. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd ag uwch arweinwyr strategol, penaethiaid diogelu'r cyhoedd a rheolwyr gweithredol o'r Gwasanaethau Prawf, grwpiau ffocws gydag ymarferwyr prawf a swyddogion llys prawf, timau Rheoli Troseddwyr Integredig, gan gynnwys cynrychiolwyr yr heddlu, cyfarfodydd ag arweinwyr cyrffyw cyfyngu i'r cartref (HDC)/rheoli troseddwyr yn y carchar mewn carchardai, PCC lleol, Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer (Llundain) a 19 o ddedfrydwyr lleol. Fel rhan o'r arolygiad hwn, ymwelodd y prif arolygydd hefyd â phencadlys gweithredol Gwasanaethau Monitro Electronig a siaradodd â staff sy'n gyfrifol am ofynion AAMR, monitro HDC, monitro GPS, gorfodi a rheoli galwadau yn ôl ac ymlaen â phobl sy'n cael eu monitro'n electronig. Roedd hyn hefyd yn cynnwys cyfarfod â'r rheolwr technegol â chylch gwaith cenedlaethol.

Hefyd, cynhaliwyd wythnos o gyfarfodydd cenedlaethol. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd â phennaeth gweithrediadau monitro electronig, cyfarwyddwr ehangu'r rhaglen monitro electronig, cyfarwyddwr y rhaglen etifeddol monitro electronig, tîm polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y tîm rheoli contractau monitro electronig, y tîm polisi gweithredol monitro electronig, tri chyfarfod â'r tîm newid busnes a rhanddeiliaid, arweinydd polisi HDC, cynrychiolwyr yr Adran Diogelwch Gwladol, a'r

grŵp sicrhau systemau a gweithrediad. Cawsom arddangosiad hefyd o'r offeryn fframwaith ymarfer effeithiol gan y tîm strategaeth busnes a newid.

### Nodweddion y sampl achosion[22]

Mae'r tablau isod yn dangos nodweddion yr unigolion a arolygwyd fel rhan o'r sampl achosion.

| Rhywedd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwryw | 135 | 79% |
| Benyw | 36 | 21% |

| Hil ac ethnigrwydd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwyn | 130 | 76% |
| Cefndir ethnig cymysg/lluosog | 6 | 4% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 8 | 5% |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 20 | 12% |
| Heb ei gofnodi'n glir | 7 | 4% |

| Oed | Nifer | % |
|---|---|---|
| 18-25 | 29 | 17% |
| 26-35 | 55 | 32% |
| 36-55 | 73 | 42% |
| 56+ | 15 | 9% |

### Ymgysylltu â phobl ar brawf

Roedd cyfweliadau â phobl ar brawf ym mhob rhanbarth yn rhan allweddol o'n methodoleg. Roedd gennym gontract â Penal Reform Solutions, "sefydliad sy'n canolbwyntio ar weddnewid diwylliant cosbi, drwy sgwrsio am gosbi, drwy weithio gydag ymarferwyr a phobl ar brawf i'w gwneud yn ganolog i'r broses o newid". Cynhaliodd y tri ymgynghorydd 'profiad byw' gyfanswm o 42 cyfweliad dros y ffôn, gan gynnwys 32 o ddynion, wyth o fenywod a dau gyfranogwr â math arall o hunaniaeth. O'r rhai y cyfwelwyd â hwy, roedd 36 o'r cyfranogwyr yn ystyried eu hunain yn wyn Prydeinig, un gwyn Gwyddelig, un o gefndir ethnig cymysg/lluosog, un du Affricanaidd, dau ddu Caribïaidd ac un Asiaidd Indiaidd. Roeddent yn cynnwys 37 o gyfranogwyr â gofynion cyrffyw, a saith o'r rhain wedi cael HDC, tri chyfranogwr wedi cael AAMR a dau â pharth eithrio wedi'i fonitro â thechnoleg GPS. Gofynnodd yr ymgynghorwyr profiad byw i'r cyfranogwyr am eu profiad o gael eu monitro'n electronig ac effaith hyn arnynt a'u hadsefydlu a'u hailsefydlu. Dadansoddwyd nodiadau a thapiau'r cyfweliadau, a chynhyrchwyd crynodeb o themâu allweddol hanner ffordd drwy'r arolygiad ac ar ddiwedd y gwaith maes, a gyfunwyd wedyn i ffurfio adroddiad terfynol.

### Ymholiadau dilynol

Ar ôl y gwaith maes, cynhaliwyd cyfarfodydd pellach o bell ag arweinwyr gwasanaethau digidol HDC a chynrychiolwyr o'r Bwrdd Parôl i ddilyn llinellau ymholi penodol.

[22] Oherwydd talgrynnu efallai na fydd canrannau'n adio i 100 y cant.